# ADOLYGIAD BLYNYDDOL

Prifysgol Abertawe
Swansea University

2024

# CYNNWYS


02 – CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD

04 – CYFLWYNIAD YR IS-GANGHELLOR

06 – FFEITHIAU A FFIGURAU

10 – EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

12 – EIN GWERTHOEDD

14 – EIN CYMUNED STAFF

18 – EIN DYSGU A'N HADDYSGU

22 – PROFIAD EIN MYFYRWYR

26 – EIN HYMCHWIL A'N MENTERGARWCH

30 – EIN PRIFYSGOL RYNGWLADOL

34 – EIN HYSTAD DDIGIDOL

36 – EIN HYSTAD DDIRIAETHOL

38 – EIN CYNALIADWYEDD

46 – ADOLYGIAD ARIANNOL

58 – PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

61 – DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

63 – DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

70 – YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y POLISI CYFLOGAU

72 – ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

76 – DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

78 – DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

84 – DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

85 – DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A RHAI'R SEFYDLIAD

86 – DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN PAROD CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

87 – DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

88 – NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

# CYFLWYNIAD Y CADEIRYDD



Fel Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd Cyngor y Brifysgol newydd, mae'n anrhydedd cael y cyfle i gyflwyno Adolygiad Blynyddol y Brifysgol. Ar ran y Cyngor, hoffwn i ddechrau drwy ddiolch i Bleddyn Phillips am ei arweinyddiaeth neilltuol o'r Cyngor dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, mae llywodraethu da, yn y Cyngor ac ym mhob rhan o'n Prifysgol, wedi cael ei fabwysiadu, ei wella a'i ehangu, gan hefyd wreiddio diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw. Cydnabuwyd y gwelliannau hyn yn ddiweddar yn ein hadolygiad annibynnol o lywodraethu, a ddaeth i'r casgliad y gellid cael hyder sylweddol yn nhrefniadau llywodraethu'r Brifysgol. Er ein bod yn croesawu'r canlyniad hwn, mae'r Cyngor, fel rhan o'i ymrwymiad i wella'n barhaus, wedi cytuno i wella ei drefniadau llywodraethu ymhellach, yn benodol mewn perthynas â llywodraethu academaidd, effeithiolrwydd gweithredol a sefydlu a datblygu aelodau'r Cyngor. Rydym hefyd wedi gweithredu'r rhan fwyaf o'r argymhellion a nodwyd gan Adolygiad CAMM, ac wedi cynnal adolygiad o Lys y Brifysgol yn ddiweddar a gaiff ei gyflwyno i'r Llys ym mis Chwefror 2025.

Fel corff llywodraethu'r Brifysgol, rhan o rôl y Cyngor yw sicrhau bod strategaeth a chyllid y Brifysgol yn cael eu harchwilio a'u llywodraethu'n briodol er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ein henw da fel Prifysgol sy'n ymfalchïo yn ei hymchwil ragorol a'i haddysgu o'r safon uchaf. Mae'r Cyngor yn cydnabod y bu hon yn flwyddyn anodd gan ystyried yr heriau ariannol a wynebir gan y sector a'r Brifysgol. Mae cynnydd da wedi'i wneud ac yn dal i gael ei wneud, ond mae llawer i'w gyflawni o hyd. Ar ran y Cyngor, hoffwn i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Is-ganghellor, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a holl staff ein Prifysgol am eu hymrwymiad a'u gwaith caled parhaus sydd wedi galluogi'r Brifysgol i ymateb i'r heriau hyn. Yn ddiamau, mae'r ymdrechion hyn wedi rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa gref i wynebu'r hinsawdd ariannol fwy anodd sydd o'n blaenau.

Mae darparu profiad ardderchog i'n myfyrwyr wrth wraidd nodau strategol y Brifysgol, ac elfen hollbwysig o hyn yw'r berthynas agos rhwng y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i sicrhau bod lleisiau'r myfyrwyr wir yn cael eu clywed yn Abertawe. Rydym yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Undeb y Myfyrwyr, fel rhan o'i adolygiad o lywodraethu, i sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed a bod myfyrwyr yn cael eu cynrychioli ar holl fyrddau, pwyllgorau a gweithgorau'r Brifysgol. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i gefnogi Undeb y Myfyrwyr wrth iddynt barhau i roi eu trefniadau llywodraethu newydd ar waith, ochr yn ochr â sicrhau bod y cymorth gorau posib ar gael i'n myfyrwyr.

Ar lefel bersonol, bydd yn anrhydedd cadeirio'r Cyngor a gwneud fy rhan wrth arwain cynnydd y Brifysgol dros y blynyddoedd nesaf. Mae uchafbwyntiau allweddol fy mlwyddyn gyntaf wedi cynnwys seremonïau graddio'r Brifysgol lle cefais y fraint o ddathlu cyflawniadau ein graddedigion a chyflwyno'r Gwobrau Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Addysgu i aelodau o'n staff academaidd i gydnabod eu cyfraniad neilltuol at waith academaidd ein myfyrwyr.

Wrth i ni i gyd barhau i gydweithio, mae gennyf bob ffydd y byddwn yn llwyddo ac yn parhau i ffynnu, o ganlyniad i ymroddiad a doniau ein staff, ein myfyrwyr a'n holl randdeiliaid sydd bob amser yn gweithio er buddiannau gorau ein Prifysgol.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i holl aelodau Cyngor y Brifysgol a'i bwyllgorau, sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd o'u gwirfodd i gefnogi'r Brifysgol, am eu hymrwymiad a'u cyfraniad parhaus i'r Brifysgol.

**Mr Goi Ashmore,**
Cadeirydd y Cyngor
25 Tachwedd 2024

# CYFLWYNIAD YR IS-GANGHELLOR



Wrth i'r sector addysg uwch yn y DU barhau i wynebu pwysau sylweddol, rwy'n hynod falch o hyd o wydnwch ac ymroddiad cymuned gyfan ein Prifysgol. Mae'r sylfaen gadarn hon wedi ein galluogi i barhau i ganolbwyntio ar bwrpas craidd ein Prifysgol: ein gweithgarwch dysgu ac addysgu, profiad ein myfyrwyr, ein hymchwil, ein mentergarwch a'n cenhadaeth ddinesig.

Eleni, rwy'n hynod ddiolchgar i'n staff am eu hymdrechion parhaus i gynnal y safonau uchaf o ansawdd academaidd. Drwy gydol ein hanes, rydym wedi ymdrechu i ddarparu'r addysgu o safon uchel, wedi'i lywio gan ein hymchwil o'r radd flaenaf, sy'n sicrhau bod pob un o fyfyrwyr Abertawe wedi'i baratoi'n dda i lwyddo mewn byd mwyfwy cystadleuol. Mae ein hymdrechion wedi cael eu hadlewyrchu eleni gan ein sgorau gwell yn saith o'r wyth thema yn Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr 2024, ynghyd â chyfradd boddhad cyffredinol o 81%. Roeddem wrth ein boddau hefyd yn sicrhau safle 29 yng nghanllaw prifysgolion The Guardian 2025 a chael ein henwi'n Brifysgol y Flwyddyn yng Nghymru 2025 gan The Times.

Wrth wraidd cenhadaeth ein Prifysgol y mae ymrwymiad i ddarparu profiadau dysgu trawsnewidiol, o ran ansawdd ein haddysgu a'r cymorth a'r cyfleoedd a ddarperir i'n myfyrwyr yn ystod eu hamser gyda ni. Eleni, roedd hi'n bleser mawr gennym agor drysau ein Canolfan Efelychu a Dysgu Ymdrochol (SUSIM) newydd, sy'n gartref i'r dechnoleg wal ymdrochi fwyaf yn Ewrop ac yn cynnig cyfle i fyfyrwyr, yn enwedig ar raglenni gofal iechyd, i ymarfer sgiliau mewn senarios wedi'u hefelychu o fywyd go iawn. Ar ben hyn, gwnaethom lansio ein Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd, sy'n integreiddio priodweddau cyflogadwyedd allweddol yn uniongyrchol yn ein cwricwla. Drwy ddysgu yn seiliedig ar waith ac ymgysylltu â chyflogwyr, rydym yn gweithio i gynyddu cyfleoedd i'n myfyrwyr gael profiad o'r byd go iawn yn ystod eu hastudiaethau, â'r nod o gefnogi pob myfyriwr sy'n graddio o Abertawe i symud yn hwylus i'r gweithle.

Gan ystyried yr heriau amrywiol a chymhleth mae ein myfyrwyr yn eu hwynebu ochr yn ochr â'u hastudiaethau, eleni rydym wedi ceisio darparu'r cymorth, yr adnoddau a'r arweiniad sy'n hanfodol i'w galluogi i gyflawni llwyddiant academaidd. Yn ogystal â'n cymorth traddodiadol ar gyfer iechyd a lles, gwnaethom ddarparu adnodd hunangymorth ar-lein, Hapus, sy'n helpu myfyrwyr i ymdopi â straen, pryder ac iselder. Gan fod yn ymwybodol o'r argyfwng costau byw sy'n parhau, roeddem yn falch hefyd o ehangu ein darpariaeth bwrsariaethau a chronfeydd caledi i sicrhau mynediad ar gyfer y rhai hynny sydd yn yr angen mwyaf.


Fel sefydliad, rydym yn falch o gyflawni rhagoriaeth addysgu, ochr yn ochr â gweithgarwch ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf, ac amlygir rhai o'n straeon llwyddiant ymchwil unigol ar dudalen 28. Mae ein cryfder ymchwil wedi bod â'i wreiddiau ers amser hir mewn cydweithredu effeithiol i gyflawni effaith go iawn, ar gyfer ein planed a'i phobl. Cafodd ein ffocws parhaus ar effaith ei adlewyrchu yn ein hail Wobr Pen-blwydd y Frenhines am Addysg Uwch, a ddyfarnwyd yn ffurfiol i Fanc Data SAIL ym mis Chwefror 2024. Mae'r anrhydedd cenedlaethol uchel ei fri hwn yn cydnabod gwaith y Banc Data sy'n arwain y ffordd yn fyd-eang ym maes defnyddio data'r boblogaeth i lywio polisïau sy'n effeithio ar iechyd a lles y cyhoedd. Mae'n amlygu budd cyhoeddus sylweddol ein hymchwil ac yn tanlinellu ein hymrwymiad i arloesi llawn effaith, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Mae cryfder effaith ein hymchwil yn rhan o'n proffil rhyngwladol cynyddol, sydd wedi'i adlewyrchu yn ein gwelliant parhaus yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS. Eleni (2025), gwnaethom ddringo i safle 298, sy'n cynrychioli ein safle gorau erioed, ac rydym yn falch o gael ein henwi ymhlith y 100 o sefydliadau gorau yn Ewrop. Rydym hefyd wedi parhau i ehangu arlwy Prifysgol Abertawe ledled y byd drwy ddarparu rhaglenni a gweithgarwch dysgu newydd, gan gynnwys ein gradd israddedig ddeuol arloesol mewn Cyfraith Forwrol, ar y cyd â Phrifysgol Dalian Maritime (DMU) yn Tsieina, a groesawodd ei charfan gyntaf o fyfyrwyr ym mis Medi 2024. Yn ogystal, bydd ein hôl troed byd-eang yn ehangu ymhellach wrth i ni agor swyddfeydd newydd ym Malaysia a'r Emiradau Arabaidd Unedig. Eleni hefyd, bu'n anrhydedd gennym gynnal nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yma yn rhanbarth Abertawe, gan gynnwys ymweliad arbennig gan yr Ysgrifennydd Clinton a'r Arlywydd Clinton ym mis Tachwedd 2023, a Chynhadledd Flynyddol Cymdeithas Prifysgolion Ewrop, a groesawodd dros 250 o is-gangellorion a rheithoriaid o bob cwr o Ewrop ym mis Ebrill 2024.

Er bod ein hymagwedd ryngwladol yn hollbwysig, mae gennym wreiddiau dwfn o hyd yn y gymuned leol y cawsom ein sefydlu i'w gwasanaethu. Ochr yn ochr â'n partneriaethau parhaus ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a cholegau addysg bellach, eleni gwnaethom lansio'r Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer Arloesi mewn Chwaraeon ac Iechyd (NNISH), partneriaeth uchelgeisiol ym meysydd academaidd, diwydiannol a'r GIG yn Abertawe. Drwy'r cydweithrediad hwn, a gefnogir yn rhannol gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, byddwn yn ysgogi arloesi ym meysydd gofal iechyd, meddygaeth a thechnoleg chwaraeon, er lles ein rhanbarth a'r boblogaeth ehangach.

Wrth fyfyrio ar gyflawniadau'r flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg bod cymaint y gall ein Prifysgol ymfalchïo ynddo. Fodd bynnag, mae'n bwysig hefyd ein bod yn cydnabod yr heriau ariannol yn y sector addysg uwch, a bod effaith y pwysau hyn wedi cael ei theimlo, ac y bydd yn parhau i gael ei theimlo, yn ein sefydliad ni ac yn y sector yn ehangach. Yn debyg i sefydliadau eraill yn y sector, rydym wedi rhoi amrywiaeth o fesurau ar waith eleni i ymateb, o dan ein Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol (gweler tudalen 47), i'r heriau hyn y gwyddom y byddant yn effeithio ar flynyddoedd y dyfodol hefyd. Felly, rwy'n hynod falch ein bod wedi cadw ein hymdeimlad o bwrpas, ein cenhadaeth a hunaniaeth ein sefydliad - 'Anian Abertawe' - drwy gydol y cyfnod hwn, ac rwy'n ffyddiog bod hon yn sylfaen ardderchog y byddwn yn parhau i adeiladu arni yn y blynyddoedd i ddod.

**Yr Athro Paul Boyle,**
Is-ganghellor
25 Tachwedd 2024



# FFEITHIAU A FFIGURAU

THE TIMES
THE SUNDAY TIMES
GOOD UNIVERSITY GUIDE 2025
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

## NIFEROEDD MYFYRWYR

**17,144**
O ISRADDEDIGION

**4,718**
O ÔL-RADDEDIGION

**18,576**
O FYFYRWYR CARTREF

**3,282**
O FYFYRWYR RHYNGWLADOL

## CANLYNIADAU MYFYRWYR

**81%** O'R MYFYRWYR YN FODLON

NSS Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr National Student Survey

(AROLWG CENEDLAETHOL O FYFYRWYR 2024)

**82.5%** WEDI ENNILL GRADD DOSBARTH CYNTAF NEU AIL DDOSBARTH UWCH (22–23)

THE TIMES THE SUNDAY TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2025

(Times Good University Guide 2025)

**81%** O'N GRADDEDIGION WEDI CAEL CANLYNIAD CADARNHAOL

THE TIMES THE SUNDAY TIMES GOOD UNIVERSITY GUIDE 2025

(The Times Good University Guide 2025)

## TABLAU CYNGHRAIR CYNALIADWYEDD

**65AIN** Times Higher Education Impact Rankings

(THE Impact Rankings 2024)

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS – 12 Responsible consumption and production

**9FED YN Y BYD**

(Tablau Effaith THE 2024)

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS – 15 Life on land

**19EG YN Y BYD**

(Tablau Effaith THE 2024)

SUSTAINABLE DEVELOPMENT GOALS – 16 Peace, justice and strong institutions

**26AIN YN Y BYD**

(Tablau Effaith THE 2024)

QS World University Rankings **80AIN**

**SAFLE CYNALIADWYEDD**

(Safleoedd Cynaliadwyedd QS 2025)

**8FED YN Y DU** People & Planet University League

(Cynghrair Prifysgolion People & Planet 2023/24)

## CYLLID

**£347m** CYFANSWM INCWM

**£327m** CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN

**£19m** EBITDA

**5%** EBITDA FEL % O INCWM

## SAFLEOEDD BYD-EANG

QS World University Rankings

**SAFLE 28 YN FYD-EANG**

(Safloedd Prifysgolion y Byd QS 2025)

THE World University Rankings 2024

**251-300EG**

(Safloedd Prifysgolion y Byd THE 2024)

## SAFLEOEDD YN Y DU

**37AIN** The Times The Sunday Times Good University Guide 2025

(Times Good University Guide 2025)

**29AIN** The Guardian

(The Guardian University Guide 2025)

**37AIN** Complete University Guide

(Complete University Guide 2025)

## RHAGORIAETH YMCHWIL

**86%** REF2021 Research Excellence Framework

O'N HYMCHWIL YN ARWAIN Y FFORDD YN FYD-EANG AC YN RHAGOROL YN RHYNGWLADOL

# EIN GWELEDIGAETH STRATEGOL

EIN GWELEDIGAETH

**Mae dogfen Gweledigaeth Strategol a Phwrpas ein Prifysgol (a gyhoeddwyd yn 2020) yn nodi ein bod, ac y byddwn, yn sefydliad egwyddorol, pwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol ag ymchwil ac arloesi o safon fyd-eang mewn amgylchedd agored sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori.**

Mae cydweithredwyr ledled y byd yn ein gwerthfawrogi fel partner dibynadwy, ond rydym hefyd yn hollol ymrwymedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol ar gyfer Cymru.




## Ein Strategaeth

Mae ein Strategaeth yn adlewyrchu'r weledigaeth hon. Mae ein cymuned o gydweithwyr, myfyrwyr, partneriaid a rhanddeiliaid yn nodweddiadol am y gwerthoedd, y diwylliant a'r ymddygiadau arbennig sy'n greiddiol i ni.

Mae ymrwymiad ein cymuned yn sylfaen i bum piler strategol allweddol ein Prifysgol: ein cenhadaeth ddinesig, profiad y myfyrwyr, dysgu ac addysgu, ymchwil a mentergarwch. Nodir pob un o'r rhain gan ein hymrwymiad i wneud gwahaniaeth, gweithredu â chyfrifoldeb cymdeithasol, ymdrechu i gyflawni rhagoriaeth a chynnal meddylfryd byd-eang sydd yn ein galluogi i fod yn Brifysgol gymunedol â chyrhaeddiad ac enw rhyngwladol.

Mae ein gwaith wedi'i alluogi gan arweinyddiaeth gref a llywodraethu cadarn, cyfathrebu effeithiol ac ymrwymiad i gynaliadwyedd ariannol ac amgylcheddol. Mae'n seiliedig ar ein hisadeiledd digidol a diriaethol, ein strategaeth ryngwladoli a'n hymagwedd at recriwtio cydweithwyr dawnus a brwdfrydig.



# EIN GWERTHOEDD

**Ein pobl yw ein hased pwysicaf ac maent yn diffinio ein Prifysgol. Rydym yn deall bod ein hymddygiadau beunyddiol yn bwysig ac felly mae gennym ffydd yn ein gilydd, rydym yn cefnogi ein gilydd, yn dathlu cyflawniadau ein gilydd ac yn dwyn ein gilydd i gyfrif.**

Rydym yn parchu ein cydweithwyr ac yn trin eraill fel y byddem yn disgwyl iddynt ein trin ni, ac rydym yn gweithio fel un brifysgol, gan gydnabod bod pob cydweithiwr a phob myfyriwr yn cyfrannu at ein llwyddiant.

Credwn yng ngwerth hyblygrwydd, cydweithredu a chreu amser i feddwl, gan ddilyn trywydd ysgogiad deallusol, gwreiddioldeb ac effaith. Rydym yn cydweithio mewn amgylchedd proffesiynol a gofalgar sydd yn ein galluogi i ragori ar ddisgwyliadau er lles pawb. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd lle gall ein cydweithwyr gyflawni eu potensial ac rydym yn ymdrechu i roi platfform i alluogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i drafod eu profiadau â'r gymuned.

Yn olaf, rydym yn cydnabod ein bod yn sefydliad angori diwylliannol ac economaidd yn ein cymuned. Mae gennym rôl arbennig i'w chwarae wrth ysgogi datblygiad rhanbarthol a hybu iechyd a lles, ac rydym yn falch o fod yn gadarnle treftadaeth, iaith a diwylliant Cymru.

# PILERI ALLWEDDOL

## Ein Cenhadaeth Ddinesig

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe a Dinas-ranbarth Bae Abertawe ehangach ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni, ac mae gennym gyfrifoldeb i weithio gyda'n cymuned a Chymru ac er eu lles.

## Profiad ein Myfyrwyr

Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol. Rydym yn ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth wneud penderfyniadau ac rydym yn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd profiad ein myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob myfyriwr sy'n dewis Abertawe fel ei gartref yn cael y profiad gorau posib yma.

## Ein Dysgu ac Addysgu

Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o'n pwrpas. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal ein statws fel cymuned sy'n cydbwyso rhagoriaeth ymchwil ac addysgu.

## Ein Hymchwil

Mae ein hymchwil yn newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal ag ar ein hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed. Rydym yn ysgogi newidiadau mewn polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i gyfoethogi bywydau pawb drwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.

## Ein Mentergarwch

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau â chwmnïau angori a busnesau bach a chanolig yng Nghymru ac â'r sefydliadau niferus rydym yn cydweithredu â nhw'n rhyngwladol.

# EIN CYMUNED STAFF

**Ein staff yw ein hased mwyaf, gan ddiffinio ein hunaniaeth a'n llwyddiant. Rydym yn blaenoriaethu meithrin amgylchedd cefnogol a dathliadol, lle mae parch a chyd-atebolrwydd yn ganolog, ac yn gweithio'n gydweithredol fel un sefydliad, sy'n cydnabod cyfraniadau unigryw pob cydweithiwr a myfyriwr.**












Mae'r ddogfen Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas yn nodi amrywiaeth o flaenoriaethau sy'n ymwneud â'n Pobl, ein Gwerthoedd, ein Diwylliant a'n Hymddygiad, gan gynnwys:


- Hyrwyddo ymagwedd sy'n arwain y sector at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, cau'r bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau a chynyddu cyfran yr athrawon benywaidd;
- Gweithredu strategaeth iechyd a lles i sicrhau ein bod yn galluogi ein cydweithwyr i ffynnu ac i lwyddo;
- Herio gwahaniaethu a mynd i'r afael â'i ffynonellau, gan sicrhau y clywir lleisiau grwpiau nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant y Brifysgol, sy'n cael ei gadeirio ar y cyd gan ein His-ganghellor a'n Prif Swyddog Gweithredu a Chofrestrydd, wedi gweithio i ddatblygu Strategaeth Pobl a Diwylliant y Brifysgol drosfwaol i'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.







### Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn

Eleni, roedd llawer o'n mentrau yn canolbwyntio ar rymuso pob aelod o'n cymuned, yn enwedig y rhai hynny o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, drwy ddarparu llwyfannau i staff leisio eu profiadau a thrwy annog deialog agored ynghylch yr holl nodweddion gwarchodedig.

Cryfhawyd ein hymrwymiad i'r flaenoriaeth strategol hon drwy benodi, ym mis Mawrth 2024, ein Dirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol cyntaf ar gyfer Cydraddoldeb, Amrywiaeth, Cynhwysiant a Pherthyn, yr Athro Camilla Knight.

Rydym hefyd yn hynod falch o nifer o gyflawniadau, cerrig milltir a gweithgareddau yn y maes pwysig hwn eleni:

- Adolygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2024-28) y sefydliad, gan ei ehangu y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig y manylir arnynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a chynnwys ystyriaethau megis statws economaidd-gymdeithasol a gofalu;
- Ochr yn ochr â'n hymdrechion parhaus i gynyddu cynrychiolaeth menywod ar lefel uwch a chau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, roedd hi'n bleser mawr gennym y cafodd Gwobr Arian Athena Swan y sefydliad ei hadnewyddu ym mis Tachwedd 2024, sy'n golygu ein bod yn un o 37 o brifysgolion yn unig yn y DU ar yr un cyntaf yng Nghymru i'w hennill;
- Mae pob un o'n hadrannau academaidd cymwys wedi ennill gwobr Athena Swan a dyfarnwyd tair gwobr arian a saith gwobr efydd ar draws ein sefydliad;
- Ym mis Ionawr 2024, gwnaethom gyflawni ein safle uchaf erioed ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, sef pumed ymhlith 100 o gyflogwyr gorau'r DU ac un o'r sefydliadau addysg gorau;
- Gwnaethom ddatblygu Polisi Niwroamrywiaeth sefydliadol newydd, sydd â'r nod o gefnogi a grymuso cydweithwyr niwrowahanol yn y gweithle ac a gaiff ei roi ar waith yn 2025.

### Herio gwahaniaethu

Drwy gydol y flwyddyn academaidd, buom yn parhau i gymryd rhan yn y rhaglen wella gydweithredol Race Access and Success a ariennir gan Medr â'r nod o wella cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch yng Nghymru. Gwnaethom sefydlu Tîm Hunanasesu ar gyfer y Siarter Cydraddoldeb Hiliol ac rydym yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno cais am wobr Efydd y Siarter Cydraddoldeb Hiliol yn 2025. Yn ogystal, gwnaethom adnewyddu ein Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddefnyddwyr a dyfarnwyd Nod Ymddiriedaeth y Siarter Troseddau Casineb i ni.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, roeddem yn falch o ddathlu amrywiaeth o ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn academaidd, gan gynnwys Diwrnod Coffáu'r Holocost, Mis Hanes LDHT+, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a Mis Hanes Pobl Dduon. Cyflwynwyd sesiynau llwyddiannus ar gyfer staff hefyd a oedd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o Islamoffobia a Gwrthsemitiaeth.

### Cefnogi ein cymuned a datblygu ein harweinwyr

Eleni, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i gefnogi ein cymuned i ymwneud â'n Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol. Felly, mae ein hymdrechion wedi canolbwyntio ar ddarparu cymorth lles a galluogi ein harweinwyr i fynd i'r afael â'r cyfnod hollbwysig hwn.

Gwnaethom barhau i hyrwyddo a chefnogi lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol ein staff drwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys ein gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, ein gwasanaeth cwnsela a'n platfform iechyd meddwl digidol, Togetherall. Yn ogystal â chymorth iechyd meddwl, buom yn ymdrechu i gefnogi lles corfforol ein cydweithwyr drwy ymagwedd gyfannol, drwy gynnig gwasanaethau megis asesiadau iechyd, sesiynau osteopatheg am ddim ac atgyfeiriadau golwg.

Mae arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel yn ein helpu i gyflawni fel sefydliad. Felly, rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.

Eleni, mae ein rhaglenni datblygu arweinyddiaeth wedi cynnig cyfuniad o hyfforddi unigol, dysgu gweithredol a sesiynau grŵp wyneb yn wyneb, gan ganolbwyntio ar ymdopi â'r broses barhaus o ailgynllunio ein Gwasanaethau Proffesiynol a gwella lles timau. Un o'n mentrau mwyaf effeithiol eleni oedd ein cwrs newydd, 'Arwain ar Adeg Ansicr', sesiwn hanner dydd wedi'i chynllunio ar gyfer ein holl arweinwyr a rheolwyr i'w cefnogi i arwain eu timau drwy amwysedd.

### Gwobrwyo a chydnabyddiaeth

Yn ystod 2023/24, ailddatganwyd ein hymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol, gan sicrhau bod cydnabyddiaeth ariannol ein holl gydweithwyr, ac yn enwedig y rhai hynny ar y cyflogau isaf, yn adlewyrchu gwir gost byw, yn hytrach na bodloni'r lefel gyfreithiol isaf ofynnol yn unig.


Er i ni wneud y penderfyniad anodd i beidio â chynnal rownd o ddyrchafiadau academaidd yn 2023/24, rydym wedi defnyddio'r seibiant eleni i ddatblygu fframwaith Llwybrau Gyrfa Academaidd newydd. Yn unol â'n hymrwymiad i'r egwyddorion a amlinellir yn y Datganiad ar Asesu Ymchwil, a'n haelodaeth o'r Glymblaid ar gyfer Gwella Asesu Ymchwil, nod ein fframwaith Llwybrau Gyrfa Academaidd newydd yw defnyddio metrigau yn gyfrifol, ac adlewyrchu'n well y ffyrdd amrywiol mae ein cydweithwyr academaidd yn ychwanegu gwerth ar adegau gwahanol yn eu gyrfaoedd.

Bydd y llwybrau newydd, sydd wedi cael eu llunio drwy ymgysylltu â'n cymuned academaidd, yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau penderfynu allweddol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.



# EIN DYSGU A'N HADDYSGU

Mae ein myfyrwyr, a'u profiadau, eu hanghenion a'u huchelgeisiau amrywiol, yn llywio'r amgylchedd rydym yn ceisio ei feithrin ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu dysgu ac addysgu rhagorol ac rydym yn falch o ystyried anghenion a disgwyliadau myfyrwyr yn ein prosesau penderfynu, drwy weithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr ac Undeb y Myfyrwyr.











Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, rydym wedi lansio sawl menter i wella ein darpariaeth ac i gefnogi cyfraddau cadw, dilyniant a chyflawniad myfyrwyr ar draws ein Prifysgol.

**Adborth myfyrwyr a'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS)**

Rydym yn ymrwymedig i wella'n barhaus y profiad rydym yn ei ddarparu i'n cymuned o fyfyrwyr, ac felly mae eu hadborth yn bwysig iawn i ni.

O ganlyniad uniongyrchol i ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) 2023, gwnaethom drawsnewid y ffordd rydym yn ymateb i adborth heriol gan fyfyrwyr er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella profiad y myfyrwyr. Yn ystod 2023/24, mabwysiadodd ein Cyfadrannau a'n Gwasanaethau Proffesiynol sy'n ymwneud â myfyrwyr ymagwedd wedi'i thargedu, ar sail cynllunio gweithredu, gan roi rhaglen o ymyriadau wedi'u targedu ar waith ar draws nifer o ddisgyblaethau a meysydd pwnc lle mae canlyniadau wedi bod yn gwaethygu neu islaw cyfartaleddau'r sector.

Ym mis Awst eleni, cawsom ganlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr diweddaraf (2024). Mae'r data cychwynnol o NSS mis Gorffennaf 2024 yn awgrymu bod yr ymyriadau wedi'u targedu hyn wedi llwyddo i wella sgorau nifer o'r rhaglenni a'r pynciau a dargedwyd. Rydym yn bwriadu parhau â'r ymagwedd dargedu hon yn y flwyddyn i ddod er mwyn cynnal ac adeiladu ar y gwelliant hwn.

Ar lefel sefydliadol, roeddem yn falch o weld gwelliannau yn ein sgorau yn saith o wyth thema NSS 2024, gyda'n sgôr am Foddhad Cyffredinol yn codi i 81% (i fyny o 76% yn 2023) a'n sgôr am Gymorth Academaidd yn cynyddu i 86% (i fyny o 81%). Mae'r gwelliannau hyn yn adlewyrchu datblygiadau cadarnhaol mewn amrywiaeth o feysydd pwnc a gwelwyd cynnydd blwyddyn ar flwyddyn yn sgorau 36 o'n 58 o bynciau.

Er ei fod yn ffynhonnell gwybodaeth bwysig, dim ond un llwybr o geisio adborth myfyrwyr yw'r NSS. O'r flwyddyn hon, bydd ein Fforwm Ymgynghorol Myfyrwyr yn hwyluso ymgysylltu cryfach rhwng myfyrwyr a staff. Gan weithredu drwy ein platfform *Unitu* a ail-lansiwyd, sy'n lle diogel ar-lein i fyfyrwyr rannu adborth mewn amser real, bydd y fenter hon yn galluogi Pwyllgor Addysg y Brifysgol i ymateb i adborth ar brofiad myfyrwyr ond hefyd i adrodd yn ôl i'r myfyrwyr presennol am sut rydym yn bwriadu gwneud hyn.

**Defnyddio dadansoddeg ddysgu**

Er bod ein cyfraddau cadw myfyrwyr wedi bod yn gryf yn hanesyddol, mae'n drist nodi ein bod wedi gweld cynnydd trawiadol yn y cyfnod ar ôl Covid yn nifer y myfyrwyr sy'n gadael, gan adlewyrchu tuedd ehangach yn y sector. Mewn ymateb, a chyda chymorth menter Dadansoddedg Ddysgu Medr, rydym wedi cynnal dadansoddiad helaeth ar sail data i ddeall y ffactorau sy'n cyfrannu at gyfraddau uwch o fyfyrwyr yn gadael yn ystod y flwyddyn.

O ganlyniad i'r dadansoddiad hwn, rydym wedi cyflwyno model mwy cyfannol o ymgysylltu, gan ddefnyddio'r dangosfwrdd *FyMhresenoldeb* estynedig. Mae'r adnodd hwn yn cofnodi rhyngweithiadau bugeiliol ac academaidd, gan roi i staff ddarlun cynhwysfawr o lefel ymgysylltu â'r Brifysgol myfyriwr a hwyluso cymorth amserol, wedi'i deilwra, sy'n ymateb i sbectrwm eang o heriau myfyrwyr. Mae'r system hefyd yn ein galluogi i dargedu ymyriadau ar gyfer grwpiau penodol, gan sicrhau gwasanaeth cymorth rhagweithiol a phersonol.

Wrth i ni barhau i integreiddio Dadansoddeg Ddysgu drwy ddefnydd helaeth o FyMhresenoldeb a phrosesau cefnogi ymgysylltu myfyrwyr, mae data cynnar ar gyfer 2023/24 yn nodi newid addawol yn y tuedd blaenorol, gyda chyfraddau myfyrwyr sy'n gadael yn dychwelyd i lefelau sy'n debycach i'r amgylchedd cyn Covid. Drwy nodi anghenion myfyrwyr yn gynharach a chreu ymyriadau a matricsau cymorth effeithiol, ein nod yw gwella lefelau ymgysylltu myfyrwyr â'u dysgu, eu lles ac, yn y pen draw, eu gallu i wneud cynnydd a llwyddo.

**Camymddygiad academaidd**

Rydym yn ymrwymedig o hyd i ddarparu cymorth cynhwysfawr i bob un o'n myfyrwyr, gan sicrhau amgylchedd cynhwysol a chefnogol sy'n meithrin llwyddiant academaidd a lles personol. Fodd bynnag, tuedd diweddar arall yn y sector addysg uwch yw cynnydd yn nifer yr achosion o gamymddygiad academaidd. I geisio deall ei achosion posib, yn 2023/24 gwnaethom gynnal adolygiad trylwyr o'n prosesau, ein gweithdrefnau a'n cyfrifoldebau mewn perthynas ag uniondeb academaidd.

Rydym wedi canolbwyntio ar atal ac felly aethom ati i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i staff er mwyn helpu myfyrwyr i ddeall a chynnal safonau uchel o uniondeb ysgolheigaidd. Fel rhan o'n hymdrechion i ddatblygu staff, rydym wedi creu pecyn adnoddau a chanllaw ar gyfer staff academaidd a thimau asesu. Mae'r canllaw cynhwysfawr hwn yn ymdrin â chynllunio, gweithredu a gweinyddu asesiadau ar-lein, gan sicrhau bod pwyslais canolog ar uniondeb academaidd. Mae hefyd yn ystyried tirwedd ddatblygol technolegau AI, gan adlewyrchu awydd ein sefydliad i ddarparu profiad cefnogol i ddysgwyr gan gynnal arferion asesu pwrpasol ac effeithiol.

Rydym hefyd yn cydnabod y gall cyhuddiad o gamymddygiad academaidd ac ymchwiliad effeithio ar les myfyriwr, felly rydym wedi symleiddio'r broses i ymdrin ag achosion o gamymddygiad er mwyn ceisio lleihau'r amser mae myfyrwyr yn aros am ganlyniadau achosion.

Yn olaf, yn 2023/24, lansiodd y Ganolfan Llwyddiant Academaidd fenter newydd a oedd yn galluogi myfyrwyr i weithredu fel Llysgenhadon Uniondeb Academaidd. Mae'r Llysgenhadon yn grŵp brwdfrydig o fyfyrwyr gwirfoddoli a'u nod yw hyrwyddo diwylliant o uniondeb academaidd ym mhob rhan o'n Prifysgol. I helpu i bontio'r bwlch rhwng staff a myfyrwyr wrth rannu gwybodaeth am uniondeb academaidd, maent yn mynd i ddigwyddiadau ac yn creu digwyddiadau i hwyluso trafodaethau am y pwnc mewn ffordd sy'n ystyrlon i'w cyfoedion.

**Cefnogi dysgwyr y dyfodol**

Eleni, rydym hefyd wedi lansio cyfres o raglenni trawsnewidiol pwysig, gan gynnwys datblygu strategaeth addysg newydd y Brifysgol, adolygiad prifysgol gyfan o'n cwricwlwm ac adolygiad o sut rydym yn amserlennu ein haddysgu. Rydym yn disgwyl i'r mentrau hyn ddechrau gwireddu buddion cadarnhaol i'n myfyrwyr a'n staff dros y blynyddoedd i ddod.

Rydym hefyd yn weithgar wrth fodelu rhaglenni addysgu newydd, pwyntiau mynediad newydd a fformatau addysgu newydd, gan gynnwys adolygu dysgu ar-lein, i sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion dysgwyr y dyfodol.



# PROFIAD EIN MYFYRWYR





Rydym yn ymrwymedig i ddarparu dysgu ac addysgu o safon i'n myfyrwyr, ond hefyd i gynnig iddynt y cymorth, y gwasanaethau a'r cyfleoedd sy'n gwella ac yn cyfoethogi eu hamser gyda ni a'r tu hwnt. Rydym yn ymfalchïo yn ein hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr a chryfder ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr.







## Cyflogadwyedd a sgiliau

Yn 2023/24, ailddatganwyd ein hymrwymiad i wella cyflogadwyedd a llwyddiant cyffredinol ein graddedigion. Nod ein Strategaeth Cyflogadwyedd a Sgiliau newydd yw integreiddio priodweddau cyflogadwyedd a sgiliau allweddol yn ein cwricwlwm, gan sicrhau bod gan ein graddedigion y cymwyseddau y mae'r farchnad gyflogaeth heddiw yn galw amdanynt. Rydym yn ymroddedig i gynyddu cyfleoedd i gysylltu â diwydiant drwy ddysgu sy'n seiliedig ar waith a chyfranogiad cyflogwyr yn ein cwricwlwm.

Mae ein data hynt graddedigion (cyfraddau cyflogaeth ein graddedigion a'n graddedigion sy'n sicrhau cyflogaeth fedrus iawn) yn parhau'n gyson o'i gymharu â'r sector cyfan. Mae hyn yn adlewyrchu ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant trylwyr a ddarperir gan aelodau ymroddedig ein Cyfadrannau. Mae hefyd yn amlygu pwysigrwydd strategol ein cydweithrediadau parhaus â chyflogwyr blaenllaw, sydd yn ein helpu i sicrhau bod ein myfyrwyr wedi'u paratoi'n dda i fodloni gofynion y farchnad swyddi heddiw.

Mae ein pwyslais ar ddysgu drwy brofiad, gan gynnwys interniaethau, lleoliadau gwaith a phrosiectau diwydiant, wedi bod yn allweddol wrth wella parodrwydd proffesiynol ein graddedigion. Mae adborth gan gyflogwyr wedi bod yn hynod gadarnhaol, yn enwedig mewn perthynas â hyfedredd technegol ein graddedigion, eu galluoedd i ddatrys problemau a'u gallu i addasu.

## Cymorth lles ac iechyd meddwl

Rydym yn ymfalchïo mewn darparu gwasanaeth cymorth cynhwysol i fyfyrwyr a drefnodd tua 13,724 o apwyntiadau gyda chyfradd gwblhau o 88% yn ystod 2023/24. Eleni, aseswyd bod angen apwyntiad blaenoriaeth ar 51% o'r myfyrwyr a geisiodd gymorth a threfnwyd apwyntiad cyntaf iddynt o fewn chwe diwrnod gwaith.

Ategir y ddarpariaeth hon gan gymorth sydd ar gael ddydd a nos gan y platfform iechyd meddwl digidol, Togetherall, y cofnodwyd 3,243 o gofrestriadau iddo hyd yn hyn. Mae 59% o'r holl gysylltiadau â'r platfform hwn y tu allan i oriau gwaith arferol, sy'n dangos gwerth darparu fformatau cymorth amrywiol ar yr adegau pan fydd eu hangen. Mae cymorth ychwanegol ar gael hefyd gan wasanaethau hunangymorth digidol, ein tîm Llesiant a chan Ganolfan Cyngor a Chymorth Undeb y Myfyrwyr. Rydym hefyd yn ymdrechu i gynnig mentrau arloesol i wella ymhellach y cymorth iechyd meddwl sydd ar gael i fyfyrwyr ac eleni rydym wedi cynnal gweithdai lles a sesiynau therapi anifeiliaid anwes.

Yn olaf, mae Hapus, sef ein hadnodd hunangymorth ar-lein, a ddatblygwyd mewn cydweithrediad â Togetherall, yn cynnig adnoddau ymarferol i fyfyrwyr i'w galluogi i ymdopi â straen, pryder ac iselder meddwl. Cafodd y cwrs hwn, a ehangwyd i gynnwys rhieni, ei amlygu fel enghraifft o arfer gorau yng Nghynhadledd Cymdeithas Genedlaethol y Rheolwyr Gwasanaethau Myfyrwyr mewn Addysg Uwch (AMOSSHE) ym mis Mehefin 2024.

## Cymorth anabledd

Mae ein staff ymroddedig yn gweithio gyda'r 16% o'n myfyrwyr sydd wedi datgan eu bod yn anabl neu'n byw gyda chyflwr iechyd meddwl. Rydym yn falch o gefnogi myfyrwyr drwy gydol eu taith academaidd, o'r ymholiad cyntaf i gofrestru a'r tu hwnt, gan sicrhau pontio hwylus i fywyd yn y brifysgol.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o opsiynau llety wedi'i addasu ac mae ein canolfan drawsgrifio, gwasanaethau llyfrgell cynhwysol a chyfarpar addasol yn galluogi ein holl fyfyrwyr i ffynnu'n academaidd ac yn bersonol. Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, rhoddwyd 3,239 pro fforma addasiadau gweithredol ar waith, y mae 53% ohonynt yn cefnogi myfyrwyr newydd, sy'n adlewyrchu galw cynyddol. Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn parhau i wella ymwybyddiaeth o'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar draws cymuned ehangach ein Prifysgol.

## Cymorth ariannol

Rydym yn falch o barhau i gynnig amrywiaeth o gymorth sy'n sicrhau bod ein myfyrwyr yn gallu canolbwyntio ar eu hastudiaethau, gwireddu eu potensial llawn a manteisio i'r eithaf ar eu hamser gyda ni. Mae ein Cronfa Caledi Myfyrwyr a'n gwasanaethau Cyngor Ariannol yn darparu cymorth hanfodol i fyfyrwyr sy'n wynebu heriau ariannol am amrywiaeth eang o resymau unigol.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, derbyniwyd 1,745 o geisiadau i gronfeydd caledi a bwrsariaethau, gan gynrychioli cynnydd o 10% ar y flwyddyn flaenorol. Cynyddodd cyfartaledd y swm a ddyfarnwyd 6% o 2022/23, gan adlewyrchu cynnydd o 35% yng nghyfartaledd y symiau a ddyfernir ers 2020. Eleni, angen mewn perthynas â chostau byw oedd wrth wraidd bron hanner y dyfarniadau o'r cronfeydd caledi i fyfyrwyr. Mae'r cronfeydd hyn ar gael i fyfyrwyr o'r DU a myfyrwyr tramor, ac rydym wedi gweithio gydag Undeb y Myfyrwyr a'n harweinwyr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i sicrhau cysondeb wrth roi dyfarniadau a chyfle cyfartal o ran cymorth lle bynnag y bo modd.

Yn ogystal â'n bwrsariaethau presennol ar gyfer myfyrwyr sydd wedi bod mewn gofal, myfyrwyr sydd wedi'u dieithrio o'u teuluoedd a'r rhai hynny â chyfrifoldebau gofalu, eleni rydym wedi ehangu ein darpariaeth bwrsariaethau i gynnwys cymorth i fyfyrwyr ôl-raddedig a dyfarniadau cymorth profedigaeth mewn ymateb i anghenion sy'n dod i'r amlwg.

## Ailgynllunio ein gwasanaethau

Fel rhan o'r ymarfer i ailgynllunio timau Gwasanaeth Proffesiynol ar draws y Brifysgol, yn 2023/24 dechreuon ni adolygu ac ail-lunio rhai o'n gwasanaethau swyddogaethol sy'n ymwneud â myfyrwyr. Yn ein tîm Bywyd Myfyrwyr, mae'r fenter hon wedi ceisio sicrhau mai llais a phrofiad y myfyrwyr yw ffocws canolog ein hymagwedd ac mae'r holl welliannau, o'n polisïau a'n prosesau i'n hisadeiledd, yn cael eu cynllunio gan ystyried boddhad myfyrwyr.

Ein gobaith yw rhoi'r newidiadau hyn ar waith dros y blynyddoedd academaidd i ddod, yn eu plith: cyflwyno platfformau newydd i sicrhau bod data a gwybodaeth yn cael eu defnyddio'n effeithiol i deilwra ein gwasanaethau'n briodol.



# EIN HYMCHWIL A'N MENTERGARWCH

**Mae ein gweithgarwch ymchwil ac arloesi sy'n cael ei ysgogi gan chwilfrydedd, â ffocws ar gynaliadwyedd, yn helpu i ymateb i her sero net, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, meithrin cymdeithas gysylltiedig a chynhwysol, gwella iechyd a lles, a chroesawu cyfoeth lleoedd a diwylliant.**



*Cafodd cryfder ein hanes ymchwil ei danlinellu eleni pan ddyfarnwyd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines am Addysg Uwch i ni am yr eildro mewn rowndiau dilynol (2021 a 2023) am waith ein Banc Data SAIL.*





**Cyllid ymchwil**

Roedd hi'n flwyddyn hollbwysig i weithgarwch ymchwil a mentergarwch ym Mhrifysgol Abertawe eleni, ac, yn wir i sector addysg uwch cyfan y DU, oherwydd y dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2023 ar gyfer gwariant arian o'r Gronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF).

O ganlyniad i fuddsoddiad o'r Gronfa hon a chyfnodau blaenorol rhaglen yr ESIF yng Nghymru, mae ein Prifysgol mewn sefyllfa dda ar gyfer twf ymchwil a datblygu yn y dyfodol, gyda'n hasedau cyfalaf allweddol, gan gynnwys y Ffowndri Gyfrifiadol, Adeilad IMPACT a dau adeilad y Sefydliad Gwyddor Bywyd (ILS). Yn ogystal â chynrychioli isadeiledd ymchwil arloesol, mae'r rhain hefyd yn gyfleusterau sy'n ategu ein cysylltiadau â chyllidwyr a defnyddwyr ymchwil ym myd diwydiant, a sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector.

Rydym wedi wynebu heriau sylweddol oherwydd nad oes gennym fynediad at y cyllid hwn mwyach ond serch hynny rydym wedi parhau eleni i adeiladu ar ein cryfderau ymchwil presennol drwy ddefnyddio incwm o ymchwil a ariennir yn allanol a chyllid Cysylltiedig ag Ansawdd drwy Medr. Rydym wedi ymdrechu i fanteisio ar gyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ac wedi parhau i ehangu sylfaen ein cyllidwyr ymchwil er mwyn meithrin gwydnwch a lleihau dibyniaeth ar unrhyw ffynhonnell cyllid unigol.

Rydym yn parhau'n hynod weithredol ar draws y gymuned academaidd gyfan o ran cyflwyno cynigion cystadleuol am gyllid ymchwil allanol. Dyma rai enghreifftiau o lwyddiant wrth sicrhau cyllid:



Mae'r Cyngor Ymchwil Peirianneg a'r Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) wedi dyfarnu Cymrodoriaeth bersonol uchel ei bri dros bum mlynedd i'r Athro Matt Jones o Ffowndri Gyfrifiadol Prifysgol Abertawe i ddilyn agenda fentrus ac uchelgeisiol i ymchwilio i ddeallusrwydd artiffisial. Nod Cymrodoriaeth yr Athro Jones yw dylunio systemau AI cynhwysol a rhyngweithiol a fydd yn grymuso pawb, gan ddefnyddio ymagwedd o'r enw EVE (Everyone Virtuoso Everyday) sy'n canolbwyntio ar ddatblygu technoleg AI ar gyfer rhyngweithiadau ystyrlon a medrus, â'r nod o ddarparu adnoddau y gall pobl eu defnyddio yn eu bywydau pob dydd.



Mae Dr Hayley Young o'r Ysgol Seicoleg (y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd) yn arwain astudiaeth arloesol o effaith ychwanegion omega-3 ar ymddygiad, hwyliau a lles meddyliol plant. Mae dietau'r rhan fwyaf o blant yn y DU yn cynnwys llai na hanner y swm o frasterau omega-3 a argymhellir ac mae Dr Young wedi sicrhau grant gwerth £81,000 i archwilio a all ychwanegion helpu. Mae'r astudiaeth, a ariennir gan y Waterloo Foundation, yn gydweithrediad â Food and Behaviour (FAB) Research, elusen yn y DU sydd â'r nod o ddatblygu ymchwil wyddonol i'r cysylltiadau rhwng maeth ac ymddygiad dynol.

© Sue Martin



Mae Dr Alexander Langlands (Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) wedi derbyn dyfarniad gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau i ariannu prosiect o'r enw: Heritage at Risk: Creative Communities for Sustainable Powerful Places in De-industrialised south Wales. Mae Abertawe'n un o bum prifysgol yn unig yn y DU i gael y cyfle i gynnal Peilot Ymarferydd Arloesi Cymunedol gan raglen Cymunedau Creadigol yr AHRC. Nod y prosiect hwn yw archwilio ffyrdd o adfywio safleoedd treftadaeth yn ein rhanbarth a fydd o fudd i gymunedau lleol nawr ac yn y dyfodol. Bydd Dr Langlands yn defnyddio'r dyfarniad i adeiladu ar waith ein Canolfan Hyfforddiant Treftadaeth ac Ymchwil (CHART) sy'n hyrwyddo gweithgareddau ymchwil, hyfforddiant ac ymgysylltu â myfyrwyr, ysgolheigion ac amrywiaeth eang o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol.



**Cydweithredu Ewropeaidd**

Mae gan ein cymuned academaidd hanes hir a llwyddiannus o gydweithredu â phartneriaid ledled Ewrop, traddodiad rydym wedi ymdrechu i'w gynnal ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeai.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2023/24, ymrwymodd y DU a'r Undeb Ewropeaidd i gytundeb hirddisgwyliedig ar gysylltiad ffurfiol y DU â Horizon Ewrop, rhaglen ymchwil ac arloesi flaenllaw'r UE. Ar ôl blynyddoedd o ansicrwydd, ers i'r cytundeb ddod i rym ar ddechrau 2024, rydym eisoes wedi gweld diddordeb cynyddol mewn cyllid gan yr UE ymhlith ymchwilwyr ar draws ein cymuned academaidd.

I grybwyll un enghraifft yn unig o'r cyfleoedd pwysig mae Horizon Ewrop yn eu cynnig i'n Prifysgol: mae'r Athro Shareen Doak a chydweithwyr yn yr Ysgol Feddygaeth wedi sicrhau €480,000 fel rhan o grant aml-safle i helpu i weithredu'r genhedlaeth nesaf o asesiadau peryglon a risgiau cemegau a deunyddiau newydd, gan leihau'r angen i'w profi ar anifeiliaid wrth warchod iechyd dynol ar yr un pryd.

**Diwylliant ymchwil**

Eleni, penodwyd yr Athro Ian Mabbett yn Ddirprwy Is-ganghellor Cynorthwyol Diwylliant Ymchwil ein Prifysgol, gan olynu'r Athro Biagio Lucini. Ein nod drwy'r penodiad hwn yw hyrwyddo diwylliant cadarnhaol o uniondeb ymchwil, cydweithredu ac ysgolheictod agored, arweinyddiaeth ar Ysgolheictod Agored Abertawe a chreu gofod lle gall ein Pobl, ein Diwylliant a'n Hamgylchedd i gyd barhau i ddatblygu ochr yn ochr â'i gilydd. Byddwn yn parhau i wreiddio ein hymrwymiadau i asesiad a metrigau ymchwil cyfrifol yn ein Prifysgol, ac i eirioli dros arferion ymchwil sy'n defnyddio Ysgolheictod Agored.

Yn olaf, fel un o gymrodorion sylfaenu Sefydliad Astudiaethau Uwch Morgan, y sefydliad astudiaethau uwch cyntaf yng Nghymru i ganolbwyntio ar ymchwil ryngddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol drawsnewidiol, mae'n bleser mawr gennym y penodir yr Athro Mabbett yn Gyfarwyddwr newydd y Sefydliad yr haf hwn.

**Arweinyddiaeth ymchwil**

Yn 2024, dewiswyd pedwar o'n hymchwilwyr ar gyfer rhaglen uchel ei bri Crwsibl Cymru, sy'n meithrin arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol ymhlith arweinwyr ymchwil y dyfodol yng Nghymru. Dewiswyd Dr Naeem Anwar, Dr Mark Kingston, Dr Julie Peconi a Dr Owen Pickrell o 30 o ymchwilwyr rhagorol yng Nghymru i gymryd rhan mewn gweithdai ymdrochi preswyl o'r enw labordai sgiliau. Mae'r gweithdai hyn yn cynnig cyfleoedd i gydweithredu'n rhyngddisgyblaethol, gwella effaith ymchwil a chefnogi datblygiad gyrfaoedd ymchwil rhyngwladol.

Yn yr un modd, roedd pedwar o'n hacademyddion yn 2023/24 ymhlith aelodau newydd o Gymrodoriaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan ymuno â thros 680 o Gymrodorion uchel eu parch sy'n cynrychioli rhagoriaeth ar draws disgyblaethau a meysydd amrywiol. Y Cymrodorion newydd o Brifysgol Abertawe yw:

- Yr Athro Angharad Davies, Athro Clinigol a Microbiolegydd Meddygol Ymgynghorol er Anrhydedd;
- Yr Athro Antonio Gil, Pennaeth yr Ysgol Peirianneg Awyrofod, Sifil, Drydanol a Mecanyddol;
- Dr Amira Guirguis, Athro Cysylltiol (Fferylliaeth), Cyfarwyddwr y Rhaglen MPharm a Phennaeth Ymarfer Fferylliaeth; a'r
- Athro Yvonne McDermott Rees, Athro yn y Gyfraith.

**Mentergarwch myfyrwyr**

Rydym yn falch o ehangder a llwyddiant ein hymdrechion i gefnogi mentergarwch ac entrepreneuriaeth myfyrwyr eleni. Rydym yn meithrin ysbryd entrepreneuraidd yn ein myfyrwyr drwy dargedu mentrau megis ein hybiau mentergarwch a chynlluniau mentora amrywiol, sy'n rhoi i egin entrepreneuriaid yr adnoddau a'r arweiniad angenrheidiol i lwyddo. Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn hon:

- Cystadleuaeth The Big Pitch, a gynhaliwyd am yr eildro yn 2023/24, a ddarparodd gyfle i fyfyrwyr entrepreneuraidd hyrwyddo eu syniadau busnes. Wedi'i hariannu drwy ein partneriaeth â Santander Universities UK, roedd y gystadleuaeth yn cynnwys 25 o ymgeiswyr yn y rownd derfynol yn cyflwyno ceisiadau am gyllid, mentora a chymorth entrepreneuraidd am syniadau a oedd yn amrywio o ap cadw cyfrifon i dywelion microffibr.
- Ein partneriaeth barhaus ag Anne Boden MBE, a raddiodd o'r Brifysgol hon, sylfaenydd Starling Bank a Chadeirydd Tasglu Menter Twf Uchel dan Arweiniad Menywod Llywodraeth y DU a arweiniodd at greu menter *Founders of the Future* eleni. Gyda chefnogaeth Starling Bank, roeddem yn falch o gefnogi gwaith y tasglu drwy greu cyfres o astudiaethau achos addysgol, sy'n tynnu sylw at fenywod arloesol ac yn cynnig gwersi amhrisiadwy i'n myfyrwyr a'r gymuned ehangach.

# EIN PRIFYSGOL RYNGWLADOL

Mae ein Strategaeth Ryngwladol 2020-2025 yn crynhoi ein hymrwymiad i sicrhau bod Prifysgol Abertawe'n brifysgol fyd-eang i bawb, lle mae myfyrwyr rhyngwladol yn aelodau pwysig o'n cymuned, mae profiad rhyngwladol ar gael i bob myfyriwr, boed gartref neu dramor, a lle mae Prifysgol Abertawe'n bartner o ddewis ar gyfer cydweithredu ar addysg ac ymchwil.













Yn 2023/23, roeddem yn falch o estyn ein cyrhaeddiad a'n heffaith rhyngwladol yn llwyddiannus iawn ar draws pob un o'n tri philer strategol:

- Graddedigion byd-eang;
- Partneriaethau byd-eang; a
- Phroffil byd-eang.

### Graddedigion byd-eang

Mae ein gwaith wrth feithrin graddedigion byd-eang yn canolbwyntio ar bedwar maes:

1. darparu cyfleoedd i astudio neu weithio dramor
2. cryfhau sianeli ar gyfer recriwtio rhyngwladol
3. creu campysau amrywiol yn ddiwylliannol lle mae myfyrwyr yn ffynnu; a
4. chynnig cyfleoedd cyflogadwyedd ar gyfer graddedigion rhyngwladol.

Credwn y bydd darparu profiadau rhyngwladol sy'n meithrin hyder a gwydnwch ein myfyrwyr yn eu galluogi i ffynnu yn y gweithle byd-eang ac yn eu grymuso i fanteisio ar gyfleoedd byd-eang. Yn 2023/24, cefnogwyd 514 o fyfyrwyr Prifysgol Abertawe gan ein menter Mynd yn Fyd-eang i fanteisio ar gyfle i dreulio amser dramor, gan gynnwys at ddiben profiad gwaith, teithiau maes, lleoliadau gwaith meddygol a chynlluniau astudio cyfnewid a ariannwyd gan gyllid Taith a Turing.

O ganlyniad i reoli recriwtio ar y campws yn rhagweithiol, cafwyd cynnydd o 18% yn ein myfyrwyr rhyngwladol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gynrychioli 24% o'n cymuned gyfan o fyfyrwyr yn 2023/24 a chyfoethogi ein campysau a'r gymuned leol. Yn wyneb amgylchedd polisi heriol, rydym wedi cydweithio â'n partner llwybr, Y Coleg Prifysgol Abertawe, i ymateb yn hyblyg i alwadau'r farchnad gan barhau i amrywio ein sianeli recriwtio myfyrwyr.

O ganlyniad, rydym wedi gweld ein carfan gyfunol uchaf erioed o fyfyrwyr o India eleni, yn ogystal â chynnydd sylweddol yn niferoedd myfyrwyr newydd o Brasil, Gambia, Ghana, Iran, Japan a Nepal. Mae strategaeth recriwtio newydd yn Tsieina hefyd wedi cyfrannu at adferiad parhaus yn y farchnad hon, gyda chynnydd o 21% yn nifer y myfyrwyr newydd yn cofrestru o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae profiad y myfyrwyr yn hollbwysig yn ein holl weithgarwch, felly rydym wedi cynyddu buddsoddiad yn y maes hwn gan geisio gwella ein darpariaeth academaidd a chymorth lles. Agwedd bwysig ar y gweithgarwch hwn yn 2023/24 oedd ein cydweithrediad â Tribal i-graduate i arolygu ein myfyrwyr rhyngwladol, pan nododd 85% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon neu'n fodlon iawn ar bob agwedd ar eu profiad ym Mhrifysgol Abertawe. Amlygwyd sawl maes arfer da yn ein cymuned a bydd y mewnbwn defnyddiol hwn gan gymuned ein myfyrwyr rhyngwladol hefyd yn ein helpu i lywio ein ffocws ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Gwyddom fod rhagolygon cyflogaeth da i raddedigion a chymorth cyflogadwyedd yn ffactorau mwyfwy pwysig wrth i fyfyrwyr benderfynu ar gyrchfan astudio rhyngwladol. Felly, yn 2023/24, gwnaethom gyflwyno pecyn cymorth pwrpasol ar gyfer ein myfyrwyr rhyngwladol. Mae cyllid gan UKCISA wedi ein galluogi i ddatblygu pecyn cymorth pwrpasol a ddarperir i bob ymgeisydd adeg cyflwyno cais. I'n myfyrwyr rhyngwladol sydd wedi cofrestru, rydym hefyd yn darparu mynediad at blatfformau sy'n eu cefnogi i ddatblygu sgiliau ac yn eu cynorthwyo wrth fynd i'r afael â marchnad swyddi'r DU.

### Partneriaethau byd-eang

Yn 2023/24, buom yn parhau i dyfu ein rhwydwaith byd-eang o bartneriaid addysg a chymeradwywyd partneriaethau ar gyfer cyflwyno ar sail rhyddfraint, graddau ar y cyd a rhaglenni cydweddu. O ganlyniad i'r ymdrechion hyn, roedd gan ein myfyrwyr gyfle i astudio am radd Prifysgol Abertawe mewn lleoliadau ledled y byd, ac mae ein gweithgareddau addysg drawswladol yn ehangu mynediad ar raddfa fyd-eang gan gyfrannu at gynaliadwyedd amgylcheddol.

Ym mis Mai 2024, cawsom gymeradwyaeth Gweinyddiaeth Addysg Tsieina i gyflwyno gradd ddeuol mewn Cyfraith Forwrol ar y cyd â Phrifysgol Dalian Maritime yn Tsieina, a disgwylir i'r garfan gyntaf o 70 myfyriwr ddechrau ym mis Medi 2024. Roedd hon yn un o dair yn unig o fentrau ar y cyd â phrifysgol o'r DU i gael eu cymeradwyo gan Weinyddiaeth Addysg Tsieina eleni.

Ym mis Mehefin 2024, gwnaethom lofnodi cytundeb gyda Hyb Addysg Rhyngwladol Uniciti (UIEH) i ddarparu rhaglen BSc Nyrsio (atodol) sy'n para am flwyddyn i fyfyrwyr ym Mauritius. Bydd y bartneriaeth hon yn helpu i hyfforddi gweithwyr iechyd proffesiynol mewn ardal o'r byd lle mae galw mawr am nyrsys medrus iawn.

Yn olaf, rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i nodi partneriaethau newydd â sefydliadau sy'n cydweddu â'n gwerthoedd ac rydym yn parhau i weithio'n agos gydag arbenigwyr dibynadwy yn y sector i nodi cyfleoedd pellach.

### Proffil byd-eang

Yn Nhablau Prifysgolion y Byd QS 2025, gwnaethom sicrhau ein safle gorau erioed, gan ddringo i safle 298 yn y byd. O ganlyniad i'r gwelliant hwn, mae Prifysgol Abertawe yn y 300 uchaf am y tro cyntaf. Mae hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn ein henw da academaidd a metrigau rhwydwaith ymchwil rhyngwladol, ochr yn ochr â'n cynnydd sylweddol yn y metrig cynaliadwyedd.

Cydnabuwyd ein hymdrechion ym maes cynaliadwyedd hefyd yn Nhablau Effaith Prifysgolion Times Higher Education (THE) 2024, lle roeddem yn gydradd 65ain yn y byd am gyfraniadau at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Dyfarnwyd Gwobr Effaith i ni gan ein partner menter ar y cyd, Navitas, eleni hefyd, am arloesi ac ymroddiad i greu effaith amgylcheddol well.

Cafodd ein proffil byd-eang hwb pellach drwy nifer o ymweliadau a digwyddiadau proffil uchel, gan gynnwys ymweliad cyn Ysgrifennydd Gwladol yr UD, Hillary Rodham Clinton, a'i gŵr, cyn Arlywydd yr UD, Bill Clinton, ym mis Tachwedd 2023. Mewn partneriaeth ag Uchel Gomisiwn Malaysia, gwnaethom hefyd gydlynu Rhaglen Cyfoethogi Cydweithredu Addysg Uwch Malaysia a'r Deyrnas Unedig; fel rhan o hon bu uwch-arweinwyr o brifysgolion ledled Malaysia yn ymweld â Chymru.

Yn olaf, buom yn parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â'n cymuned gynyddol o gyn-fyfyrwyr rhyngwladol sy'n ysbrydoli ac yn gwneud gwahaniaeth. Yn sgîl lansio ein canghennau cyn-fyfyrwyr yn Nigeria y llynedd, roedd hi'n bleser croesawu Oluwaseun Ayodeji Osowobi yn ôl i Abertawe i gwrdd â rhai o'n myfyrwyr presennol. Ms Osowobi yw sylfaenydd yr elusen Stand to End Rape (STER) ac mae wedi cael ei chydnabod yn Arweinydd Newydd Sefydliad Obama.

Er gwaethaf ein llwyddiant yn 2023/24, wrth i ni edrych tua'r dyfodol, gwyddom y bydd recriwtio rhyngwladol yn parhau'n her, gan ystyried newidiadau diweddar ym mholisi fisâu'r DU a'r canfyddiad o'r DU fel cyrchfan astudio. Serch hynny, rydym eisoes wedi gosod y sylfeini i ymateb i'r heriau hyn mewn modd ystwyth, ac mae gennym lawer i edrych ymlaen ato wrth i ni fynd ati i gynyddu ein cyfran o'r farchnad, gan agor swyddfeydd ym Malaysia a'r Emiriadau Arabaidd Unedig, ehangu ein rhwydwaith byd-eang o bartneriaid addysg a pharhau i gael effaith gadarnhaol ar y byd.



# EIN HYSTAD DDIGIDOL



**Mae'n hanfodol i ni allu ymateb, nid yn unig i anghenion digidol newidiol cymuned ein Prifysgol, ond hefyd i'r bygythiadau a'r cyfleoedd y gall technolegau newydd eu cyflwyno i ni.**

Yn 2023/24, gwnaethom greu Tîm Gwasanaethau Digidol newydd a oedd yn cynnwys cydweithwyr o bob rhan o gymuned ein Prifysgol. Nod y datblygiad strategol hwn yw darparu cymorth cyson ar gyfer holl wasanaethau digidol y Brifysgol, gwella ein gallu i ymateb i anghenion datblygol cymuned ein Prifysgol a chanoli prosesau caffael meddalwedd a chaledwedd graidd. Mae ein desg gwasanaeth GGS a sefydlwyd yn ddiweddar yn gweithredu'n dda hefyd, a'r gyfradd datrys problemau'r tro cyntaf yw 76%.

Drwy gydol y flwyddyn, mae ein tîm pensaernïaeth wedi parhau i archwilio ffyrdd posib o roi technolegau newydd ar waith, yn enwedig ym maes deallusrwydd artiffisial, ac i asesu eu manteision posib i'n gweithrediadau. Rydym bellach wedi lansio sawl prosiect peilot, gan gynnwys Seren, sgwrsfot yn seiliedig ar AI sy'n cynnig cymorth ddydd a nos ar gyfer amrywiaeth o broblemau a cheisiadau.

Fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i welliant digidol, rydym hefyd wedi uwchraddio craidd ein rhwydwaith, a disgwylir gwelliannau cysylltiedig o ran dibynadwyedd a gallu yn y misoedd i ddod. Caiff gwasanaethau Wi-Fi newydd eu cyflwyno ar bob campws rhwng mis Medi 2024 a mis Mawrth 2025, ac mae gwaith wedi dechrau hefyd i wella isadeiledd ein rhwydwaith er mwyn gwella seiberddiogelwch a chydymffurfiaeth.

Mae'r dirwedd seiberddiogelwch yn nodweddiadol am ei chymhlethdod o hyd, a gwelir bygythiadau mwyfwy soffistigedig sy'n datblygu drwy'r amser. Eleni, rydym wedi cryfhau ein prosesau rheoli risgiau seiber er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chaledwedd, meddalwedd, gwasanaethau digidol a gwerthwyr, a lliniaru'r rhain. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at welliannau sylweddol yn ein hymateb i ddigwyddiadau seiberddiogelwch eleni ac rydym wedi ategu hyn drwy gynnal ymarferion ar gyfer yr uwch-staff a thrwy gyflwyno Signal: sianel gyfathrebu annibynnol i'w defnyddio pan na fydd systemau ar gael. Rydym hefyd wedi diweddaru a chyhoeddi polisïau Seiberddiogelwch a Diogelwch Gwybodaeth y Brifysgol er mwyn cynyddu dealltwriaeth o ddisgwyliadau seiberddiogelwch ymhlith ein staff a'n myfyrwyr.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym hefyd yn ymgymryd â thri phrosiect trawsnewid mawr a fydd o fudd i gymuned gyfan ein Prifysgol:


- symud ein system rheoli cysylltiadau cwsmeriaid i'r cwmwl
- ail-weithredu ein system cynllunio adnoddau menter (ERP) yn y cwmwl; bydd y system newydd yn ad-drefnu ein swyddogaethau AD, Cyllid a Chyflogres, a disgwylir iddi gael ei lansio ym mis Awst 2025
- ail-weithredu ein system cofnodion myfyrwyr (SITS ar hyn o bryd); disgwylir i'r cam cyntaf (derbyn myfyrwyr) fod yn weithredol ym mis Medi 2024, a disgwylir i gam dau fod ar waith yn ystod 2025.



# EIN HYSTAD DDIRIAETHOL

**Roedd cwblhau ein Prif Gynllun yn 2023/24 yn garreg filltir bwysig wrth reoli ein hystad. Mae'n darparu fframwaith a fydd yn ein galluogi i dyfu ac addasu i alw newidiol, yn y tymor byr ac ar gyfer y dyfodol.**







Yn hollbwysig, mae ein Prif Gynllun yn adeiladu ar ein Strategaeth Ystadau bresennol, i gyflwyno amrywiaeth o opsiynau datblygu a gwneud lleoedd ar gyfer ein hystad - o breswylfeydd myfyrwyr i'n daliadau tir – sydd wedi'u cynllunio i gyd-fynd ag anghenion newidiol ein Prifysgol a thirwedd ehangach addysg uwch.

Er bod y cyd-destun ariannol ehangach wedi ein gorfodi i ohirio rhai o'n rhaglenni cyfalaf mawr a oedd yn yr arfaeth eleni (gan gynnwys ailddatblygu adeilad eiconig Tŷ Fulton), rydym wedi gwneud cynnydd gyda gwelliannau pwysig ar draws ein hystad eleni.

### Cove - clwb nos ar y campws

Cove yw ein cyfleuster diweddaraf i fyfyrwyr ar y campws. Mae Cove, a agorwyd yn swyddogol ym mis Chwefror 2024, yn ganlyniad prosiect ar y cyd ag Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe i weddnewid ein hen gyfleuster clwb nos ar y campws a chreu lleoliad digwyddiadau a gweithgareddau newydd ac amlbwrpas i fyfyrwyr ar Gampws Singleton.

### Parc Chwaraeon Bae Abertawe

Rydym yn parhau i ddatblygu ein gweithgarwch cynllunio isadeiledd mewn perthynas â Pharc Chwaraeon Bae Abertawe, fel rhan o Brosiect Campysau Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys datblygu cyfleuster newydd at ddiben hyrwyddo ymchwil ac arloesi mewn technolegau meddygol, iechyd, lles a chwaraeon. Mae cysyniad dylunio a ffefrir wedi cael ei gymeradwyo eleni, a disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn gynnar yn 2025.

Rydym hefyd wedi cychwyn astudiaeth ddichonoldeb ehangach, wedi'i hariannu gan Gyllid Ffyniant Cyffredin y DU, i werthuso'r opsiynau datblygu amrywiol ar gyfer Parc Chwaraeon Bae Abertawe. Bydd yr astudiaeth hon yn asesu dichonoldeb prosiectau'r dyfodol ac yn ein galluogi ni a'n partneriaid (Cyngor Abertawe) i ddeall y cyfleoedd, y risgiau a'r anghenion buddsoddi sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau hyn.

Disgwylir i'r adroddiad dichonoldeb gael ei gyhoeddi ar ddechrau 2025, a bydd yn archwilio ac yn cynnig opsiynau ar gyfer y cymysgedd o gyfleusterau yn y dyfodol â'r nod o wella eu safon a'u capasiti, er mwyn cefnogi ein huchelgais strategol i wella darpariaeth chwaraeon cymunedol, chwaraeon y Brifysgol a chwaraeon perfformiad.

### Buddsoddi yn ein hamgylchedd awyr agored

Eleni, rydym wedi cyflwyno arwyddion digidol newydd yn ein mannau awyr agored ar y ddau gampws ac wedi integreiddio murluniau a chelf graffiti ar y ddau gampws i gyfoethogi amgylchedd ein campysau.

Rydym hefyd yn adnewyddu'r porthdy ger mynedfa Campws Parc Singleton. Bydd y porthdy'n cael ei orchuddio â chladin a'i ddiweddaru i wella'r estheteg gyffredinol, gan ddarparu profiad mwy croesawgar i ymwelwyr, a gwella'r amgylchedd gwaith i'n cydweithwyr Diogelwch.

Mae gwaith wedi dechrau hefyd i adnewyddu'r ffensys ar hyd terfynau Campws Singleton. Mae'r ffensys dur newydd a gafodd eu gwneud â llaw wedi cael eu dylunio i gyd-fynd â maint a manylion yr adeiledd presennol, gan barchu natur hanesyddol y campws wrth wella ei ddiogelwch a'i olwg.

### Cynnal a Datblygu ein Hasedau Treftadaeth

Er ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn campws i'r dyfodol, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddiogelu hanes a threftadaeth ein hystad bresennol. Mae gweithgarwch yn ystod y 12 mis diwethaf wedi canolbwyntio ar wella adeiladwaith, trwsio ffenestri a gwaith carreg ac adfer llawer o nodweddion gwreiddiol Abaty Singleton, Adeilad Wallace a'n Llyfrgell a adeiladwyd ym 1937.

# EIN CYNALIADWYEDD

Rydym yn parhau'n ymrwymedig i greu dyfodol mwy cynaliadwy i'n cymuned a'r byd ac, fel rhan o'n Strategaeth Cynaliadwyedd a'r Argyfwng Hinsawdd (2021/2025), rydym wedi addo:

- peidio â buddsoddi'n uniongyrchol mwyach mewn cwmnïau tanwydd ffosil;
- haneru allyriadau o'n cadwyn gyflenwi a'n gweithgarwch teithio (cwmpas 3) rhwng 2015 a 2035;
- gwneud Prifysgol Abertawe'n Brifysgol sy'n Llesol i Natur;
- cyflawni campysau a cherbydau sero net (Cwmpas 1 a 2) erbyn 2035.



Drwy ein Pwyllgor Cynaliadwyedd Strategol sy'n cwrdd bob chwarter, rydym yn monitro perfformiad a chynnydd o ran ein hymrwymiadau strategol allweddol, a dyma ein prif gyflawniadau eleni:

navitas impact Awards 2024 — **ENILLYDD CYNTAF**
(Enillydd Gwobr Effaith Navitas 2023)

**65 AIN** — Times Higher Education Impact Rankings
(Safleoedd Effaith THE 2024)

QS World University Rankings — **80 AIN**
**SAFLEOEDD CYNALIADWYEDD**
(Safleoedd Cynaliadwyedd QS 2024)

12 Responsible Consumption and Production — Sustainable Development Goals — **9FED YN Y BYD**
(Safleoedd Effaith THE 2024)

**8FED YN Y DU** — people & planet University League
(Cynghrair Prifysgolion People & Planet 2023/24)

15 Life on Land — Sustainable Development Goals — **19EG YN Y BYD**
(Safleoedd Effaith THE 2024)










### Yr Argyfwng Hinsawdd a'n taith at Sero Net

Eleni, rydym wedi parhau i wneud cynnydd sylweddol yn ein hymrwymiad i gyflawni sero net allyriadau erbyn 2035. Ers 2015/16, rydym wedi llwyddo i leihau ein hallyriadau $CO_2$ Cwmpas 1 a 2 31% ac wedi cyflawni gostyngiad o 7% mewn allyriadau cwmpas 3.

Mae ein gweithgareddau datgarboneiddio diweddar wedi cynnwys gosod dros 2,000 o baneli solar ar doeau ein campysau ac ailddatblygu adeilad Haldane ar Gampws Singleton o berfformiad ynni "E" i radd "A", sef adeilad sy'n barod am sero net.

Rydym wedi cyflwyno pympiau gwres o'r aer ac wedi uwchraddio goleuadau i rai LED mewn ystafelloedd addysgu a darlithfeydd ar draws ein campws, ac mae ein System Rheoli Adeiladau wedi cael ei diweddaru i gefnogi cynlluniau ar gyfer adeiladau clyfar, effeithlon a di-garbon. Rydym hefyd yn cymryd camau i'n dau gampws fod yn groesawgar i gerbydau trydan ac, o ganlyniad, rydym wedi torri allyriadau gan ein cerbydlu 70% ers 2015/16.

Gan edrych i'r dyfodol, byddwn yn blaenoriaethu datgarboneiddio Rhwydwaith Gwres Domestig Campws Singleton a gwella ein hadeiladwaith i leihau ein defnydd o ynni a'n galw am ynni. Yn ogystal â'r datblygiadau technegol hyn, rydym yn ymroddedig i hyrwyddo llythrennedd carbon ymhlith ein myfyrwyr a'n staff ac, yn ystod 2023/24, cwblhawyd dros 124 o gyrsiau hyfforddiant Llythrennedd Carbon.

### Ein hamgylchedd naturiol

Fel un o lofnodwyr sylfaenu'r Gynghrair Nature Positive Universities, rydym yn ymrwymedig i asesu effaith ein gweithgareddau a gweithredu i sicrhau ein bod yn cael effaith gadarnhaol gyffredinol ar natur. Rydym wedi mapio ac asesu'r cynefinoedd niferus a geir ar ein campws ac wedi creu 1.2 hectar o ddolau blodau gwyllt, gan wella'r fflora sydd eisoes yn bodoli drwy blannu dros 5,000 o blanhigion blodau gwyllt a hadau blodau gwyllt.

Gwnaethom osod 30 o flychau adar ac ystlumod ychwanegol a phum cartref draenogod yn 2023/24. Rydym yn dathlu'r ffaith mai ni yw'r brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill statws Caru Gwenyn yn ogystal â'n gwobr aur Caru Draenogod. Mae ein dwy wobr Baner Werdd yn tanlinellu ymhellach ein hymroddiad i stiwardiaeth amgylcheddol.

Yn ogystal â meithrin bioamrywiaeth ar ein campysau, rydym yn cydweithredu â phartneriaethau natur lleol i sicrhau bod ein hymdrechion yn gyson â mentrau yn y rhanbarth ehangach. Mae'r cydweithrediadau hyn wedi ein galluogi i sicrhau cymorth ychwanegol gan bartneriaid allweddol, gan gynnwys cynghorau Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, BugLife a Cyfoeth Naturiol Cymru.



### Ein hamgylchedd gweithio

Yn ystod 2023/24 gwnaethom adnewyddu ein System Rheoli Amgylcheddol (EMS) safon ISO 14001, ac ni chafwyd unrhyw enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfiaeth yn yr archwiliad ail-ardystio. Wrth weithredu'r EMS, rydym yn sicrhau ein bod yn rheoli risgiau ac yn rhoi cynlluniau gweithredu cynaliadwyedd ar waith er mwyn lleihau effeithiau a gwireddu cyfleoedd ar gyfer datblygu cynaliadwy.

Rydym yn falch o gynnal ein statws fel prifysgol nad yw'n anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, ac mae dros 62% o'n gwastraff yn cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio. Drwy fentrau megis ein marchnad ailddefnyddio WARP-IT a mannau rhoi eitemau diesiau ar y campws, mae cannoedd o eitemau, gan gynnwys celfi a dillad, wedi cael eu hailddefnyddio neu eu rhoi i elusennau, gan gefnogi ein nodau cynaliadwyedd ymhellach.

Mae ein cydweithrediad parhaus â Chanolfan Gymunedol yr Amgylchedd Abertawe wedi bod yn hynod gynhyrchiol yn 2023/24. Cynhaliwyd nifer o Gaffis Atgyweirio llwyddiannus ar y campws lle cafodd mwy na 50 o eitemau myfyrwyr a oedd wedi'u torri neu eu difrodi, gan gynnwys gliniaduron a beiciau, eu trwsio gan gefnogi'r economi gylchol. Ar ben hyn, gwnaethom hwyluso nifer o ddigwyddiadau oergell gymunedol ar y campws eleni drwy ein partneriaeth â Goleudy, gan ddosbarthu 400kg o fwyd dros ben i fyfyrwyr. Yn ogystal â helpu i liniaru pwysau costau byw, gwnaeth y digwyddiad hwn chwarae rôl bwysig wrth leihau gwastraff bwyd hefyd.

### Ein teithio cynaliadwy

Gan gydnabod effaith teithio ar ein hôl troed carbon, ond hefyd y cyfle mae'n ei gynnig am weithgarwch ac ymarfer corff, rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo dulliau teithio llesol, carbon isel, ar gyfer myfyrwyr a staff. Mae ein Cynllun Llogi Beiciau hynod lwyddiannus yn parhau'n boblogaidd, ac rydym yn falch mai ni oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad Cyflogwr sy'n Cefnogi Beicwyr.


Mae cyfraddau cyfranogi yn ein cynllun Beicio i'r Gwaith i'r staff yn parhau'n gryf ac, i annog ein myfyrwyr i feicio, rydym yn darparu goleuadau a chloeon am ddim, marcio diogelwch am ddim ac yn gweithio mewn partneriaeth â Bikeability Wales i ddarparu sesiynau cynnal a chadw beiciau a sgiliau beicio am ddim. I adlewyrchu ein hymrwymiad i gymudo cynaliadwy, rydym hefyd yn cynnig tocynnau bws blynyddol ac yn ystod y tymor am bris gostyngol i staff a myfyrwyr ac yn cynnal sesiynau hyfforddiant Hyrwyddwr Teithio rheolaidd. Yn olaf, mae cerbydlu'r Brifysgol bellach yn cynnwys 10 cerbyd trydan neu hydrogen ac eleni, rydym wedi treialu bws hydrogen.

Gyda'i gilydd, mae'r ymdrechion hyn yn sicrhau ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein nodau uchelgeisiol o gyrraedd sero net erbyn 2035 a chael ein hadnabod fel sefydliad sydd ar flaen y gad o ran cynaliadwyedd amgylcheddol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang.

# BLWYDDYN MEWN RHIFAU

## Ein hamgylchedd naturiol

**x17**
**sesiwn glanhau traethau**
gan gasglu plastigion a'u trawsnewid yn gynhyrchion newydd





**1.2 hectar**
o ddolau blodau gwyllt wedi'u creu ar draws y campysau

**2** wobr 'Baner Werdd'

Cyflwynwyd 30 o flychau adar ac ystlumod
**30**





## Ein taith i Sero Net

**3 Sero Net**
adeilad sy'n barod ar gyfer



**2,000**
o baneli solar ar doeau ar y campws

**7,500**
LED
o oleuadau wedi'u gosod
ar y campws





### Allyriadau carbon

Pŵer solar ar y campws yn osgoi
**95 tunnell**
$CO_2$

**31%**
gostyngiad mewn Cwmpas 1 a 2
ers 2015/16

**4**
pwmp gwres o'r aer a'r ddaear ar y campws



**70%**
ers 2015/16
Gostyngiad mewn allyriadau cerbydau

## Ein hamgylchedd gweithio



**400 KG** o fwyd dros ben wedi'i ddosbarthu

Goleudy

Digwyddiadau Oergell Gymunedol

**62%** o wastraff yn cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio

Gwobrau **LEAF**

14 gwobr labordy amgylcheddol



31 o dunelli o $CO_2$ WEDI'U HOSGOI

**£19,000** wedi'i arbed gan fyfyrwyr mewn preswylfeydd

48,317kg $CO_2$ WEDI'U HOSGOI

**£85,951** wedi'i arbed drwy'r porth ailddefnyddio celfi WARP-IT

## Ein teithio cynaliadwy

**1,000** o fyfyrwyr wedi cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddiant teithio cynaliadwy

**400** o feiciau wedi cael marciau diogelwch

**76** o aelodau wedi cofrestru gyda'r cynllun Beicio i'r Gwaith



**4** sioe deithio beicio

**800** o oleuadau a chloeon i fyfyrwyr

**500** o feiciau wedi'u gwirio am ddiogelwch



# ADOLYGIAD ARIANNOL

## Prif Bwyntiau

| | 2024 | 2023 | | 2024 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwarged gweithredu | **£83m** | £64m | Gwarged gweithredu fel % o incwm | **22%** | 16% |
| Gwarged / (diffyg) ac eithrio addasiadau pensiwn | **(£15m)** | £33m | Gwarged / (diffyg) gweithredu ac eithrio addasiadau pensiwn fel % o incwm | **(4%)** | 8% |
| Cyfanswm incwm cynhwysfawr | **£80m** | £83m | | | |
| EBITDA | **£28m** | £41m | EBITDA fel % o incwm | **7%** | 10% |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | **(£19m)** | £50m | Llif arian parod o weithgareddau gweithredu fel % o incwm | **(5%)** | 12% |
| Arian parod a buddsoddiadau arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | **£121m** | £173m | Diwrnodau hylifedd | **121** | 130 |



### Cwmpas y Datganiadau Ariannol

Mae'r Datganiadau Ariannol cyfunol hyn yn berthnasol i Brifysgol Abertawe, ei his-gwmnïau a'i chwmnïau cysylltiedig a chawsant eu paratoi yn unol â Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS102) fel y'i dehonglir gan rifyn 2019 o'r Statement of Recommended Practice: Accounting for further and higher education.

### Trosolwg

Strategaeth ariannol y Brifysgol yw cynhyrchu digon o arian parod i ddarparu gwydnwch, creu'r lefelau angenrheidiol o gyfalaf gweithio a'i galluogi i fuddsoddi yn yr ystad ac mewn prosiectau isadeiledd. Mae hyn yn gynyddol heriol i'r sector, a phenderfynodd y Brifysgol roi Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol teirblwydd ar waith yn ystod haf 2023, gan gyflwyno targedau uchelgeisiol o ran arbedion cyflog ac arbedion heblaw am gyflogau yn ogystal â thargedau o ran incwm ychwanegol.

Er gwaethaf newidiadau yn y fisa i ddibynyddion ym mis Ionawr 2024 ac ansicrwydd ynghylch a fyddai'r llwybr mewnfudo i raddedigion yn parhau, roedd cyfraddau recriwtio myfyrwyr yn 2023/24 yn unol â'r rhagamcanion i raddau helaeth. Gwnaed cynnydd da wrth roi blwyddyn gyntaf y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ar waith. Rheolwyd costau'n ofalus a rhagorwyd ar y targedau arbedion, gyda chostau cyflogau a chostau heblaw am gyflogau'n is na'r rhagamcanion.

Mae hyn wedi arwain at warged gweithredu isorweddol cynlluniedig ac eithrio addasiadau pensiwn o £15.0m, EBITDA o £28m a sefyllfa arian parod ddiwedd y flwyddyn o £121m, sy'n gyfwerth â 121 o ddiwrnodau hylifedd. Y perfformiad am y flwyddyn yn ôl yr adroddiad statudol o dan y pennawd Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr yw £80.3m ond mae hyn o ganlyniad i ddileu'r diffyg yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) a gwrthdroi'r ddarpariaeth pensiynau o £98.7m.


Roedd y Brifysgol wedi rhagweld y byddai dau o'i thri chyfamod bancio gyda Banc Buddsoddi Ewrop yn cael eu torri erbyn 31 Gorffennaf 2024 a llwyddodd i negodi ildiad hawl a llythyr diwygiad a oedd ar waith erbyn diwedd y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa ariannol heriol yn parhau i roi pwysau ychwanegol ar y Brifysgol ac mae llwyddiant wrth gyflawni'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol yn hanfodol i leddfu'r pwysau presennol ac i sicrhau cynaliadwyedd tymor hwy y sefydliad.


## Incwm - gostyngiad o 7% i £382m

Gostyngodd ein hincwm £30.9m yn 2024 er gwaethaf cynnydd yn y ffioedd i fyfyrwyr tramor. Cyfrannodd nifer o ffactorau at y gostyngiad yng nghyfanswm ein hincwm: gostyngiad mewn incwm ymchwil am y flwyddyn ynghyd â gostyngiad yn nifer y myfyrwyr cartref a chydnabod grantiau cyfalaf cyfyngedig yn unig gan gyrff cyllido.

### INCWM A GWARGED GWEITHREDU FEL % O INCWM



## INCWM FESUL CATEGORI




**Cynyddodd incwm o ffïoedd dysgu 7% i £213m.**


Gwelwyd cynnydd ychwanegol o £23.3m mewn incwm o ffioedd dysgu gan fyfyrwyr tramor amser llawn am y flwyddyn, yn dilyn y cynnydd mewn ffioedd tramor yn 2022/23. Parhaodd incwm gan fyfyrwyr cartref amser llawn i ostwng, a gwelwyd gostyngiad o £7.6m. Ar ôl nifer o flynyddoedd llwyddiannus o recriwtio myfyrwyr tramor, parhawyd i weld twf pellach yn 2024, gyda chynnydd o 19% mewn cofrestriadau. Roedd y cynnydd hwn o ganlyniad i gynnydd yn nifer y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir rhyngwladol i raddau helaeth, a gwelwyd cynnydd o 30% yn nifer y cofrestriadau gan fyfyrwyr israddedig rhyngwladol. Yn debyg i lawer o sefydliadau addysg uwch, gwelodd y Brifysgol ostyngiad pellach yn nifer y myfyrwyr cartref israddedig, yn sgîl niferoedd is o fyfyrwyr na'r flwyddyn flaenorol yn symud ymlaen o un flwyddyn astudio i'r un nesaf, a gostyngiad yn nifer y myfyrwyr cartref a ddewisodd fynd ymlaen i astudiaethau ôl-raddedig.

**Gostyngodd grantiau cyrff cyllido (ac eithrio incwm o grantiau cyfalaf) 7% i £36m.**

Parhaodd grantiau cylchol ar gyfer addysgu ac ymchwil (ac eithrio cyfalaf) yn gyson â'r flwyddyn flaenorol, sef £28.6m, a chynyddodd grantiau cyfalaf cylchol £1.4m i £3.4m.

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024, derbyniwyd grantiau nad oeddent at ddibenion cyfalaf gwerth £7.1m i gefnogi prosiectau megis lles ac iechyd myfyrwyr, ymchwil ac arloesi a'r iaith Gymraeg, £2.3m yn llai na'r flwyddyn flaenorol. Cydnabuwyd £1.5m o gyllid cyfalaf fel incwm yn y flwyddyn ac ni chwblhawyd unrhyw waith adeiladu sylweddol a ariannwyd gan grantiau cyfalaf yn y flwyddyn o'i gymharu â £33.9m yn 2023.

## INCWM O FFÏOEDD DYSGU



**Gostyngodd incwm o ymchwil, ac eithrio grantiau cyfalaf 15% i £56m.**

Gostyngodd cyfanswm y cyllid grant a dderbyniwyd gan y Brifysgol yn 2024 ar ôl nifer o flynyddoedd o dwf ymchwil llwyddiannus. Cyfrannodd gostyngiad o 44% mewn grantiau ymchwil (ac eithrio cyfalaf) a ariannwyd gan y llywodraeth at ostyngiad yn yr incwm ymchwil a gofnodwyd, gan adlewyrchu terfyn rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE. Cynyddodd incwm gan y Cynghorau Ymchwil 24% i £25.7m yn y flwyddyn, sy'n debyg i lefel 2022, wrth i ffocws y Brifysgol symud o brosiectau a ariennir gan Gronfeydd Strwythurol yr UE i brosiectau'r Cynghorau Ymchwil.

**Gostyngodd incwm arall 5% i £63m.**


Mae Incwm Arall yn cynnwys incwm a gynhyrchwyd ar draws y Brifysgol nad yw wedi'i gofnodi o dan y penawdau craidd ffioedd dysgu, grantiau cyrff cyllido, ymchwil ac incwm o fuddsoddi. Gostyngodd incwm o lety myfyrwyr a dderbyniwyd yn y flwyddyn i £21.9m o £22.8m yn y flwyddyn flaenorol oherwydd cynnydd mewn unedau llety gwag ar Gampws y Bae, a gostyngodd incwm arlwyo am y flwyddyn 11% i £2.4m. Cafwyd gostyngiad o 27% i £8.6m mewn incwm a gynhyrchwyd gan y cyfadrannau academaidd drwy gydweithredu, cyllid grant, digwyddiadau a gweithgareddau eraill megis cynadleddau, a gwelwyd gostyngiad cyfatebol mewn gwariant. Gostyngodd gwaith ymgynghori a wnaed gan y Brifysgol 23% yn y flwyddyn hefyd i £2.1m. Derbyniwyd £7.6m mewn incwm gan y GIG i gefnogi gweithgareddau academaidd yn y Gyfadran Meddygaeth, Iechyd a Gwyddor Bywyd yn ystod 2024.

Mae incwm arall yn cynnwys addasiad cyfrifyddu o £9.5m mewn perthynas â phreswylfeydd Campws y Bae sy'n cael eu trin fel Trefniant Consesiwn Gwasanaeth. Ryddhad blynyddol o'r ddarpariaeth yw hwn ac nid yw'n drafodiad arian parod.

**Cynyddodd incwm o fuddsoddi 18% i £7m.**

Rhagorwyd ar ddisgwyliadau gan berfformiad yr adneuon arian parod a chronfeydd cysylltiedig o ganlyniad i welliant yn yr economi ehangach. Perfformiodd y gronfa arian tymor byr sy'n cael ei dal gyda Royal London Asset Management yn eithriadol o dda o'i chymharu â'r blynyddoedd blaenorol gydag incwm yn cynyddu 49% o'r flwyddyn flaenorol, sef £6.0m. Gwelwyd cyfradd enillion gyfartalog o 4.6% ar y ddau adnau cyfradd sefydlog o £25m a fuddsoddwyd tan 31 Rhagfyr 2023, a gwnaeth incwm o'r cyfrifon cyfredol fwy na dyblu, sef £0.3m.

## GRANTIAU YMCHWIL







## Gwariant – cynnydd o 5% i £398m

Cynyddodd gwariant yn y flwyddyn (ac eithrio addasiadau ar gyfer prisiad cynllun USS) £17.1m i £397.5m. Cynyddodd costau staff (ac eithrio addasiadau ar gyfer prisiad USS a chostau ailstrwythuro) 3% i £201.2m, a chynyddodd gwariant gweithredu arall 5% i £147.3m.

## GWARIANT AC EITHRIO ADDASIADAU PENSIWN



**Cynyddodd costau staff (ac eithrio'r addasiad USS a chostau ailstrwythuro) 3% i £201m.**

Gwelwyd gostyngiad o 53 yn niferoedd staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) yn ystod 2024 yn dilyn cynnydd yn y flwyddyn flaenorol. Parhaodd niferoedd staff academaidd cyfwerth ag amser llawn i dyfu gyda 62 o aelodau CALl ychwanegol, ond gostyngodd nifer y staff ymchwil, gweinyddol a staff eraill. Gwelwyd y gostyngiad uchaf, sef 83 swydd CALl, ymhlith staff ymchwil ar ôl i raglen Cronfeydd Strwythurol yr UE ddod i ben.

Cynyddodd costau staff (ac eithrio addasiad USS a chostau ailstrwythuro) fel canran o incwm (ac eithrio grantiau cyfalaf) i 53% o 47% wrth i gostau staff gynyddu ac wrth i incwm a gynhyrchwyd ostwng. Cynyddodd y cyflog blynyddol cyfartalog i £45,000 o £42,000 gan adlewyrchu'r dyfarniad cyflog cenedlaethol, cynyddrannau blynyddol a'r proffil staff.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd Cynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES) fel rhan o Raglen Cynaliadwyedd Ariannol y Brifysgol. Cafodd taliadau digolledu uwch gwerth cyfanswm o £8.5m eu talu neu eu cronni i 219 o gyflogeion a ofynnodd am adael y Brifysgol yn wirfoddol. Bydd VES yn parhau yn ystod 2024/25.


**Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS)**

Cyfrifir y tâl neu'r credyd yn flynyddol i adlewyrchu'r newid a amcangyfrifir mewn cyfraniadau disgwyliedig yn y dyfodol, ac mae'n seiliedig ar y prisiad diweddaraf a'r cyfraddau disgownt ar 31 Gorffennaf. Addasiad cyfrifyddu yw hwn ac nid trafodiad ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd prisiad 2023 gan nodi gwarged o £7.4 biliwn yn y cynllun pensiwn, a oedd yn meddu ar asedau o £73.1 biliwn a rhwymedigaethau o £65.7 biliwn. Gan fod gwarged gan gynllun USS, nid oes angen cynllun i adennill diffyg, felly nid oes angen cyfraniadau at y diffyg (y gyfradd flaenorol oedd 6.2%). Yn dilyn y prisiad teirblwydd, gostyngodd cyfraniadau'r cyflogwr o 21.6%, a oedd yn cynnwys y cyfraniad am y diffyg, i 14.5% a gostyngodd cyfraniadau cyflogeion o 9.8% i 6.1%.

Mae'r credyd o £98.7m (gostyngiad mewn gwariant) yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y flwyddyn yn adlewyrchu dileu'r diffyg yng nghynllun USS a gwrthdroi'r ddarpariaeth bensiwn.

## COST STAFF FEL % O INCWM (AC EITHRIO GRANTIAU CYFALAF)






**Cynyddodd gwariant heblaw am gyflogau 5% i £147m.**

Rhent, ardrethi a phrydlesi oedd y costau uchaf heblaw am gyflogau i'r Brifysgol yn ystod 2024, sef £24.6m yn dilyn cynnydd o 14% yn y flwyddyn flaenorol. Roedd gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau dan gontract hefyd yn gost sylweddol, sef £22.3m, er bod hyn 3% yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Mae rhent, ardrethi a phrydlesi'n cynnwys costau rhentu'r preswylfeydd myfyrwyr ac mae incwm rhentu cyfatebol yn cael ei gydnabod ar gyfer hyn. Mae £19.4m yn gysylltiedig â'r preswylfeydd ar Gampws y Bae a Champws Singleton. Roedd dwy breswylfa newydd yng nghanol y ddinas ar gael i fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn drwy gytundebau enwebu gyda'r darparwyr. Roedd cost llety gwag yn cyfrif am £2.5m o'r costau rhentu. Cafwyd arbedion gwerth £0.6m mewn perthynas â safle Hendrefoelan yn sgîl cwblhau'r gwaith o'i gau'n raddol, a chafwyd arbedion ychwanegol o £0.5m yn sgîl cau maes parcio Campws y Bae dros dro.

Mae gwasanaethau ymgynghori a gwasanaethau dan gontract yn cynnwys y grant gwerth £1.2m i Undeb y Myfyrwyr, £4.3m am y contract rheoli cyfleusterau meddal, £1.5m ar leoliadau gwaith gyda meddygon teulu'r rhaglen Meddygaeth i Raddedigion a £1.9m ar brosiectau ymchwil. Gostyngodd gwariant ar gyfarpar heb ei gyfalafu 18% yn ystod y flwyddyn i £12.2m wrth i'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol gael ei rhoi ar waith. Cynyddodd ysgoloriaethau, bwrsariaethau a gwobrau 5% i £20.7m gyda chynnydd o 31% i £12.4m mewn gwariant ar recriwtio myfyrwyr a hysbysebu, yn sgîl y newidiadau parhaus yn y farchnad fyd-eang. Parhaodd cost cyfleustodau i gynyddu'n sylweddol gyda chynnydd o 34% o'r flwyddyn flaenorol i £13.6m, sy'n gyfwerth â chynnydd o 76% ers 2022.

## TREULIAU GWEITHREDU ERAILL 2024



## Y Fantolen

Mae gan y Brifysgol fantolen gref gyda chronfeydd wrth gefn yn cynyddu yn ystod 2024 i £327.4m. Cafwyd gostyngiad o £57.2m yng nghyfanswm yr asedau, yn bennaf o ganlyniad i ostyngiad mewn buddsoddiadau arian parod a hylifol, a gostyngodd rhwymedigaethau a darpariaethau £137.6m o ganlyniad i'r gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer pensiynau yn sgîl dileu'r diffyg yng nghynllun USS.

Cynyddodd **asedau anghyfredol** £7.3m, a gwariwyd £32.3m mewn arian parod ar ychwanegiadau cyfalaf yn y flwyddyn, a gafodd ei wrthbwyso gan ddibrisiad a godwyd.

Cafwyd gostyngiad o £64.6m mewn **asedau cyfredol** o ganlyniad i'r gostyngiad o £52.2m mewn arian parod a buddsoddiadau cyfredol. Prynwyd ychwanegiadau cyfalaf ond gyda derbyniadau grant cyfyngedig, a chyfrannodd colled o £15.0m yn y flwyddyn (ar ôl eithrio'r addasiad ar gyfer USS a SUPS) ymhellach at wariant arian parod. O ganlyniad i newid ym mhroffil yr arianwyr ymchwil, gostyngodd yr incwm cronedig ar grantiau ymchwil, gan gynyddu'r gostyngiad mewn asedau cyfredol.

Cafwyd gostyngiad o £33.5m mewn **rhwymedigaethau cyfredol** wrth i groniadau a chredydwyr masnach gael eu lleihau, yn rhannol o ganlyniad i'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ac o ganlyniad i wahaniaethau amseru. Roedd croniadau ymchwil, sef arian a dderbyniwyd ymlaen llaw, yn is ar ddiwedd y flwyddyn yn dilyn newid ym mhroffil cyllidwyr ymchwil.

Cafwyd gostyngiad o £6.2m mewn **credydwyr sy'n ddyledus ymhen mwy na blwyddyn** yn dilyn ad-daliadau benthyciadau o £6.1m. Parhaodd y trefniant prydles consesiwn gwasanaeth yn weddol gyson oherwydd addasiadau cyfrifyddu ar gyfer ymrwymiad dwy flynedd arall.

Gostyngodd **darpariaethau** £97.8m i £19.0m yn unig drwy ddileu diffyg cynllun USS, gyda diffyg Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe'n cyfrif am y balans.

## Cyfamodau

Er mwyn bodloni'r amodau benthyciad a bennwyd gan Fanc Buddsoddi Ewrop, rhaid i'r Brifysgol sicrhau cydymffurfiaeth â'r cyfamodau canlynol:

1. Ni fydd y gymhareb Dyledusrwydd Ariannol Net i EBITDA wedi'i Addasu yn fwy na 6.5:1
2. Bydd y gymhareb Llif Arian Parod Gweithredu Net, neu Gostau Gwasanaethau'r Ddyled o leiaf 1.1:1
3. Ni fydd y gymhareb Dyledusrwydd Ariannol wedi'i Addasu i Refeniw yn fwy nag 85%
4. Bydd y Brifysgol yn cydymffurfio ag unrhyw amod arall a bennir mewn perthynas â Medr.

Nododd rhagdybiaethau'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol y byddai o leiaf un o'r cyfamodau yn cael ei dorri erbyn 31 Gorffennaf 2024 a 31 Gorffennaf 2025. Llwyddodd y Brifysgol i ail-negodi cyfamodau benthyciad Banc Buddsoddi Ewrop, gan gytuno ar seibiant ar gyfer cyfamodau 1 a 2 uchod am 2023/24 a 2024/25 a chyflwyno cyfamod newydd. O ganlyniad, cynyddodd y costau benthyca rhwng 24 a 30 pwynt sylfaen ar draws chwe chyfran o fenthyciadau Banc Buddsoddi Ewrop o 1 Awst 2024.

Cyfamod dros dro Banc Buddsoddi Ewrop, a gaiff ei brofi bob chwarter tan 31 Ionawr 2026 yw:

5. Bydd swm cyfanredol Arian Parod a Symiau Cyfwerth ag Arian Parod a Buddsoddiadau Tymor Byr, ynghyd â symiau sydd ar gael a heb eu defnyddio o dan Gyfleuster Credyd Cylchol yn fwy na £50m ar gyfer pob chwarter o 31 Gorffennaf 2024 tan 31 Ionawr 2026.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau Cyfleuster Credyd Cylchol gwerth £25m gydag HSBC i ddarparu gwydnwch ychwanegol, er bod y rhagamcanion a'r senarios gwaethaf yn awgrymu na fydd ei angen.

## Gwariant Cyfalaf a Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd

Gostyngodd gwariant cyfalaf yn y flwyddyn i £32.3m.

Cafodd Uwch-gynllun y Campws, a adeiladodd ar y Strategaeth Ystadau bresennol, ei gwblhau yn 2024 a bydd yn sylfaen rhaglen gytunedig o wariant cyfalaf maes o law. Fodd bynnag, cafodd cynllun cyfalaf 2024 ei leihau yn ystod y flwyddyn fel rhan o'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol a phenderfynwyd peidio â bwrw ymlaen â phrosiect Tŷ Fulton. Hefyd, cafodd prosiectau llai eu gohirio neu cyfyngwyd ar eu graddfa.


Gwariwyd £3.1m ar brosiectau sero net fel rhan o'r ymgyrch i ddatgarboneiddio'r campysau erbyn 2035, gyda phwyslais ar wella'r perfformiad ynni ar bob campws. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno paneli solar, pympiau gwres a goleuadau LED.

Agorwyd Clwb Nos Cove yn ystod y flwyddyn yn dilyn buddsoddi £1.7m yn 2024, gan greu lleoliad digwyddiadau a gweithgarwch amlbwrpas i fyfyrwyr, a gwariwyd £2.2m yn datblygu isadeiledd Parc Chwaraeon Bae Abertawe i baratoi am brosiect mwy'r Fargen Ddinesig.

Fel rhan o'r Strategaeth Trawsnewid Digidol, gwariwyd £13.0m yn ystod 2024 ar y rhwydwaith, gan wella'r isadeiledd, a gwariwyd symiau llai ar brosiectau trawsnewid systemau a chlyweledol.



GWARIANT CYFALAF A GRANTIAU CYFALAF A DDERBYNIWYD




## Arian Parod a Dyled

Gostyngodd **arian parod**, gan gynnwys buddsoddiadau cyfredol i £126.1m.

Cafwyd all-lif arian parod o weithgareddau gweithredu o £18.6m yn y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2024. Defnyddiwyd £8.9m o arian parod i wasanaethu'r trefniadau benthyca yn y flwyddyn, a derbyniwyd £8.7m mewn arian parod o incwm o fuddsoddi.

Ariannodd y Brifysgol £24.9m o'r gwariant cyfalaf o'i chronfeydd arian parod wrth gefn, a oedd yn llai na'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad i'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol, ni ddatblygwyd un prosiect sylweddol ymhellach na'r cam dichonoldeb, a chafodd nifer o brosiectau llai eu haddasu, eu gohirio neu eu canslo.

Gostyngodd **dyledusrwydd net** £2.9m i £94.2m, a gostyngodd buddsoddiadau cyfredol £49.6m.

Ad-dalwyd £6.1m ar fenthyciadau yn ystod y flwyddyn gan leihau'r benthyciadau dyledus i £98.4m. Cynyddodd dyled y trefniant consesiwn gwasanaeth ar gyfer preswylfeydd myfyrwyr i £116.2m ar 31 Gorffennaf 2024 er gwaethaf dad-ddirwyn y rhwymedigaeth am y brydles, o ganlyniad i roi ymrwymiad dwy flynedd i UPP i warantu y byddai 100% o'r ystafelloedd yn cael eu dyrannu tan fis Gorffennaf 2026.


Cafwyd gostyngiad o £2.9m yn unig mewn arian parod yn y flwyddyn o ganlyniad i ddileu'r all-lif sylweddol o arian parod pan ddychwelwyd yr adnau o £50.0m mewn arian parod a oedd wedi cael ei fuddsoddi am 12 mis. Gostyngodd buddsoddiadau cyfredol, sy'n cynnwys adneuon arian parod, £49.6m o ganlyniad.

## Darpariaethau Pensiwn

Mae'r Brifysgol yn aelod o Gynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS) sy'n darparu pensiynau ar gyfer staff academaidd a phroffesiynol. Yn y prisiad teirblwydd diweddaraf a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2023, symudodd y cynllun o sefyllfa diffyg i warged o £7.4 biliwn. Talwyd £3.2m fel cyfraniadau at y diffyg ar gyfradd o 6.2% tan 31 Rhagfyr 2023 pan farnwyd bod gwarged gan y cynllun. Cafodd y ddarpariaeth ar gyfer cynllun USS a gydnabuwyd gan y Brifysgol, sef £98.7m, ei rhyddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ar yr un dyddiad. Ni chydnabyddir unrhyw ddarpariaeth ar gyfer Cynllun Pensiwn USS yn y datganiadau ariannol ar 31 Gorffennaf 2024. O 1 Ionawr 2024 gostyngodd cyfraniadau'r cyflogwr o 21.6%, a oedd yn cynnwys y cyfraniad at y diffyg, i 14.5% a gostyngodd cyfraniadau cyflogeion o 9.8% i 6.1%.

Mae'r Brifysgol hefyd yn gweithredu cynllun CARE, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) ar gyfer cyflogeion anacademaidd, sydd bellach ar gau i aelodau newydd. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd diffyg SUPS o £17.2m i £19.0m yn sgîl cydnabod colled actiwaraidd o £3.4m mewn incwm cynhwysfawr a gostyngodd y cynnydd posib yn y diffyg o ganlyniad i'r cyfraniadau a dalwyd at y diffyg.

ARIAN PAROD, DYLED A DYLEDUSRWYDD NET



## Rhagolygon ar gyfer y dyfodol a busnes gweithredol

**Rhagolygon ar gyfer y dyfodol**

Amcan pennaf Strategaeth Ariannol y Brifysgol o hyd yw creu digon o adnoddau ariannol i gyflawni ei hamcanion strategol a sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor hir. Mae hyn wedi bod yn gynyddol heriol wrth i'r Brifysgol a'r sector geisio ymdopi â'r ansicrwydd a geir yn yr amgylchedd allanol, o ganlyniad yn bennaf i bolisïau'r llywodraeth a chynnydd mewn cystadleuaeth am fyfyrwyr cartref a thramor.

Y Dangosyddion Ariannol Allweddol a'r targedau cysylltiedig a ddefnyddir i fesur perfformiad yw:

- Gwarged gweithredu o 3% o incwm yn y tymor canolig a 5% yn y tymor hwy
- EBITDA dros £30m
- Llif Arian Parod Gweithredu Net mwy na 5% o gyfanswm incwm
- Mwy na 70 o ddiwrnodau hylifedd

Wrth lunio'r rhagamcanion pum mlynedd ar gyfer CCAUC yn 2023, daeth hi'n amlwg y byddai cyflawni'r targedau hyn yn ystod cyfnod y rhagamcanion yn her.

I fynd i'r afael â hyn, cyflwynodd y Brifysgol Raglen Cynaliadwyedd Ariannol tair blynedd o hyd ym mis Awst 2023 ynghyd â chynllun manwl ar gyfer gwelliant cyffredinol mewn EBITDA gwerth £40m erbyn 2026/27. Roedd hyn yn cynnwys targedau ar gyfer incwm net ac arbedion heblaw am gyflogau ychwanegol. Prif ffocws y cynllun, fodd bynnag, oedd adolygiad sylfaenol ac ailgynllunio Gwasanaethau Proffesiynol, gan gynnwys cyflwyno llinellau atebolrwydd sengl, uwchraddio a gweithredu systemau TG a gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ein holl brosesau craidd. I gefnogi'r trawsnewidiad hwn ymhellach, mae'r Brifysgol hefyd wedi ystyried ei pharodrwydd i dderbyn risg â'r nod o fabwysiadu rheolaethau mewnol cymesur.

Cynlluniwyd Cynllun Ymadael yn Wirfoddol hael i hwyluso a chefnogi'r gostyngiad gofynnol mewn niferoedd staff. Gwnaed cynnydd da ar y cynllun hwn yn ystod 2023/24 gan arbed £8.5m drwy geisiadau VES a gymeradwywyd ar gyfer 2024/25.

Er gwaethaf newidiadau yn y fisa i ddibynyddion ym mis Ionawr 2024 ac ansicrwydd ynghylch a fyddai'r Llwybr Mewnfudo i Raddedigion yn parhau, roedd cyfraddau recriwtio myfyrwyr yn 2023/24 yn unol â'r rhagamcanion i raddau helaeth. Ni welwyd llawer o dwf, os o gwbl, yn y niferoedd myfyrwyr o'u cymharu â rhagamcan gwreiddiol y Brifysgol ar gyfer 2024/25. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd ynghylch polisi'r llywodraeth mewn perthynas â mewnfudo wedi parhau i effeithio ar farchnadoedd tramor a gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y myfyrwyr rhyngwladol ôl-raddedig ac israddedig a gofrestrodd gyda'r Brifysgol ar gyfer 2024/25, o'i gymharu â 2023/24.

O ganlyniad, mae'r Brifysgol wedi estyn ei Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol am flwyddyn arall a chynyddu'r targed ar gyfer arbedion ar wariant £30m, yn y gwasanaethau proffesiynol ac mewn meysydd academaidd. Mae'r Is-ganghellor wedi datgan yn glir i'r staff y bydd y Brifysgol yn parhau'n sefydliad amlddisgyblaeth sy'n rhoi pwyslais ar ymchwil, ond y bydd yr arbedion ychwanegol hyn yn gorfodi'r Brifysgol i drawsnewid y ffordd y mae'n cyflawni ei gweithrediadau craidd. Er nad oes gan y Brifysgol gynlluniau i gael gwared â rhaglenni unigol, mae adolygiad cynhwysfawr o'r cwricwlwm ar y gweill, gan gynnwys ystyried nifer y modiwlau, ac asesu ac adborth.

Yn debyg i sefydliadau eraill yn y sector, mae'r Brifysgol hefyd yn ystyried ffyrdd o arallgyfeirio ei gweithgareddau creu incwm, gan ddatblygu nifer o bartneriaethau yn y DU a thramor yn ogystal â chyflwyno dulliau newydd o ddarparu ei rhaglenni, ar-lein yn benodol.

**Busnes Gweithredol**

Rhaid i'r Brifysgol sicrhau ei bod yn gallu cadw arian parod digonol i fodloni ei gofynion gweithredu a'i rhwymedigaethau o ddydd i ddydd am 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. I brofi gwydnwch y Brifysgol a'i gallu i wneud hyn, rydym wedi cynnal prawf straen ar y rhagamcanion presennol drwy nodi nifer o risgiau allweddol a chyfrifo effaith ariannol senario waethaf posib ar ei Datganiadau o Incwm Cynhwysfawr, ei Sefyllfa Ariannol, ei Llif Arian Parod a'i chyfamodau bancio am y cyfnod fel busnes gweithredol.

Y brif risg a brofwyd yw'r gostyngiad yn niferoedd myfyrwyr cartref a thramor o'u cymharu â rhagamcanion gwreiddiol 2024/25 a 2025/26, gan ystyried gwir gofrestriadau hyd at fis Hydref 2024 a chofrestriadau a ragwelir ym mis Ionawr 2025 a mis Medi 2025, yn seiliedig ar geisiadau presennol a dealltwriaeth o'r farchnad.

Mae risgiau eraill a ystyriwyd yn cynnwys gostyngiadau mewn incwm o arlwyo a chyfleusterau chwaraeon a ddefnyddir gan fyfyrwyr a'r potensial i unedau llety myfyrwyr barhau'n wag a phwysau ychwanegol ar gostau gan chwyddiant. Mae llwyddiant wrth gyflawni'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol yn hanfodol i gynaliadwyedd ariannol y Brifysgol yn y dyfodol ac, felly, mae'r risg o beidio â chyflawni'r arbedion gofynnol wedi'i phrofi hefyd.

Mae'n amlwg bod y potensial ar gyfer camau gweithredu lliniarol yn dod yn gynyddol anodd. Serch hynny, mae hylifedd cymharol gryf y Brifysgol yn parhau i ddarparu lefel o wydnwch ac, yn bwysig, amser i'r Brifysgol gyflawni'r trawsnewidiad angenrheidiol yng ngweithrediadau a diwylliant y Brifysgol. Nid ydym yn tanbrisio graddfa'r newid hwnnw, ond mae tîm arweinyddiaeth presennol y Brifysgol wedi llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau niferus sy'n deillio o'r pandemig, argyfyngau economaidd a geowleidyddol byd-eang. Felly, mae'n hyderus y gallai'r Brifysgol ymdopi â'r senario waethaf hon.

Mae aelodau'r Cyngor wedi ystyried y rhagdybiaethau sy'n sail i'r senario waethaf, y mesurau lliniaru a gynigir, ac effaith ariannol y rhain, yn enwedig mewn perthynas â'r sefyllfa arian parod a'r cyfamodau benthyca a ail-negodwyd. Er eu bod yn cydnabod maint yr her sy'n wynebu'r sector a'r Brifysgol, mae aelodau'r Cyngor yn hyderus y gall y Brifysgol reoli'r risgiau ac y bydd ganddi arian digonol i fodloni rhwymedigaethau'r Brifysgol wrth iddynt ddod yn ddyledus dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.



**Sarah Jones,**
Prif Swyddog Ariannol



**Anne Tutt,**
Trysorydd

# PRIF RISGIAU A FFACTORAU ANSICRWYDD

Mae'r Brifysgol yn cynnal Cofrestr Risgiau ar gyfer y Brifysgol gyfan sy'n cael ei hadolygu bob chwarter gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Cyngor. Yn ogystal, mae'n cael ei diweddaru pan fo'n briodol ac os daw'n amlwg bod y risgiau'n newid yn fwy cyflym.

Yn ystod 2023/24, cymeradwyodd y Brifysgol Ddatganiad o Barodrwydd i Dderbyn Risg sydd wedi nodi bod angen adolygu'r system rheoli risgiau i gynnwys parodrwydd i dderbyn risg yn y cofrestri risgiau.

Mae dosbarthiad y risgiau'n parhau i adlewyrchu'r ffactorau ansicrwydd sy'n bodoli yn yr amgylchedd allanol, gan gynnwys y cystadlu cynyddol am fyfyrwyr cartref a thramor, materion geowleidyddol ac effaith barhaus pwysau chwyddiant ar y Brifysgol, staff a myfyrwyr.



Mae'r tabl isod yn nodi'r risgiau uchaf o gofrestr y Brifysgol, ar sail y sgôr risg weddilliol.

| Risg Strategol | Prif gamau lliniaru | |
|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd ariannol**<br>Methiant i gyflawni'r twf mewn incwm a'r gostyngiadau mewn gwariant a ragwelwyd oherwydd ffactorau allanol (chwyddiant costau uchel, disgwyliadau am ddyfarniadau cyflog uchel, ffioedd dysgu, cynaliadwyedd ariannol y sector AU), yn arwain at ddiffyg gallu i fantoli'r gyllideb, gan arwain at fethiant i greu'r gwargedau sy'n ofynnol i fuddsoddi a chyflawni amcanion y Brifysgol. | • Adroddiadau a monitro cyllidebau'n fisol ac ail-lunio'r rhagamcanion bob chwarter<br>• Asesiad ariannol manwl a chynnal profion straen ar gyfer risgiau cynhenid<br>• Gweithredu Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol | • Monitro cyfamodau<br>• Rheoli swyddi gwag<br>• Cyfleuster Credyd Cylchol wedi'i sicrhau |
| **Recriwtio myfyrwyr rhyngwladol**<br>Newidiadau ym mholisïau llywodraeth y DU, heriau o ran derbyn myfyrwyr, gorddibyniaeth ar nifer cyfyngedig o farchnadoedd sy'n sensitif i brisiau, diffyg arallgyfeirio a chystadleuaeth gynyddol yn arwain at fethiant i gyflawni'r niferoedd myfyrwyr rhyngwladol a ragwelwyd, gan arwain at gynaliadwyedd ariannol gwaeth. | • Gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol<br>• Arallgyfeirio ffrydiau refeniw'r dyfodol, gan gynnwys o ran dulliau cyflwyno, e.e. cyflwyno ar-lein<br>• Archwilio cyfleoedd newydd am Addysg Drawswladol i ddarparu rhaglenni yn y gwledydd dan sylw | • Nodi marchnadoedd newydd i ddatblygu presenoldeb gwell dramor<br>• Monitro ac adolygu perfformiad marchnadoedd presennol |
| **Seiberddiogelwch**<br>Trefniadau rheoli gwybodaeth annigonol yn lleihau ein gallu i ddiogelu, prosesu a chyrchu gwybodaeth, gan arwain at gynnydd mewn ymosodiadau seiber llwyddiannus, colli enw da, diffyg cydymffurfiaeth, dirwyon a chosbau a chostau cynyddol. | • Gwasanaeth Monitro Bygythiadau i Seiberddiogelwch JISC wedi'i roi ar waith<br>• Symud i beilot SOC newydd, wedi'i reoli gan JISC yn yr arfaeth<br>• Blaenoriaethu gweithgareddau hylendid seiber<br>• Gwasanaethau digidol ar eu newydd wedd wedi'u cyflwyno, gan alluogi lefel uwch o reoli canolog<br>• Mabwysiadu'r Fframwaith Risgiau Seiber a grëwyd gan lywodraeth yr Alban ar gyfer addysg uwch yn yr Alban | |
| **Morâl staff - effaith newid**<br>Llwythi gwaith cynyddol parhaus, ansicrwydd ynghylch diogelwch swyddi yn y dyfodol, cyfleoedd yn deillio o'r sefyllfa ariannol ac ailgynllunio gwasanaethau yn arwain at waethygiad ym morâl staff, gan arwain at gynnydd mewn straen, absenoldebau a throsiant, dirywiad mewn lles, lefel ymgysylltu a chynhyrchiant. | • Cyfathrebu'n rheolaidd â staff drwy fforymau amrywiol<br>• Cydnabod ymdrechion staff<br>• Rhoi rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth ar waith i gefnogi galluoedd arweinyddiaeth<br>• Gweithgor ar y cyd ag undebau'r campws wedi'i sefydlu<br>• Cynllun Ymadael yn Wirfoddol yn darparu cyfle i rai aelodau staff | |
| **Cadw myfyrwyr**<br>Asesu ac adborth gwael, lefelau isel o ymgysylltu â myfyrwyr a chymorth i fyfyrwyr, caledi ariannol etc yn arwain at gynnydd yn niferoedd y myfyrwyr sy'n gadael, gan arwain at ddeilliannau gwael i fyfyrwyr, colli incwm, niwed i enw da (NSS etc), effaith ar recriwtio yn y dyfodol. | • Adolygu prosesau asesu, ailsefyll, camymddygiad academaidd<br>• Symud o Fentor Academaidd i Diwtor Personol; mwy o ffocws ar gymorth a lles<br>• Cynyddu ymgysylltu â myfyrwyr a hyfforddiant i reoli disgwyliadau a gwella gwydnwch<br>• Sefydlwyd Gweithgor Cadw i nodi camau gweithredu tymor hwy a'u rhoi ar waith ynghyd â gwaith y Prosiect Dadansoddeg Dysgwyr sy'n canolbwyntio ar wella cyfraddau cadw | |
| **Profiad y myfyrwyr - dysgu ac addysgu**<br>Ansawdd addysgu, cymarebau myfyrwyr i staff, amgylchedd dysgu, cymorth a gwasanaethau Hynt Graddedigion gwael yn arwain at ganlyniadau profiad myfyrwyr a dysgu gwael, gan greu anfodlonrwydd, effaith ar sgorau NSS a'r tablau cynghrair, enw da ehangach y Brifysgol, recriwtio a gallu'r Brifysgol i gyflawni ei strategaeth twf. | • Mae'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu yn cael ei gweithredu<br>• Mae'r adolygiad cwricwlwm ar y gweill<br>• Arweinir Cynllun Gwelliant yr NSS gan y Dirprwy Is-ganghellor Addysg<br>• Mae prosiect Porth i Wasanaethau Myfyrwyr yn cael ei ddatblygu<br>• Mae prosiect Hynt Graddedigion yn cael ei sefydlu | |
| **Recriwtio myfyrwyr cartref**<br>Cynnydd mewn cystadleuaeth a heriau cynyddol i recriwtio graddedigion yn arwain at ddiffyg gallu i recriwtio nifer y myfyrwyr a ragwelwyd, gan arwain at waethygiad mewn cynaliadwyedd ariannol. | • Adolygiad gan Fwrdd Strategaeth Recriwtio o'r DU<br>• Cynnal a datblygu strategaeth ac ymgyrch Clirio drwy'r Pwyllgor Llywio Clirio<br>• Ymgysylltu â cholegau addysg bellach fel rhan o'r prosiect arallgyfeirio<br>• Archwilio cyfleoedd a phartneriaethau allanol i gynyddu potensial recriwtio | |
| **TG – systemau busnes craidd**<br>Diffyg ymagwedd gydlynol ac o ben i ben at wasanaethau ar gyfer systemau busnes craidd yn arwain at anawsterau wrth ddarparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar staff a myfyrwyr gan greu effeithiau negyddol ar brofiad y myfyrwyr a llwythi gwaith staff. | • Dadansoddi systemau busnes craidd a'u rhyngwynebau; platfform integreiddio'n cael ei roi ar waith ar gyfer rhyngwynebau<br>• Achos busnes gydag amcangyfrifon o gostau opsiynau i'w gynhyrchu ar gyfer pob platfform<br>• Byrddau prosiect wedi'u sefydlu a chyllid wedi'i sicrhaue | • Ymagwedd Busnes Cyfan at wasanaethau o ben i ben ar gyfer systemau myfyrwyr a gweinyddu<br>• Datblygu a chytuno ar gynllun systemau busnes craidd gyda blaenoriaethau clir<br>• Gwaith sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas â systemau craidd (ABW, SITS, CRM) |
| **Llety myfyrwyr y Brifysgol**<br>Llai o alw gan fyfyrwyr am lety sy'n eiddo i'r brifysgol / wedi'i reoli gan y Brifysgol dan gontract yn arwain at nifer cynyddol o ystafelloedd gwag gan arwain at lai o incwm a chostau contractiol parhaus. | • Monitro ystafelloedd gwag, lleoliad a phrisiau'n barhaus<br>• Modelu effaith ariannol a nodi camau gweithredu lliniarol<br>• Adolygu'r strategaeth llety myfyrwyr<br>• Hyrwyddo llety'r Brifysgol i fyfyrwyr sy'n dechrau ym mis Ionawr | |

# DATGANIAD BUDD CYHOEDDUS

Mae Prifysgol Abertawe wedi bod yn elusen gofrestredig (rhif 1138342) ers mis Hydref 2010. Diffinnir ein fframwaith cyfansoddiadol yn ein Siarter a Statudau ac mae Erthygl tri o'r Siarter Atodol yn amlygu amcanion ein Prifysgol: "hyrwyddo dysgu a gwybodaeth drwy addysgu ac ymchwil, ac ymgymryd â gweithgareddau i hyrwyddo a chyfrannu at ddatblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru a'r tu hwnt".

Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau ac wrth wneud penderfyniadau, mae Cyngor y Brifysgol yn rhoi sylw dyladwy i arweiniad y Comisiwn Elusennau ynghylch budd cyhoeddus a'i arweiniad atodol ynghylch hyrwyddo addysg.

Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas (2020) yn seiliedig ar bum piler ac mae gan bob un ei strategaeth ei hun. Ceir crynodeb o'r rhain isod. Mae Ein Gweledigaeth Strategol a'n Pwrpas hefyd yn cydnabod mai'r argyfwng hinsawdd yw'r bygythiad mwyaf i gymdeithas o hyd. O ganlyniad i hynny, mae ein gwaith yn cyd-fynd â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy ac rydym wedi ymrwymo i fod yn brifysgol ddi-garbon erbyn 2035.

**Ein Cenhadaeth Ddinesig**

Rydym yn falch o berthyn i Ddinas Abertawe, Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn ehangach a Chymru, ac rydym yn dathlu'r dreftadaeth honno. Gyda champysau yn ardaloedd tri awdurdod lleol, rydym yn cydnabod mai prifysgol y rhanbarth yw ein Prifysgol ni, a bod gennym gyfrifoldeb i weithio gyda'n cymuned a Chymru ac er eu lles. Rydym yn gweithio i ddarparu atebion lleol i'r heriau byd-eang sy'n effeithio arnom i gyd.

Er bod ein cenhadaeth ddinesig â'i gwreiddiau yn ein rhanbarth lleol, mae'n ehangu i gynnwys yr effaith rydym yn ymdrechu i'w chael mewn cymunedau byd-eang. Rydym yn denu cydweithwyr a myfyrwyr i Abertawe o bob cwr o'r byd ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod yr addysg a'r profiadau a ddarparwn a'r ymchwil a wneir yma yn berthnasol yn lleol ac yn rhyngwladol. Yn anad dim, ymdrechwn i weithio mewn partneriaeth agored a theg, yng ngwir ystyr y gair, ac i ddysgu cymaint â phosib gan eraill.

Rydym yn sefydliad angori sy'n gwneud cyfraniad gweithredol at fywyd y rhanbarth. Mae gennym gysylltiadau cryf â sefydliadau angori a chyflogwyr mawr eraill, gan gynnwys byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector preifat a'r trydydd sector, ac mae gennym bartneriaethau effeithiol â cholegau addysg bellach ac ysgolion. Rydym wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr isadeiledd angenrheidiol i gefnogi sgiliau ac arloesi ac rydym yn bartner allweddol ym Margen Ddinesig Bae Abertawe.

Rydym yn cyfrannu at fywyd diwylliannol ein cymuned drwy Theatr Taliesin a'r Neuadd Fawr, y Ganolfan Eifftaidd, Llyfrgell Glowyr De Cymru ac Archifau Richard Burton a Gwobr Ryngwladol Dylan Thomas. Rydym wedi llofnodi Cyfamod y Lluoedd Arfog i gydnabod y gwerth mae aelodau a chyn-aelodau o'r lluoedd arfog a theuluoedd milwrol yn ei gyfrannu at ein Prifysgol a'n cenedl.

**Profiad ein Myfyrwyr**

Ein myfyrwyr yw calon ein Prifysgol. Rydym yn ystyried eu hanghenion a'u disgwyliadau wrth wneud penderfyniadau ac rydym yn ymfalchïo yn ein henw cryf cyson am ansawdd profiad ein myfyrwyr, cryfder ein gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr, a'n hymrwymiad i iechyd meddwl a lles myfyrwyr. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym yn gweithio i sicrhau bod pob myfyriwr sy'n dewis Abertawe fel ei gartref yn cael y profiad gorau posib yma.

Mae ein myfyrwyr yn gwneud cyfraniad sylweddol at gymdeithas leol drwy raglenni gwirfoddoli ac allgymorth, ac maent yn rhan o'n cymuned ryngwladol. Ein nod yw creu dinasyddion byd-eang a fydd yn mynd allan i'r byd ac yn gwneud gwahaniaeth. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth ein helusen gwirfoddoli myfyrwyr, Discovery, gefnogi 190 o gyfleoedd i dros 600 o fyfyrwyr wirfoddoli drwy weithio gyda phobl ledled ein cymuned: pobl hŷn; oedolion a phlant anabl; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; menywod sydd wedi'u hecsbloetio; pobl sy'n ynysig ac yn unig; a myfyrwyr ag anghenion ychwanegol.

**Ein Dysgu ac Addysgu**

Mae rhannu gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau meddwl yn annibynnol ac yn feirniadol yn elfen sylfaenol o'n pwrpas. Mae'n galluogi ein myfyrwyr i fod yn gadarn yn wyneb heriau byd-eang ac i addasu i fyd gwaith newidiol. Rydym yn dathlu ein treftadaeth Gymraeg ac yn falch o fod yn rhan o genedl ddwyieithog. Rydym yn parchu hawl myfyrwyr i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn ehangu ein hystod o gyfleoedd iddynt wneud hynny. Rydym hefyd yn gweithio i gynnal ein statws fel cymuned sy'n cydbwyso rhagoriaeth ymchwil ac addysgu.

Rydym yn ymrwymedig i ehangu a dyfnhau mynediad at addysg, gan hyrwyddo cyfleoedd dysgu cynhwysol a theg gydol oes. Ein Prifysgol yw'r partner arweiniol ym Mhartneriaeth Ymestyn Ehangach De-orllewin Cymru a ariennir gan Medr, yn ogystal ag arwain a darparu rhaglen Camu Ymlaen i Brifysgol Abertawe. Nod y ddwy raglen yw cynyddu cyfranogiad mewn addysg uwch gan bobl o grwpiau a chymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol - gan gynnwys pobl ifanc â phrofiad o ofal – a chymunedau yn ne-orllewin Cymru.

Mae Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe (SAILS) hefyd yn gweithio i ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol cynhwysol ar gyfer ein poblogaeth amrywiol o fyfyrwyr. Mae gan SAILS amrywiaeth o brosiectau i alluogi unigolion o bob cefndir i bontio i addysg uwch; i aros yn y brifysgol a chwblhau eu hastudiaethau; i symud o lefel i lefel, ac i ennill y radd orau bosib.

**Ein Hymchwil**

Mae ein hymchwil yn cael effaith oherwydd ei bod yn cael ei llywio i ddiwallu anghenion ein partneriaid diwydiannol, masnachol, academaidd ac yn y sector cyhoeddus. Mae'n newid bywydau, yn ysgogi arloesi a thwf rhanbarthol ac mae'n cydweddu â Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Mae'n effeithio ar ein diwylliant a'n cymdeithas, yn ogystal ag ar ein hiechyd a'n lles, ein heconomi a'n planed. Rydym yn ysgogi newidiadau mewn polisi yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Rydym wedi parhau i adeiladu ar ein cryfderau ymchwil presennol, gan fanteisio ar gyfleoedd newydd ac ehangu ein sylfaen o gyllidwyr ymchwil er mwyn dod yn fwy gwydn mewn amgylchedd mwyfwy heriol ar gyfer cyllid ymchwil.

Rydym ar flaen y gad mewn llawer o feysydd, gan gynnwys: gweithgynhyrchu uwch ac arloesi ym maes ynni glân a'r economi ddigidol; nanoiechyd a dadansoddi data iechyd ar raddfa fawr, a dyfarnwyd Gwobr Pen-blwydd y Frenhines am Addysg Uwch i ni yn y maes hwn eleni; gwerthuso'r farchnad lafur; defnydd gan derfysgwyr o'r rhyngrwyd a chadwraeth ein treftadaeth ddiwydiannol. Rydym yn archwilio ffyrdd newydd o asesu a lliniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r argyfwng hinsawdd ac rydym yn gweithio i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ac i gyfoethogi bywydau pawb drwy ein dealltwriaeth o hanes a'r celfyddydau.

**Ein Mentergarwch**

Rydym yn brifysgol hynod gydweithredol ac entrepreneuraidd. Cawsom ein sefydlu gan ddiwydiant, ar gyfer diwydiant, ac rydym yn parhau'n ffyddlon i uchelgeisiau ein sefydlwyr, drwy weithio gyda phartneriaid diwydiannol, masnachol ac yn y sector cyhoeddus er budd ein rhanbarth a'n cenedl. Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaethau â chwmnïau angor a busnesau bach a chanolig yng Nghymru, ac â'r sefydliadau niferus rydym yn cydweithredu â nhw'n rhyngwladol.

Mae ein hymagwedd entrepreneuraidd yn ychwanegu gwerth at brofiad y myfyrwyr, gan gynnig cyfleoedd i'n myfyrwyr feithrin sgiliau ymarferol drwy leoliadau gwaith, interniaethau a phrosiectau ymchwil cydweithredol, ac rydym yn cefnogi myfyrwyr i lansio eu busnesau eu hunain. Mae Prifysgol Abertawe ymysg sefydliadau mwyaf blaenllaw'r DU am greu cwmnïau deillio. Yn ôl yr adroddiad blynyddol, Spotlight on Spinouts, a noddir gan yr Academi Frenhinol Peirianneg, mae ein Prifysgol ymhlith y 10 orau yn y DU (a'r un orau yng Nghymru) am gwmnïau deillio.

# DATGANIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL A DATGANIAD O REOLAETH FEWNOL

Mae'r Brifysgol yn ymgymryd â'i gweithgareddau yn unol â Chôd Llywodraethu Addysg Uwch a Chôd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC), ac yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, tryloywder, gonestrwydd ac arweinyddiaeth). Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i'r safonau uchaf o dryloywder, uniondeb ac atebolrwydd, ac mae'n ymgymryd â'i gweithgareddau mewn modd cyfrifol ac mae ganddi Bolisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i fynegi pryderon sydd er budd y cyhoedd.

**Cyfansoddiad a Phwerau**

Mae'r Brifysgol yn gorfforaeth annibynnol, y mae ei statws cyfreithiol yn deillio o Siarter Frenhinol a roddwyd yn wreiddiol ym 1920. Amlinellir ei hamcanion, ei phwerau a'i fframwaith llywodraethu yn ei Siarter gyfredol ('y Siarter Atodol') a gymeradwywyd gan y Cyfrin Gyngor yn 2007, ac yn ei Statudau ategol, y cymeradwywyd y diwygiadau diweddaraf iddynt gan y Cyfrin Gyngor yn 2021. Cofrestrwyd y Brifysgol yn elusen ym mis Hydref 2010 (rhif 1138342).

Mae'r Siarter a'r Statudau'n mynnu bod gan y Brifysgol dri chorff ar wahân (y Cyngor, y Senedd a'r Llys), pob un â swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, i oruchwylio a rheoli ei gweithgareddau:

**Y Cyngor**

Y Cyngor, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw'r corff llywodraethu ac felly, hwn yw awdurdod goruchaf y Brifysgol, sy'n golygu bod ganddo atebolrwydd terfynol am ymddygiad a gweithgarwch y Brifysgol a'i chynrychiolwyr. Nodir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Cyngor yn Statud 5, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y Brifysgol, ac am gyllid, ystadau, buddsoddiadau a busnes cyffredinol y Brifysgol.

Mae'r Cyngor yn cwrdd o leiaf bedair gwaith y flwyddyn ac mae'n arfer ei gyfrifoldebau drwy'r pwyllgor rheoli gweithredol a'r pwyllgorau sefydlog a nodir isod. Gellir cynnal cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd yn ôl yr angen. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Cyngor wyth cyfarfod, gan gynnwys pedwar cyfarfod arbennig. Cynhaliwyd tri o'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, cynhaliwyd pedwar cyfarfod hybrid a chynhaliwyd un o bell.

Mae aelodaeth y Cyngor yn cynnwys aelodau annibynnol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg), aelodau o blith staff a myfyrwyr a benodir yn unol â Statudau ac Ordinhadau'r Brifysgol. Ni fydd aelodau'r Cyngor yn fwy nag 19 ac mae'r rhan fwyaf o aelodau'r Cyngor yn aelodau anweithredol lleyg nad ydynt yn aelodau staff nac yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, a hysbysebir cyfleoedd i aelodau lleyg yn allanol a chroesewir mynegiannau o ddiddordeb gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn arbennig. Caiff ceisiadau eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau a'u hasesu yn erbyn y matrics sgiliau a phrofiad presennol. Nid oes unrhyw un o'r aelodau lleyg yn derbyn tâl ar wahân i ad-dalu treuliau am waith ar ran y Brifysgol. Mae aelodau lleyg o'r Cyngor yn gwasanaethu am gyfnod o bedair blynedd ond gellir eu hailbenodi am gyfnod arall o bedair blynedd. Nid oes neb ond aelod lleyg yn gallu ymgymryd â rôl Cadeirydd y Cyngor ac mae'r rôl hon ar wahân i rôl Prif Weithredwr y Brifysgol, sef yr Is-ganghellor. Penodir aelodau staff o'r Cyngor drwy broses ethol deg ac agored.

Mae'n ofynnol i aelodau'r Cyngor wneud datganiad o fuddiannau wrth gael eu penodi i'r Cyngor, i adolygu eu datganiad o leiaf unwaith y flwyddyn, ac i ddiweddaru eu datganiad pryd bynnag y bydd yn newid. Caiff datganiadau eu hadolygu gan Gadeirydd y Cyngor, yn unol â pholisi a gweithdrefn y Brifysgol ynghylch Datganiadau o Fuddiannau er mwyn sicrhau nad oes gwrthdaro posib neu ymddangosiadol, neu os oes, sicrhau yr ymdrinnir â hyn yn briodol. Mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn cynnal cofrestr o fuddiannau holl aelodau'r Cyngor, sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Ar ddechrau holl gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau'r Cyngor, gofynnir i'r holl aelodau nodi unrhyw eitemau penodol y gall buddiant a ddatganwyd effeithio arnynt ac, os oes angen, nid yw aelodau'n cymryd rhan yn y drafodaeth neu'r penderfyniad perthnasol, a/neu gallant adael y cyfarfod ar yr adeg briodol. Cofnodir unrhyw ddatganiadau a nodwyd a chofnodir cyfraniad yr aelod at eitemau penodol yng nghofnodion y cyfarfod. Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r disgrifiad rôl ar gyfer yr Ysgrifennydd i'r Cyngor, a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Gillian Camm o Brifysgolion yng Nghymru (Adolygiad CAMM), sy'n cynnwys datganiad clir am atebolrwydd yr Ysgrifennydd am dynnu materion annibyniaeth neu wrthdaro at sylw'r Cadeirydd.



Gan fod y Brifysgol yn elusen gofrestredig, mae'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Bwrdd Ymddiriedolwyr ac mae aelodau'r Cyngor hefyd yn Ymddiriedolwyr Elusen.

Rhestrir isod aelodau o Gyngor y Brifysgol a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir isod presenoldeb yng nghyfarfodydd y Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 (*wedi'i fynegi fel nifer o gyfarfodydd y Cyngor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Cyngor | Categori | Presenoldeb |
|---|---|---|
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 4/4 |
| Mr Goi Ashmore, Trysorydd (tan 31 Rhagfyr 2023) a Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 7/8 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor (tan 31 Mawrth 2025) | Lleyg | 7/8 |
| Ms Anne Tutt, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 31 Rhagfyr 2023) a Thrysorydd (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 6/8 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor (tan 31 Gorffennaf 2029) | Staff | 8/8 |
| Dr Kerry Beynon, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 3/4 |
| Mr Laurence Carpanini, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 31 Rhagfyr 2026) | Lleyg | 7/8 |
| Yr Athro Edward David, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2028) | Lleyg | 8/8 |
| Mr Huw Davies, Aelod lleyg cyfetholedig (o 1 Awst 2024) | Lleyg | 0/0 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 26 Ionawr 2026) | Lleyg | 6/8 |
| Ms Nataliya Manskova, Aelod lleyg cyfetholedig (o 1 Awst 2024) | Lleyg | 0/0 |
| Mr Phillip Morgan, Aelod lleyg cyfetholedig (o 4 Chwefror tan 19 Mehefin 204) | Lleyg | 0/2 |
| Dr Angus Muirhead, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 31 Gorffennaf 2024) | Lleyg | 7/8 |
| Ms Elin Rhys, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 4/4 |
| Mrs Marcia Sinfield, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 30 Tachwedd 2024) | Lleyg | 7/8 |
| Yr Athro Keshav Singhal, Aelod lleyg cyfetholedig (tan 30 Tachwedd 2024) | Lleyg | 6/8 |
| Mr Richard Thomas, Aelod lleyg cyfetholedig (o 16 Mai 2024) | Lleyg | 1/3 |
| Ms Nan Williams, Aelod lleyg cyfetholedig (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 4/4 |
| Dr Mahaboob Basha, Penodwyd gan staff (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 6/8 |
| Mr Adam Jones, Penodwyd gan staff (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 8/8 |
| Yr Athro Michelle Lee, Penodwyd gan y Senedd (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 8/8 |
| Dr Phatsimo Mabophiwa, Penodwyd gan y Senedd (tan 30 Mehefin 2027) | Staff | 7/8 |
| Miss Megan Chagger, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (o 1 Gorffennaf 2024) | Myfyriwr | 2/2 |
| Mis Abigail Egwuatu, Penodwyd gan Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2024) | Myfyriwr | 6/6 |
| Mr Pablo Josiah, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2024) | Myfyriwr | 6/6 |
| Miss Katie Wilkinson, Penodwyd gan Undeb y Myfyrwyr (o 1 Gorffennaf 2024) | Myfyriwr | 2/2 |

### Côd Llywodraethu Addysg Uwch CUC

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i safonau uchel o lywodraethu corfforaethol ac mae'n ymdrechu'n barhaus i wella ei llywodraethu yn unol ag arfer gorau yn y sector addysg uwch. Datblygwyd strwythur llywodraethu'r Brifysgol i gydweddu â'r egwyddorion a'r arferion a amlinellir yng Nghôd Llywodraethu Addysg Uwch CUC. Yn unol â'r Côd hwn, comisiynodd y Cyngor Adolygiad Annibynnol o Effeithiolrwydd yn 2023, a gynhaliwyd gan AUA Consulting. Cydnabu'r Adolygiad hwn y gwelliannau a roddwyd ar waith gan y Brifysgol ers ei hadolygiad effeithiolrwydd diwethaf yn 2019, a daeth i'r casgliad y gellid cadarnhau â chryn sicrwydd fod trefniadau llywodraethu'r Brifysgol yn effeithiol ac nad oedd unrhyw faterion o safbwynt llywodraethu y byddai angen rhoi sylw iddynt, a bod y Cyngor yn cynnal ei weithgareddau'n unol â'r Côd. Casglwyd hefyd bod y Brifysgol, drwy gynnal yr adolygiad hwn, wedi dangos ei hymrwymiad i wella ei threfniadau llywodraethu'n barhaus yn unol â'r arferion gorau a nodwyd yn y Côd. Nododd yr Adolygiad rai cyfleoedd ar gyfer gwella a datblygu. Mae'r Cyngor wedi ystyried y rhain ac wedi cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer rhoi nifer ohonynt ar waith. Mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024, gall y Cyngor adrodd nad oedd unrhyw elfen sylfaenol o'r Côd Llywodraethu nad oedd gweithdrefnau'r Brifysgol yn gyson â hi.

### Adolygiad o lywodraethu prifysgolion yng Nghymru

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'n ffurfiol y Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru ac Ymrwymiad i Weithredu a gyhoeddwyd mewn ymateb i Adolygiad Camm ac mae'n parhau i roi'r argymhellion a nodwyd ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ymrwymiad i Weithredu. Gan adeiladu ar y cynnydd da a wnaed yn y blynyddoedd blaenorol, mae datblygiadau allweddol yn 2023/24 yn cynnwys:

- mabwysiadu Datganiad o Annibyniaeth ar gyfer Aelodau Lleyg o'r Cyngor. Mae hwn yn esbonio ystyr annibyniaeth a'r materion hynny a all amharu ar annibyniaeth llywodraethwyr, ynghyd â Chôd Ymddygiad diwygiedig y Cyngor sy'n nodi'r ymddygiadau a'r safonau a ddisgwylir gan aelodau'r Cyngor i gynorthwyo cyrff llywodraethu wrth gyflawni'r safonau uchaf o lywodraethu;
- cyflwyno Fforwm Ymgysylltu ar y cyd newydd y Cyngor lle gall cynrychiolwyr o undebau'r campws godi materion yn uniongyrchol gydag aelodau lleyg o'r Cyngor cyn cyfarfodydd y Cyngor;
- cynnal adolygiad o lys y Brifysgol i sicrhau ei fod yn darparu fforwm effeithiol i randdeiliaid ymgysylltu â'r gymuned ehangach;
- adolygu'r rhaglen sefydlu ar gyfer aelodau newydd o'r Cyngor. Ar hyn o bryd, mae hyn yn cynnwys sesiynau briffio gyda Chadeirydd y Cyngor, Ysgrifennydd y Brifysgol ac aelodau o'r tîm Gweithredol a digwyddiadau allanol Medr/Advance HE; a
- thrwy brosesau penodi clir a thryloyw, recriwtio Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor newydd, Trysorydd newydd y Brifysgol a phum aelod lleyg newydd o'r Cyngor, gan ystyried y matrics o sgiliau a phrofiad aelodau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i feddu ar y sgiliau a'r profiad sy'n angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau.

### Y Senedd

Y Senedd, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yw awdurdod academaidd y Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Senedd yn Ordinhad 4, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Cadeirir y Senedd gan yr Is-ganghellor ac mae ei haelodaeth yn cynnwys: y Profost, Dirprwy Is-gangellorion a Dirprwy Is-gangellorion a Deoniaid Gweithredol, Dirprwy Is-gangellorion Cynorthwyol, Dirprwy Ddeoniaid Gweithredol, Deoniaid Cysylltiol Cyfadrannau, Penaethiaid Ysgolion, Cyfarwyddwyr Gweithrediadau Strategol Cyfadrannau, y Gwasanaethau Addysg, Bywyd Myfyrwyr ac Academi Hywel Teifi, a chynrychiolwyr myfyrwyr, ynghyd â 24 o aelodau etholedig o blith staff Athrawol a staff academaidd nad ydynt yn Athrawon yn y Cyfadrannau.

Mae'r Senedd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Senedd bum cyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig. Cynhaliwyd pedwar cyfarfod wyneb yn wyneb ac un cyfarfod hybrid. Canolbwyntiodd busnes y Senedd ar adolygu strategaethau'r Brifysgol (gan gynnwys Mentergarwch, Chwaraeon, y Gymraeg, Treftadaeth a Diwylliant, ac Addysg); adolygu prosesau a fframwaith sicrhau ansawdd y Brifysgol a Datganiad o Sicrhau Ansawdd blynyddol y llywodraethwyr; ac adolygu perfformiad y Brifysgol yn y tablau cynghrair a'i safleoedd, gan gynnwys yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr. Derbyniodd y Senedd ddiweddariadau hefyd am brosiectau a mentrau mawr sy'n effeithio ar y Brifysgol gyfan, recriwtio myfyrwyr a'r dirwedd polisi a sector ynghyd ag adroddiadau rheolaidd gan ei his-bwyllgorau a sefydlwyd i'w chynorthwyo wrth gyflawni ei chyfrifoldebau.

### Y Llys

Mae'r Llys, a sefydlwyd gan Siarter y Brifysgol, yn gorff mawr a ffurfiol i raddau helaeth, sy'n gweithredu fel fforwm i'r gymuned ehangach ymgysylltu â'r Brifysgol. Amlinellir aelodaeth, pwerau a dyletswyddau'r Llys yn Ordinhad 6, sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Canghellor y Brifysgol yw Cadeirydd y Llys a daw'r rhan fwyaf o'i aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol, gan gynrychioli'r gymuned leol a chyrff dynodedig eraill sydd â diddordeb yng ngwaith y Brifysgol. Mae'r aelodaeth hefyd yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, cynrychiolwyr o blith staff Brifysgol (academaidd a staff eraill) a'r myfyrwyr. Mae'r Llys yn cwrdd unwaith y flwyddyn fel arfer a chynhaliwyd y cyfarfod diwethaf wyneb yn wyneb ar 1 Chwefror 2024 i ystyried Adolygiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol ar gyfer 2022/23.

### Swyddog Atebol

Yr Is-ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol ar ran y Cyngor am gynnal a hyrwyddo effeithlonrwydd a threfn dda y Brifysgol. Yn ôl telerau'r memorandwm ariannol ffurfiol rhwng y Brifysgol a Medr, yr Is-ganghellor yw swyddog atebol y Brifysgol ac, yn y rhinwedd honno, gellir gorchymyn iddo ymddangos gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus Senedd Cymru ochr yn ochr â Phrif Weithredwr CCAUC (Medr erbyn hyn).

### Yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth

Fel Prif Weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-ganghellor gyfrifoldeb am ddatblygu strategaeth y sefydliad, nodi a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos y sefydliad. Mae aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Proffesiynol i gyd yn cyfrannu mewn ffyrdd amrywiol at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd ag awdurdod terfynol. Mae aelodaeth yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth, sy'n cael ei gadeirio gan yr Is-ganghellor, yn cynnwys y Profost, y Cofrestrydd a'r Prif Swyddog Gweithredu, y Dirprwy Is-gangellorion, y Dirprwy Is-gangellorion a Deoniaid Gweithredol a'r Prif Swyddog Cyllid. Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn cwrdd unwaith yr wythnos ac mae'n ystyried materion strategol a gweithredol.

### Pwyllgorau

Mae'r Cyngor wedi sefydlu pedwar pwyllgor sy'n ymdrin â llawer o'i waith manwl i ddechrau: Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg; Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth; Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau; a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Caiff pob un o'r pwyllgorau hyn ei gadeirio gan aelodau lleyg o'r Cyngor ac aelodau lleyg yw'r rhan fwyaf o'u haelodau. Mae uwch-swyddogion y Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae'r holl bwyllgorau'n hysbysu'r Cyngor am eu penderfyniadau. Mae ganddynt gyfansoddiad ffurfiol a chaiff eu chylchoedd gorchwyl a'u haelodaeth eu cymeradwyo gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Diffinnir rôl yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn Ordinhadau'r Brifysgol ac mae'r Ysgrifennydd i'r Cyngor hefyd yn gweithredu fel Ysgrifennydd i'r rhan fwyaf o Bwyllgorau'r Cyngor.

### Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg

Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn gyfrifol am gynghori a chynorthwyo'r Cyngor mewn perthynas ag amgylchedd sicrwydd a rheoli'r Brifysgol. Ei brif gyfrifoldebau yw sicrhau bod y Brifysgol yn cydymffurfio â gofynion statudol, gofynion y Brifysgol a gofynion rheoleiddio allanol mewn perthynas â'i gweithgareddau ariannol ac anariannol ac mewn perthynas â'r materion yn ei gylch gorchwyl, ac mae gan y Pwyllgor yr awdurdod i wneud argymhellion i'r Brifysgol, ei hunedau trefniadaethol a'i haelodau.

Cadeirir y Pwyllgor gan aelod lleyg o'r Cyngor. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar reolwyr y Brifysgol, er bod aelodau o'r uwch-dîm gweithredol yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen ac, yn unol â Chôd Rheoli Ariannol Medr, ni cheir croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at y cyfarfod lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (*wedi'i fynegi fel y nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg | Categori | Presenoldeb mewn cyfarfodydd* |
|---|---|---|
| Dr Kerry Beynon, Cadeirydd y Pwyllgor (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 2/2 |
| Mrs Marcia Sinfield, Cadeirydd y Pwyllgor (o 4 Chwefror 2024) | Lleyg | 4/4 |
| Miss Abigail Egwuatu, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 17 Tachwedd 2023 tan 30 Mehefin 2024) | Myfyriwr | 3/3 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/4 |
| Mr Phillip Morgan, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (o 4 Chwefror tan 19 Mehefin 2024) | Lleyg | 1/1 |
| Mr Richard Thomas, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (o 16 Mai 2024) | Lleyg | 1/1 |
| Ms Anne Tutt, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 2/2 |
| Mrs Alison Vickers, Aelod lleyg cyfetholedig o'r Pwyllgor | Lleyg | 3/4 |
| Miss Katie Wilkinson, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 1 Gorffennaf 2024) | Myfyriwr | 0/0 |

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod, dau ar ffurf hybrid a dau o bell. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar drafod natur a chwmpas y Cynllun Archwilio Blynyddol â'r Archwilwyr Allanol a derbyn adroddiadau ynghylch cynnydd wrth ei roi ar waith; cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol yn dilyn trafodaethau â'r Cyfarwyddwr Cysylltiol ar gyfer yr Archwiliad Mewnol a derbyn adroddiadau ynghylch cynnydd wrth ei roi ar waith; argymell i'r Cyngor yr ymagwedd a'r trefniadau arfaethedig mewn perthynas â pharodrwydd y Brifysgol i dderbyn risg; cymeradwyo ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor; goruchwylio polisïau'r Brifysgol mewn perthynas â materion moesegol ac ymddygiadau eraill a derbyn adroddiadau am unrhyw gamau gweithredu a gymerwyd yn unol â'r polisïau hyn; a derbyn adroddiadau diweddaru ar eitemau risg sefydlog (seiberddiogelwch, iechyd a diogelwch, cyfamodau benthyciadau, enw da a chwythu'r chwiban). Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariadau rheolaidd am raglen Cynaliadwyedd Ariannol y Brifysgol ac mae hefyd wedi adolygu ei gylch gorchwyl a'i effeithiolrwydd; y Map Sicrwydd; adroddiadau archwilio mewnol a bu'n monitro gwaith i roi ar waith yr argymhellion y cytunwyd arnynt o'r archwiliad; y trefniadau rheoli risg, y gofrestr risgiau a'r prif risgiau; effeithiolrwydd trefniadau archwilio allanol a mewnol; Llythyr Risg Medr i'r sefydliad; llythyr rheoli'r Archwilwyr Allanol; adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol; a chyfarfu'n rheolaidd â'r Archwilwyr Allanol, y Cyfarwyddwr Cysylltiol ar gyfer yr Archwiliad Mewnol, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu a'r Prif Swyddog Ariannol i roi cyfle iddynt drafod unrhyw faterion preifat.

## Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn goruchwylio ac yn monitro iechyd ariannol y Brifysgol ar ran y Cyngor. Ei brif gyfrifoldebau yw (i) sicrhau cynaliadwyedd ariannol tymor canolig a hir y Brifysgol drwy adolygu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn rheolaidd, (ii) sicrhau bod y Brifysgol yn gweithredu system rheoli ariannol mewnol gadarn, (iii) monitro perfformiad a chydymffurfiaeth ariannol, (iv) cynnal trosolwg ariannol o bob strategaeth berthnasol a (v) chwarae rôl feirniadol wrth gymhwyso egwyddorion prawf a her i bob penderfyniad ariannol. Mae'r Pwyllgor yn cynghori ac yn gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phob mater ariannol.

Cadeirydd y Pwyllgor yw Trysorydd y Brifysgol. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Yn unol â Chôd Rheoli Ariannol Medr, nid oes croes-gynrychiolaeth rhwng y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth. Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (*wedi'i fynegi fel y nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

| Aelod o'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth | Categori | Presenoldeb mewn cyfarfodydd* |
|---|---|---|
| Mr Goi Ashmore, Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor (tan 31 Rhagfyr 2023) a Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 6/6 |
| Ms Anne Tutt, Trysorydd a Chadeirydd y Pwyllgor (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 3/3 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor | Staff | 4/6 |
| Miss Megan Chagger, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 1 Gorffennaf 2024) | Myfyriwr | 0/0 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 6/6 |
| Dr Angus Muirhead, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor (tan 20 Mawrth 2024) | Lleyg | 3/4 |
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 3/3 |
| Mr Steve Smith, Aelod lleyg cyfetholedig | Lleyg | 5/6 |
| Mr Laurence Carpanini, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (o 10 Gorffennaf 2023) | Lleyg | 4/6 |
| Mr Pablo Josiah, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 9 Hydref 2023 tan 30 Mehefin 2024) | Myfyriwr | 5/6 |
| Ms Nan Williams, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (o 21 Mawrth 2024) | Lleyg | 2/2 |
| Yr Athro Michelle Lee, Aelod staff sy'n aelod o'r Cyngor (o 9 Hydref 2023) | Staff | 5/5 |



Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Pwyllgor chwe chyfarfod, gan gynnwys dau gyfarfod arbennig. Cynhaliwyd dau o'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, tri fel cyfarfodydd hybrid ac un o bell. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu ac argymell i'r Cyngor ragamcanion ariannol y Brifysgol a'r Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol a sefydlwyd mewn ymateb i'r heriau ariannol mae'r Brifysgol a'r sector addysg uwch ehangach yn eu hwynebu oherwydd costau cynyddol a chwyddiant, dibrisiant parhaus y ffi i fyfyrwyr israddedig cartref, ymddygiad cystadleuwyr mewn perthynas â myfyrwyr cartref a phroblemau o ran cadw a dilyniant. Bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd am gynnydd wrth roi'r rhaglen ar waith, gan gynnwys Ailgynllunio Gwasanaethau, cynhyrchu incwm, arbedion cyflog ac arbedion heblaw am gyflogau, Cynllun Ymadael yn Wirfoddol ac adolygiad o wariant cyfalaf y dyfodol. Yn ogystal, adolygodd y Pwyllgor reolaeth risgiau ariannol allweddol, prosesau cynllunio busnes, trefniadau cynllun pensiwn y Brifysgol, rhagamcanion ariannol is-gwmnïau'r Brifysgol, cyfrifon Undeb y Myfyrwyr, a phrosesau ac adroddiadau TRAC, achosion busnes ar gyfer partneriaethau rhanbarthol a byd-eang, Cynllun Dirprwyo diwygiedig, Polisi Rheoli Trysorlys drafft, ac adolygodd gylch gorchwyl y Pwyllgor.

## Y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau'n adolygu trefniadau llywodraethu'r Brifysgol ac yn cynghori'r Cyngor arnynt, gan sicrhau bod y Brifysgol yn mabwysiadu arfer gorau ac yn cydymffurfio â gofynion llywodraethu allanol. Prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw (i) sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion llywodraethu allanol, (ii) adolygu aelodaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau gan sicrhau bod ganddo'r cydbwysedd angenrheidiol o sgiliau a phrofiad i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau, (iii) adolygu dogfennau llywodraethu'r Brifysgol ac argymell newidiadau iddynt, (iv) adolygu a chynghori ar brosesau recriwtio a phenodi aelodau lleyg y Cyngor a'i bwyllgorau a gwneud argymhellion ynghylch y rhain, (v), adolygu a chynghori ar gynllunio am ddilyniant a gwneud argymhellion ar hyn, (vi) goruchwylio sefydlu, datblygu ac arfarnu aelodau'r Cyngor, (vii) adolygu Cofrestr Buddiannau'r Cyngor a sicrhau bod proses gadarn ar waith i nodi gwrthdaro posib rhwng buddiannau ac (viii) adolygu amrywiaeth y Cyngor a'i Bwyllgorau.

Cadeirydd y Pwyllgor yw Cadeirydd y Cyngor. Penodir holl aelodau lleyg y Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (*wedi'i fynegi fel y nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

Mae'r Pwyllgor yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn fel arfer, ond gellir galw cyfarfodydd arbennig ar gais y Cadeirydd os oes angen. Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Pwyllgor bum cyfarfod, gan gynnwys un cyfarfod arbennig. Cynhaliwyd pedwar o'r cyfarfodydd o bell ac un cyfarfod hybrid. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar argymell i'r

| Aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau | Categori | Presenoldeb mewn cyfarfodydd* |
|---|---|---|
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Pwyllgor (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 3/3 |
| Mr Goi Ashmore, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Pwyllgor (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 2/2 |
| Yr Athro Paul Boyle, Is-ganghellor | Staff | 5/5 |
| Miss Megan Chagger, Myfyriwr sy'n aelod o'r Cyngor (o 1 Gorffennaf 2024) | Myfyriwr | 0/0 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor | Lleyg | 5/5 |
| Yr Athro Ryan Murphy, Penodwyd gan y Senedd | Staff | 4/5 |
| Mr Adam Jones, Aelod staff o'r Cyngor (o 9 Hydref 2023) | Staff | 2/3 |
| Mr Pablo Josiah, Llywydd Undeb y Myfyrwyr (tan 30 Mehefin 2024) | Myfyriwr | 5/5 |
| Ms Elin Rhys, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor (tan 3 Chwefror 2024) | Lleyg | 3/3 |
| Yr Athro Keshav Singhal, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/5 |
| Ms Anne Tutt, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 3/3 |
| Ms Nan Williams, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 2/2 |

Cyngor benodiad Trysorydd newydd y Brifysgol ac aelodau lleyg newydd o'r Cyngor; adolygu'r Adroddiad ar yr Adolygiad annibynnol o Effeithiolrwydd Llywodraethu ac argymell cynllun gweithredu i'r Cyngor ar gyfer rhoi rhai cyfleoedd gwella a datblygu ar waith; adolygu ac argymell i'r Cyngor newidiadau yng nghylch gorchwyl ac aelodaeth Pwyllgorau'r Cyngor ac adolygu effeithiolrwydd y pwyllgorau hyn; argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu Datganiad o Annibyniaeth ar gyfer aelodau lleyg o'r Cyngor, Côd Ymddygiad diwygiedig a chynigion ar gyfer adolygu'r Llys. Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Brifysgol ac adroddiadau am amrywiaeth y Cyngor a phwyllgorau'r Cyngor, y gofrestr datganiadau o fuddiant, a'r broses ar gyfer gwerthuso Cadeirydd y Cyngor a'r Is-ganghellor.

## Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC) ac mae'n cyhoeddi adroddiad blynyddol sydd ar gael ar wefan y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am (i) orchwylio a chraffu ar strategaeth wobrwyo'r Brifysgol, (ii) llunio strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol i ymdrin â chydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth uwch-aelodau staff y Brifysgol ar radd 11 a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth. (iii) adolygu a phennu pob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Is-ganghellor, a chydnabyddiaeth ariannol a buddion ariannol eraill aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yn y sector prifysgolion ac mewn mannau eraill fel y bo'n briodol, (iii) darparu adroddiad blynyddol ar gynnydd i'r Cyngor sy'n dryloyw ac yn cydweddu ag argymhellion y Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff ac sy'n bodloni gofynion llywodraethu da.

Cadeirir y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol gan aelod lleyg o'r Cyngor ac mae'n cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Penodir holl aelodau'r Pwyllgor a'i Gadeirydd gan y Cyngor ac ar argymhelliad y Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau. Mae'r holl aelodau'n annibynnol ar y Brifysgol. Mae'r Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Ysgrifennydd y Brifysgol yn mynychu'r holl gyfarfodydd ac mae uwch-swyddogion gweithredol eraill yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen. Nid yw'r Is-ganghellor yn bresennol yn ystod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ei gydnabyddiaeth ariannol ei hun ac nid yw'n cyfrannu at y rhain. Nid yw aelodau staff yn bresennol pan fydd y Pwyllgor yn penderfynu ar eu gwobrwyon. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn darparu diweddariadau rheolaidd i'r Cyngor.

Rhestrir isod aelodau o'r Pwyllgor a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a hyd at y cyfarfod o'r Cyngor lle llofnodwyd y datganiadau ariannol. Nodir presenoldeb yng nghyfarfodydd y Pwyllgor (*wedi'i fynegi fel y nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor y bu'r aelod yn bresennol ynddynt o gyfanswm y cyfarfodydd y gallai fod wedi'u mynychu).

Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod yr oedd pob un ohonynt yn hybrid. Canolbwyntiodd busnes y Pwyllgor ar adolygu a phennu cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth aelodau newydd o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth a swyddi Cyfarwyddwyr; ystyried y broses Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 a 2024 a gwneud penderfyniadau yn ei chylch; cymeradwyo dyfarniad costau byw ar gyfer yr Is-ganghellor a nodi'r dyfarniad ar gyfer yr holl gydweithwyr eraill yn unol â'r codiadau cyflog a weithredwyd yn dilyn trafodaethau cyflog 2023/24 a gynhaliwyd gan UCEA ar ran sefydliadau addysg uwch; adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac effeithiolrwydd y Pwyllgor yn unol ag arfer y sector; cymeradwyo Datganiad Blynyddol o Bolisi Cyflog newydd sy'n amlinellu polisïau'r Brifysgol ar amrywiaeth o faterion mewn perthynas â chyflogau a chydnabyddiaeth ariannol ei gweithlu; cymeradwyo Datganiad Cydnabyddiaeth Ariannol sy'n dryloyw, sy'n cyd-fynd ag argymhellion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-swyddogion Addysg Uwch CUC ac yn bodloni gofynion llywodraethu da; derbyn diweddariadau lefel uchel ar sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Cynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES), gweithgareddau gwobrwyo'r Brifysgol a'r llwybr cymeradwyo, y broses o roi'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar waith a chyflogau'r rhywiau; nodi dyrchafiadau drwy'r weithdrefn Cadw Dawn Eithriadol; a chymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ar unrhyw drefniadau i derfynu cyflogaeth cyflogeion ar radd 11 ac am daliadau sy'n fwy na £60,000 a chyfrifoldeb am y broses hon.

| Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol | Categori | Presenoldeb mewn cyfarfodydd* |
|---|---|---|
| Dr Angus Muirhead, Aelod Cyfetholedig o'r Cyngor a Chadeirydd y Pwyllgor | Lleyg | 4/4 |
| Mr Goi Ashmore, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (o 1 Ionawr 2024) | Lleyg | 3/3 |
| Mr Laurence Carpanini, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 3/3 |
| Yr Athro Edward David, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/4 |
| Syr Roderick Evans, Dirprwy Ganghellor | Lleyg | 4/4 |
| Yr Athro Kathryn Monk, Aelod cyfetholedig o'r Cyngor | Lleyg | 4/4 |
| Mr Bleddyn Phillips, Dirprwy Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor (tan 31 Rhagfyr 2023) | Lleyg | 1/1 |
| Ms Elin Rhys, Aelod cyfetholedig o'r cyngor | Lleyg | 1/1 |

## Datganiad o Reolaeth Fewnol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system rheoli mewnol gadarn ar waith i gynorthwyo'r Brifysgol i gyflawni ei nodau, ei hamcanion strategol a'i pholisïau, gan warchod yr arian a'r asedau cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt. Mae'r system rheoli mewnol yn seiliedig ar risg ac mae wedi'i chynllunio i reoli'r risg o fethu cyflawni amcanion strategol, yn hytrach na chael gwared â'r risg yn gyfan gwbl; felly, mae'r system yn darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddywediad perthnasol neu golled. Mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddo yn Siarter a Statudau'r Brifysgol a'r fframwaith rheoleiddio y mae'r Brifysgol yn gweithredu yn unol ag ef.

Mae elfennau allweddol system nodi risg a rheoli risgiau'n effeithiol y Brifysgol yn cynnwys y canlynol:

- cysylltu'r broses o nodi a rheoli risg â chyflawni amcanion y sefydliad drwy broses gynllunio flynyddol;
- caiff yr holl risgiau sylweddol, gan gynnwys o ran llywodraethu, rheoli, ansawdd, enw da a rhai ariannol, eu cynnwys yng Nghofrestr Risgiau'r Brifysgol, sy'n cael ei rheoli a'i chynnal gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol drwy bolisi ac ymagwedd sydd wedi'u hamlinellu'n glir. Mae'r Gofrestr Risgiau'n darparu portffolio cytbwys o debygolrwydd risgiau sy'n canolbwyntio ar y risgiau allweddol;
- gwerthuso'r tebygolrwydd y daw risgiau'n realiti, a'r effaith y cânt, fel rhan o'r un broses honno a sefydlu rheolaethau lliniaru;
- adolygu'r parodrwydd i dderbyn risg fel rhan o ystyriaeth gyffredinol rheoli risg;
- rhoi gweithdrefnau adolygu ar waith sy'n cynnwys risgiau busnes, gweithredol, cydymffurfiaeth ac ariannol;
- ymgorffori prosesau asesu risg a rheoli mewnol yng ngweithrediadau parhaus pob uned;
- cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, ac yna i'r Cyngor, ar reoli mewnol, llywodraethu a risg;
- gweithredu map sicrwydd risg, wedi'i lunio ar sail y gofrestr risgiau, ac yn seiliedig ar y tair llinell amddiffyn;
- gwerthuso'r map sicrwydd risg i lywio'r cynllun archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg a darparu sicrwydd ledled y sefydliad;
- mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn adroddiadau sicrwydd rheolaidd gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a chaiff y cynllun archwilio mewnol ar sail risg ei dderbyn gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg;
- adrodd yn flynyddol i'r Cyngor ar brif ganlyniadau'r broses o nodi a gwerthuso risgiau a'r adolygiad rheolaeth;
- caiff ymarferion rheolaidd i fonitro ac adolygu effeithiolrwydd prosesau a gweithdrefnau y system rheoli mewnol eu llywio gan Wasanaeth Archwilio Mewnol y Brifysgol, gan arwain at gamau gweithredu wedi'u monitro lle bynnag y bo'n angenrheidiol ac yn briodol.

Mae gan Uwch-dîm Arweinyddiaeth y Brifysgol brosesau ffurfiol ar waith ar gyfer gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan y sefydliad yn barhaus. Mae hyn yn golygu nodi'r mathau o risgiau drwy ymagwedd o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny ar lefel gorfforaethol ac adrannol. Caiff y rhain eu blaenoriaethu ar sail eu heffaith bosib a'r tebygolrwydd y cânt eu gwireddu drwy bolisi rheoli risgiau sefydledig.

Mae'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn monitro risgiau ynghyd â'r mesurau rheoli a'r camau lliniaru cysylltiedig yn rheolaidd. Y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg sy'n gyfrifol am sicrhau bod y fframwaith risgiau'n gweithio'n effeithiol a bod risg yn cael ei rheoli, ac am gynghori'r Cyngor a sicrhau y cyflwynir adroddiadau ac argymhellion priodol a'r gofrestr risgiau i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariad am risg ym mhob un o'i gyfarfodydd, Mae'r Pwyllgor Cyllid a Strategaeth yn derbyn y gofrestr risgiau a diweddariadau am risgiau perthnasol yn rheolaidd er gwybodaeth.

Mae gan y Brifysgol broses ar gyfer ymdrin â materion rheoli arwyddocaol, sy'n cynnwys hysbysu Cadeirydd y Cyngor, Cadeiryddion y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg, y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ac aelodau angenrheidiol o'r uwch-staff ar unwaith, a hysbysu CCAUC (Medr erbyn hyn) a'r Comisiwn Elusennau hefyd ac unrhyw awdurdod perthnasol arall, fel y bo'n briodol, gan ddibynnu ar natur y broblem.

# YR ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y POLISI CYFLOGAU

Mae gan Brifysgol Abertawe fframwaith ar gyfer cydnabod a gwobrwyo ei holl gyflogeion i gefnogi gweledigaeth a gwerthoedd y Brifysgol, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd system gyflogau gyfartal a thryloyw sy'n darparu gwerth am arian.

Diben y Datganiad Blynyddol ar y Polisi Cyflogau yw amlinellu polisïau'r Brifysgol ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflogau a chydnabyddiaeth ariannol ei gweithlu. Mae polisïau, gweithdrefnau ac arferion cyflogau a graddio'r Brifysgol ar gael i'r holl gyflogeion.

Yn ogystal â chydymffurfio â phob arfer cyfrifyddu, sy'n gofyn am adroddiad blynyddol llawn am gydnabyddiaeth ariannol, mae Datganiad y Brifysgol ar y Polisi Cyflogau wedi cael ei lunio yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015: Tryloywder Tâl Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru.

Mae'r Brifysgol hefyd yn sicrhau bod egwyddorion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau Staff y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (CUC), Tachwedd 2021 yn cael eu cymhwyso yn ei holl brosesau ac arferion ac mae'n cyflwyno adroddiad blynyddol ar Gydnabyddiaeth Uwch-aelodau Staff i'r Llywodraethwyr i ddangos hyn.

**Uwch-aelodau Staff**

Diffinnir hyn fel yr Is-ganghellor a holl aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ynghyd â staff ar Radd 10A a Gradd 11 (gan gynnwys Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol ac Athrawon) a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth.

**Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol**

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol, am ddatblygu strategaeth a pholisi gwobrwyo cyffredinol i ymdrin â chydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth uwch-aelodau staff y Brifysgol ar Radd 11 a'r rhai hynny sy'n atebol yn uniongyrchol i aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, ac am adolygu a phennu pob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, gan gynnwys unrhyw godiadau cyflog blynyddol, buddion ac amodau cyflogaeth, gan ystyried ehangder y cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol a pherfformiad wrth gyflawni amcanion strategol y Brifysgol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn adroddiadau sy'n ei alluogi i gael trosolwg o gyflog ym mhob rhan arall o'r Brifysgol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn un o Bwyllgorau Sefydlog y Cyngor, corff llywodraethu'r Brifysgol, ac mae ei aelodaeth yn cynnwys chwe llywodraethwr lleyg gan gynnwys dau Ddirprwy Ganghellor y Brifysgol y mae un ohonynt yn Gadeirydd y Cyngor.

**Adrodd ar Gyflog Uwch-swyddogion**

Caiff cyflog yr Is-ganghellor, ynghyd â data dienw am gyflogau uwchlaw £100,000, ei gyhoeddi yn Adolygiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol.

**Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol**

Caiff yr holl gyflogeion ar Raddau 1-10 eu talu yn unol â graddfa gyflogau y cytunir arni'n genedlaethol. Mae hon yn cael ei chyd-drafod yn flynyddol fel rhan o gyd-drafodaethau ar gyflog rhwng UCEA a'r pum undeb llafur sy'n cynrychioli addysg uwch (UCU, UNSAIN, Unite, EIS a'r GMB) ar ran nifer o sefydliadau addysg uwch yn y DU.

Yn ogystal ag unrhyw gynnydd y cytunir arno drwy gyd-drafodaethau ar gyflogau, mae'r holl gydweithwyr ar raddau 1-10 yn cael cynyddrannau blynyddol awtomatig nes eu bod yn cyrraedd brig eu gradd.

Caiff unrhyw gyflogau y tu allan i'r broses hon eu meincnodi drwy gymharu â sefydliadau tebyg yn y sector ac ar sail amodau'r farchnad.

**Meincnodi**

Defnyddir arolwg UCEA o gyflogau uwch-aelodau staff ac arolwg cyflogau XpertHR ar gyfer staff addysg uwch i feincnodi cynigion ynghylch cyflogau wrth recriwtio ac mewn adolygiadau perfformiad blynyddol.

Mae arolwg blynyddol CUC o gyflog ac amodau is-gangellorion yn cael ei ddefnyddio hefyd pan fydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor.

**Tâl mewn Cysylltiad â Pherfformiad**

Graddfeydd 1 i 10: Nid oes trefniadau tâl mewn cysylltiad â pherfformiad ar gyfer cydweithwyr ar Raddau 1-10 ar y golofn gyflog genedlaethol ond, fel y'i nodir uchod, mae'r strwythur cyflogau'n cynnwys cynyddrannau blynyddol nes i'r cyflogai gyrraedd y pwynt uchaf ym mhob gradd.

Gradd 10A, Gradd 11 a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth: Caiff cydnabyddiaeth ariannol cydweithwyr ar Radd 10A, Gradd 11 ac aelodau'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth ei hadolygu'n flynyddol, gan ddefnyddio proses deg a thryloyw sy'n adlewyrchu perfformiad pob unigolyn, yng nghyd-destun perfformiad y Brifysgol. Penderfynir ar lefel y dyfarniadau gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, gan ystyried data perthnasol o'r farchnad.

Yr Is-ganghellor: Mae'r Dirprwy Ganghellor, sy'n Gadeirydd y Cyngor, yn gyfrifol am broses cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, gan gynnwys penderfynu ar berfformiad ac argymell dyfarniad cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer yr Is-ganghellor i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau bod unrhyw gynnydd yng nghyflogau uwch-aelodau staff yn cael ei weithredu o fewn terfyn cyllideb fforddiadwy a ddiffiniwyd ymlaen llaw.

**Llwybrau Gyrfa Academaidd**

Mae meini prawf Llwybrau Gyrfa Academaidd y Brifysgol yn nodi'n glir y gweithgarwch a'r cyflawniadau a ddisgwylir gan gydweithwyr ar bob lefel, ar bob llwybr, a chânt eu defnyddio fel sylfaen penderfyniadau clir a thryloyw mewn prosesau recriwtio academaidd, adolygiadau datblygiad proffesiynol academaidd, dyrchafiadau academaidd a chydnabyddiaeth ariannol Athrawon. Mae'r Brifysgol wedi adolygu ei Llwybrau Gyrfa Academaidd, a gyflwynwyd gyntaf yn 2015, ac mae'r ymagwedd newydd yn symud o ddefnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol rhifiadol, tuag at ymagwedd fwy cyfannol o ddangos ac asesu cyflawniad academaidd.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau manwl ar enwebiadau a gynigir fel rhan o'r weithdrefn Cadw Dawn Eithriadol, fel y'i nodir ym mholisi Dyrchafiad Academaidd y Brifysgol.

**Cydraddoldeb**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i gyfle cyfartal o ran cyflog a chynnydd gyrfa ei holl staff, o fewn fframwaith sy'n deg, yn dryloyw ac yn gyson, ac adlewyrchir hyn yn ei strwythurau graddio a chyflog.

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae wedi talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ers 1 Ebrill 2019, sy'n golygu bod cyflogau ein holl gydweithwyr, yn enwedig y rhai sy'n ennill y cyflogau isaf, yn cyd-fynd â chostau byw yn y DU a Llundain yn unol â diffiniad y Living Wage Foundation.

Mae'r Brifysgol yn cymharu cyflogau grwpiau amrywiol yn rheolaidd ac yn monitro tueddiadau yng nghyflogau'r grwpiau hynny, sy'n cynnwys adrodd yn flynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Mae'r Brifysgol wedi nodi lleihad yn ei Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau am chwe blynedd yn olynol ac mae'n ymrwymedig i fynd i'r afael â hyn drwy amrywiaeth o fentrau, gan gynnwys rhaglen Arweinyddiaeth Aurora a Siarter Athena Swan. Adolygir adroddiadau blynyddol ar gynnydd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ar ran Cyngor y Brifysgol.

**Rheoli'r Gweithlu**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i weithredu â gofal a sensitifrwydd wrth derfynu cyflogaeth, yn unol ag ysbryd Gwerthoedd Prifysgol Abertawe, ac yn gyson â'r egwyddorion a amlinellir ym Mholisi Dileu Swyddi'r Brifysgol, ei Pholisïau Terfynu a'i Pholisi Ymadael yn Wirfoddol sydd ar gael i staff. Mae'r Brifysgol yn ymdrechu i weithio mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur a gydnabyddir ganddi i reoli'r broses ar gyfer unrhyw gynlluniau ymadael yn wirfoddol, ac mae'n cydnabod bod angen darparu pecyn ymadael yn wirfoddol rhesymol i gyflogeion cymwys.

# ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL

I Gyngor Prifysgol Abertawe. Adroddiad Ar Archwiliad Y Datganiadau Ariannol

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Abertawe ("y Brifysgol") am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024, sy'n cynnwys Datganiadau'r Grŵp a'r Brifysgol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiadau o Newid yn y Cronfeydd Wrth Gefn, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a Datganiad y Grŵp o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2024, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion y Grŵp a'r Brifysgol, a newidiadau yng nghronfeydd wrth gefn a llifoedd arian parod y Grŵp, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU, gan gynnwys FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â'r Statement of Recommended Practice: Accounting for Further and Higher Education 2019; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Sail ein barn**

Cawsom ein penodi'n archwilydd yn unol â Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) ac rydym yn adrodd yn unol â'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio rydym wedi'i chasglu'n sail ddigonol a phriodol i'n barn.

**Busnes gweithredol**

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oherwydd nad yw'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu derfynu eu gweithrediadau, ac oherwydd iddo ddod i'r casgliad bod hyn yn farn realistig gan ystyried sefyllfa ariannol y Brifysgol. Yn ogystal, mae wedi dod i'r casgliad nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi peri amheuaeth sylweddol ynghylch eu gallu i barhau fel busnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod busnes gweithredol").

Wrth i ni werthuso casgliadau'r Cyngor, buom yn ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y Grŵp ac yn dadansoddi sut gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau i weithredu dros y cyfnod busnes gweithredol.

Dyma ein casgliadau ar sail y gwaith hwn:

- rydym o'r farn ei bod hi'n briodol i'r Cyngor ddefnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac
- nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol mewn cysylltiad â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pennau eu hunain neu gyda'i gilydd, beri amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r Grŵp neu'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol am y cyfnod busnes gweithredol, ac rydym yn cytuno ag asesiad y Cyngor i'r perwyl hwn.

Fodd bynnag, ni allwn ragweld holl ddigwyddiadau neu amodau'r dyfodol, a gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â barnau a oedd yn rhesymol ar adeg eu llunio, felly nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.



**Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau - y gallu i ganfod**

Nodi ac ymateb i risgiau camddywediad perthnasol oherwydd twyll.

I nodi risgiau o gamddywediad perthnasol oherwydd twyll ("risgiau twyll"), gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai awgrymu cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Holi'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg a'r archwilwyr mewnol ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll a gyflawnwyd, a amheuir neu a honnir.
- Darllen Cofnodion y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio, Sicrwydd a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.

Gwnaethom gyfleu risgiau o dwyll a nodwyd i'r tîm archwilio cyfan gan barhau i fod yn wyliadwrus o unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Yn unol â gofynion safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posib i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn ymgymryd â gweithdrefnau i ymdrin â'r risg y bydd rheolwyr yn anwybyddu rheolaethau a'r risg y cydnabyddir refeniw mewn modd twyllodrus, yn enwedig y risg na chydnabyddir incwm ymchwil yn unol ag amodau a thelerau perthnasol grantiau a'r risg y gall rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni nodwyd unrhyw risgiau ychwanegol o dwyll.

Wrth bennu gweithdrefnau'r archwiliad, gwnaethom ystyried canlyniadau ein gwerthusiad o reolaethau'r Grŵp cyfan i reoli risg twyll.

Roedd y gweithdrefnau a roddwyd ar waith gennym yn cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn dyddlyfrau cyfrifyddu i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion a nodwyd â dogfennaeth ategol. Roedd y rhain yn cynnwys dyddlyfrau cyfrifyddu a oedd yn cynnwys cofnodion cyfrifyddu annisgwyl o arian parod.
- Gwirio bod incwm ymchwil wedi'i gydnabod yn briodol ar sail y cytundeb grant a oedd yn gysylltiedig â'r ymchwil a gwariant ymchwil cyfatebol.

**Nodi risgiau camddywediad perthnasol o ganlyniad i ddiffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau ac ymateb i'r rhain**

Nodwyd elfennau o gyfreithiau a rheoliadau y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol o'n profiad cyffredinol o fasnach a'r sector, a thrwy drafod â'r Cyngor a rheolwyr eraill (yn unol â gofynion safonau archwilio), a thrafodwyd y polisïau a'r gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau â'r Cyngor a rheolwyr eraill.

Gwnaethom gyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau a nodwyd i'n tîm cyfan gan barhau i fod yn wyliadwrus o unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfiaeth drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosib y cyfreithiau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i gyfreithiau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth ynghylch adrodd ariannol, trethiant, pensiynau, elusennau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth a rheoliadau addysg uwch, gan gynnwys y cyfarwyddyd ynghylch cyfrifon a gyhoeddwyd gan Medr a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfir â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau ar eitemau cysylltiedig y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i lawer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfiaeth gael effaith materol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft, drwy bennu dirwyon neu ymgyfreitha neu'r angen am gynnwys darpariaethau sylweddol. Rydym wedi nodi'r meysydd canlynol fel y rhai sy'n fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: cydymffurfiaeth â gofynion rheoleiddio addysg uwch Medr, gan gydnabod y ffaith bod gweithgareddau'r Grŵp wedi'u rheoleiddio. Mae safonau archwilio'n cyfyngu'r gweithdrefnau archwilio sy'n ofynnol i nodi diffyg cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr eraill ac archwilio gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol ei natur os yw ar gael. Felly, os nad yw achos o dorri rheoliadau gweithredol yn cael ei ddatgelu i ni, neu os nad yw'n amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod y toriad hwnnw.

**Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu dorri cyfreithiau neu reoliadau**

Oherwydd y gwendidau sy'n rhan annatod o archwiliad, nid oes modd osgoi'r risg nad ydym efallai wedi canfod rhai camddywediadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio'n briodol a chynnal ein harchwiliad yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po fwyaf y bwlch rhwng diffyg cydymffurfiaeth â chyfreithiau a rheoliadau a'r digwyddiadau a'r trafodion a nodir yn y datganiadau ariannol, lleiaf tebygol yw y bydd y gweithdrefnau cyfyngedig eu natur sy'n ofynnol gan y safonau archwilio yn ei ddarganfod.

Yn ogystal, fel sy'n wir gydag unrhyw archwiliad, bu'r risg o beidio â chanfod twyll yn uwch, oherwydd y gall hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camddywediadau neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u dylunio i ganfod camddywediad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â phob cyfraith a rheoliad.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Cyngor (ei aelodau yw Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) yn gyfrifol am yr wybodaeth arall, sy'n cynnwys yr holl wybodaeth yn yr Adolygiad Blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd amdanynt. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac, ac eithrio'r hyn a nodwyd yn eglur isod, unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arni.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, yn seiliedig ar ein gwaith yn archwilio'r datganiadau ariannol, ystyried a yw'n cynnwys camddywediad perthnasol neu a yw'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth o'r archwiliad. Mae angen i ni eich hysbysu:

- yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, os ydym wedi nodi camddywediadau perthnasol yn yr wybodaeth ariannol; neu
- os ydym o'r farn bod yr wybodaeth a roddwyd ar dudalennau 2 i 71 (sef Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr am y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw agwedd berthnasol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r agweddau hyn.

**Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad**

Yn unol â Deddf Elusennau 2011 mae'n ofynnol i ni adrodd i chi os ydym o'r farn:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad.

Nid oes gennym ddim i adrodd amdano mewn perthynas â'r agweddau hyn.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor**

Fel y'i hesboniwyd yn fanylach yn ei ddatganiad a amlinellir ar dudalennau 76 i 77, mae'r Cyngor yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg; y fath reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol, yn ei farn, i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau ar sail busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol, neu derfynu gweithrediadau, neu nad oes ganddo ddewis realistig ond gwneud hynny.

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (y DU) bob amser yn canfod camddywediad perthnasol os oes un. Gall camddywediadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad ac ystyrir eu bod yn berthnasol os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr sy'n seiliedig ar y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

ADRODDIAD AM OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL ERAILL

Mae'n ofynnol i ni adrodd am y materion canlynol a bennir yn y Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a'r Cyfarwyddyd ynghylch Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan Medr ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am reoleiddio'r sector addysg uwch yng Nghymru o CCAUC i Medr, y Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil, ar 1 Awst 2024. Mae'r Cyfarwyddyd Cyfrifon, y Côd Rheoli Ariannol a'r Amodau a Thelerau Cyllid 2023/24 a gyhoeddwyd gan CCAUC yn parhau ar waith ar ddyddiad ein hadroddiad. Yn sgîl y trosglwyddo hwn, dylid darllen unrhyw gyfeiriad at CCAUC yn ein hadroddiad fel pe bai'n cyfeirio at Medr hefyd.

Yn ein barn ni, ym mhob ffordd berthnasol:

- mae cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hyn a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- mae incwm, lle y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio gan y Brifysgol yn unol â pharagraff 145 côd rheolaeth ariannol Medr;
- Mae grantiau'r Cyngor Cyllido wedi cael eu defnyddio yn unol â'r amodau a thelerau a atodwyd iddynt, a'u defnyddio at y dibenion y'u derbyniwyd ar eu cyfer, gan gynnwys yr amodau a thelerau cyllid ar gyfer 2023/24 a gyhoeddwyd gan Medr; ac
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon Medr wedi'u bodloni.



DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY RYDYM YN GYFRIFOL

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar gyfer y Cyngor yn unig, yn unol ag Adran 4 o Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a'r rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno. Rydym wedi ymgymryd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni hysbysu'r Cyngor am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni ei hysbysu amdanynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i neb ond y Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu am y barnau rydym wedi eu llunio.

**Rees Batley**

ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol

Cyfrifwyr Siartredig

Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu fel archwilydd yng nghyd-destun adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006

66 Queen Square
Bryste, BS1 4BE

25 Tachwedd 2024

# DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR

## mewn Perthynas â'r Adolygiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Adolygiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion yr Amodau a Thelerau Cyllido a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch a ddarparwyd gan Medr, y Côd Rheoli Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a deddfwriaeth a rheoliadau cymwys.

Mae'n ofynnol iddo baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn unol â safonau cyfrifyddu'r DU a chyfraith gymwys (Ymarfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU), gan gynnwys FRS 102 'Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon' a gofynion Deddf Elusennau 2011. Yn ogystal, yn ôl yr Amodau a Thelerau Cyllido, mae'n ofynnol paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch ac yn unol â gofynion Cyfarwyddyd i Sefydliadau Addysg Uwch Medr.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r Brifysgol ac o'u hincwm a'u gwariant, eu henillion a'u colledion a newidiadau yn y cronfeydd wrth gefn am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi datganiadau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- llunio barnau ac amcangyfrifon rhesymol a darbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn y DU, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol;
- asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, os yw'n briodol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol; a
- defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod naill ai'n bwriadu datod y Grŵp neu'r Brifysgol neu derfynu gweithrediadau, neu nid oes ganddo ddewis realistig arall ond gwneud hynny.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a datgelu â chywirdeb rhesymol ac ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y Brifysgol. Mae'r Cyngor yn gyfrifol am y fath reolaeth fewnol y mae'n tybio ei bod yn angenrheidiol i'w alluogi i baratoi datganiadau ariannol sydd heb gamddywediad perthnasol, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, ac mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am gymryd y fath gamau gweithredu sydd ar gael yn rhesymol iddo i ddiogelu asedau'r Grŵp ac i atal a chanfod twyll a mathau eraill o afreoleidd-dra.

Wrth baratoi'r Datganiadau Ariannol hyn, mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau:



- bod cronfeydd o ba ffynhonnell bynnag a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol wedi cael eu defnyddio'n briodol at y dibenion hynny a'u rheoli yn unol â deddfwriaeth berthnasol;
- bod incwm, lle bynnag y bo'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o Gôd Rheoli Ariannol Medr;
- bod grantiau'r Cyngor Cyllido wedi cael eu defnyddio yn unol â'r amodau a thelerau sydd ynghlwm wrthynt ac at y dibenion y cawsant eu derbyn ar eu cyfer, gan gynnwys yr amodau a thelerau cyllido;
- sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu arian cyhoeddus ac arian o ffynonellau eraill; a
- sicrhau y caiff adnoddau a gwariant y Brifysgol eu rheoli mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gynnal yr wybodaeth gorfforaethol ac ariannol ar wefan y Brifysgol ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y DU sy'n ymwneud â pharatoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Mr Goi Ashmore,**
Cadeirydd y Cyngor
25 Tachwedd 2024

# DATGANIAD O'R PRIF BOLISÏAU CYFRIFYDDU

**1. Gwybodaeth Gyffredinol**

Roedd Prifysgol Abertawe wedi'i chofrestru gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) tan 31 Gorffennaf 2024, pan ddaeth gweithredu CCAUC i ben. O 1 Awst 2024, mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru gyda Medr, y Comisiwn ar gyfer Addysg ac Ymchwil Drydyddol. Cyfeirir at CCAUC a Medr, fel y bo'n briodol, drwy gydol y ddogfen hon.

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw:

Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP

Rhif Elusen: 1138342

**2. Datganiad o gydymffurfiaeth**

Mae'r Datganiadau Ariannol Cyfunol a Datganiadau Ariannol y Brifysgol wedi cael eu paratoi yn unol â Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Cyfrifyddu Ariannol 102 (FRS 102) a'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, (Argraffiad 2019).

Yn ogystal, maent wedi cael eu paratoi yn unol â'r pwerau a'r dyletswyddau a drosglwyddwyd o ddeddfwriaeth flaenorol (Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Addysg Uwch 2004) a phwerau newydd Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 yn ystod y cyfnod trosiannol tan 31 Gorffennaf 2019, y Siarter Frenhinol, y Cyfarwyddyd Cyfrifyddu a gyhoeddwyd gan Medr, a'r amodau a thelerau cyllid ar gyfer sefydliadau addysg uwch a gyhoeddwyd gan Medr.

Mae'r Brifysgol wedi'i chofrestru'n elusen. Mae'r Datganiadau Ariannol wedi cael eu paratoi gan gydymffurfio â Deddf Elusennau 2011.

Mae'r Brifysgol yn endid budd cyhoeddus, felly mae wedi cymhwyso gofyniad budd cyhoeddus perthnasol cyfreithiau cymwys y DU a'r safonau cyfrifyddu perthnasol.

**3. Sail baratoi**

Caiff y datganiadau ariannol cyfunol a datganiadau ariannol y Brifysgol eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (wedi'u haddasu gan ailbrisiad asedau sefydlog a mesur offerynnau ariannol penodol ar sail gwerth teg).

Amlinellir gweithgareddau'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei datblygiad, ei pherfformiad a'i sefyllfa yn y dyfodol, yn yr adolygiad gweithredol ac ariannol, sy'n rhan o adroddiad Aelodau'r Cyngor. Mae'r adolygiad hwn hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Brifysgol, ei llifoedd arian, a'r sefyllfa o ran ei hylifedd a'i chyfleusterau benthyca. Mae gan Aelodau'r Cyngor ddisgwyliad rhesymol bod gan y Brifysgol adnoddau digonol i barhau i weithredu am y dyfodol rhagweladwy.

Mae polisi cyfrifyddu 23 yn trafod penderfyniadau a wnaed gan y rheolwyr wrth gymhwyso'r polisïau cyfrifyddu hyn sy'n cael effaith sylweddol ar y datganiadau a'r amcangyfrifon ariannol â risg sylweddol o addasiad perthnasol yn y flwyddyn nesaf.

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ar gyfer y flwyddyn ariannol i 31 Gorffennaf 2024. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys incwm a gwariant Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn sterling, sef arian cyfred gweithredol y grŵp a chaiff symiau eu talgrynnu i'r £'000 agosaf.

**4. Busnes Gweithredol**

Yn debyg i ran helaeth o'r sector, mae'n rhaid i'r Brifysgol fynd i'r afael ag effeithiau ariannol yr ansicrwydd parhaus yn yr amgylchedd allanol, yn bennaf o ganlyniad i bolisïau'r llywodraeth, cynnydd mewn cystadleuaeth am fyfyrwyr cartref a thramor a'r pwysau parhaus ar gostau.

I ymdrin â'r risg hon, gwnaeth y Brifysgol roi Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol tair blynedd ar waith ym mis Awst 2023 ynghyd â chynllun manwl i gyflawni gwelliant cyffredinol o £40m mewn EBITDA erbyn 2026/27. Roedd hyn yn cynnwys targedau o ran incwm net ychwanegol ac arbedion ychwanegol mewn meysydd heblaw am gyflogau. Prif ffocws y cynllun, fodd bynnag, oedd ailgynllunio'r Gwasanaethau Proffesiynol, gyda Chyfarwyddwyr yn gyfrifol am yr holl staff yn y meysydd swyddogaethol a nodwyd. Lluniwyd Cynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES) hael i annog a chefnogi'r gostyngiad gofynnol yn niferoedd staff. Gwnaed cynnydd da ar y cynllun hwn yn ystod 2023/24 a chymeradwywyd arbedion gwerth £8.5m drwy VES yn 2024/25.

Mae'r newidiadau a wnaed i'r rheolau mewnfudo ym mis Ionawr 2024 a'r amodau economaidd heriol yn Nigeria wedi effeithio ar ein rhagdybiaethau ar gyfer cylch recriwtio 2024/25. O ganlyniad, mae'r Brifysgol wedi rhoi ail gam y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol ar waith gan chwilio am arbedion ychwanegol o £30m erbyn 2027/28.

Yn ôl y Rhaglen Cynaliadwyedd Ariannol y dechreuodd y Brifysgol ei gweithredu ym mis Awst 2023, rhagwelwyd y byddai o leiaf un o'r cyfamodau benthyca sy'n gysylltiedig â'i benthyciad gan Fanc Buddsoddi Ewrop yn cael ei dorri erbyn 31 Gorffennaf 2024 a 31 Gorffennaf 2025.

Mae'r Brifysgol wedi llwyddo i ail-negodi'r cyfamodau benthyca gyda Banc Buddsoddi Ewrop am gyfnod sy'n cynnwys y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024 a'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Gorffennaf 2025. Bydd cyfamod dros dro sy'n galw am leiafswm arian parod yn cael ei brofi bob chwarter tan 31 Ionawr 2026.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau cyfleuster credyd cylchol gwerth £25m gyda HSBC am gyfnod o bum mlynedd i ddarparu gwydnwch ychwanegol, er bod y rhagamcanion a'r senarios risg yn awgrymu na fydd ei angen.

Mae'r Brifysgol wedi paratoi nifer o senarios risg ac ystyried effaith ariannol y rhain ar ei Datganiadau Incwm Cynhwysfawr, ei sefyllfa ariannol, ei llifoedd arian parod ac ar ei chyfamodau bancio ar gyfer y cyfnod busnes gweithredol, sef 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.

Y brif risg a brofwyd yw gostyngiad yn niferoedd y myfyrwyr cartref a thramor o'u cymharu â rhagamcanion gwreiddiol 2024/25, gan ystyried gwir gofrestriadau hyd at fis Hydref 2024 a chofrestriadau a ragwelir ym mis Ionawr 2025 a mis Medi 2025, yn seiliedig ar geisiadau presennol a gwybodaeth am y farchnad.

Mae risgiau eraill a gafodd eu hystyried yn cynnwys gostyngiadau mewn incwm sy'n gysylltiedig â myfyrwyr, o gyfleusterau arlwyo a chwaraeon, y posibilrwydd y bydd llety gwag mewn preswylfeydd, methiant i gyflawni'r arbedion gofynnol yn y fframwaith amser a phwysau pellach ar gostau oherwydd chwyddiant.

Mae aelodau'r Cyngor wedi ystyried y rhagdybiaethau sy'n sail i'r senarios risg, y mesurau lliniaru a awgrymwyd ac effaith ariannol y rhain, yn enwedig mewn perthynas â'r sefyllfa arian parod a'r cyfamodau benthyca wedi'u hail-negodi. Er eu bod yn cydnabod maint yr her a wynebir gan y sector a'r Brifysgol, mae aelodau'r Cyngor yn hyderus bod arweinyddiaeth bresennol y Brifysgol yn gallu rheoli'r risgiau ac y bydd arian digonol ar gael i fodloni rhwymedigaethau'r Brifysgol wrth iddynt ddod yn ddyledus yn y cyfnod o 12 mis i ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol.

**5. Eithriadau o dan FRS102**

Mae'r Brifysgol wedi manteisio ar yr eithriad o dan adran 3.3 o'r SORP (1.12(b) o FRS 102) i beidio â llunio datganiad o lif arian parod y Brifysgol yn ei datganiadau ariannol ar wahân.

**6. Sail gyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y Brifysgol a'i holl is-gwmnïau ynghyd â chyfran o ganlyniadau mentrau ar y cyd a chwmnïau cysylltiol am y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2024.

Mae canlyniadau is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu gwaredu yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr o ddyddiad eu caffael neu hyd at ddyddiad eu gwaredu. Caiff trafodion o fewn y grŵp eu dileu adeg cyfuno.

Mae enillion neu golledion ar unrhyw drafodion o fewn y grŵp wedi'u dileu'n llawn. Mae symiau mewn perthynas â dyledion a hawliadau rhwng mentrau a gynhwyswyd yn y cyfuno wedi'u dileu hefyd. Nid yw balansiau rhwng y Brifysgol a'i chwmnïau cysylltiol a'i mentrau ar y cyd yn cael eu dileu. Mae trafodion masnachol arferol nad ydynt wedi'u setlo erbyn dyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol wedi'u cynnwys fel asedau neu rwymedigaethau cyfredol. Mae unrhyw enillion neu golledion wedi'u cynnwys yn swm cario ymlaen asedau'r naill endid neu'r llall; caiff y rhan sy'n ymwneud â chyfran y Brifysgol ei dileu.

Nid yw'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr am nad oes gan y Brifysgol reolaeth na dylanwad llywodraethol ar benderfyniadau polisi.

Cyfrifir am gwmnïau cysylltiol a mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

**7. Cydnabod incwm**

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo modd mesur swm y refeniw yn ddibynadwy, gellir mesur y cam cwblhau yn ddibynadwy ar ddiwedd y cyfnod adrodd, pan fo'n debygol y bydd y buddion economaidd sy'n gysylltiedig â'r trafodiad yn llifo i'r Brifysgol a phan ellir mesur costau gwasanaethau a ddarperir neu y disgwylir eu darparu yn ddibynadwy.

Nodir incwm o ffioedd dysgu fel swm gros cyn unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt a'i gredydu i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr dros y cyfnod pan fo myfyrwyr yn astudio. Lle caiff swm y ffi ddysgu ei ostwng oherwydd disgownt am dalu'n brydlon, dangosir yr incwm taladwy net o'r disgownt. Cyfrifir am fwrsariaethau ac ysgoloriaethau'n grynswth fel gwariant ac ni chânt eu didynnu o incwm. Cydnabyddir contractau addysg pan fydd hawl gan y Brifysgol i'r incwm, sef y cyfnod pan fo'r myfyrwyr yn astudio neu, lle bo'n berthnasol, pan fydd amodau perfformiad wedi'u bodloni.

Caiff arian mae'r Brifysgol yn ei dderbyn ac yn ei alldalu fel asiant talu ar ran corff cyllido ei eithrio o incwm a gwariant y Brifysgol lle mae'r Brifysgol yn agored i risg isel iawn neu'n derbyn budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodiad.

Credydir incwm o fuddsoddi i'r datganiad o incwm a gwariant pan gaiff ei dderbyn.

## Cyllid grant

Cydnabyddir grantiau'r Llywodraeth, gan gynnwys grant bloc y Cyngor Cyllido a grantiau ymchwil gan ffynonellau'r Llywodraeth a grantiau eraill gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio yn y credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

Cyfrifir am gontractau ymchwil masnachol yn unol â'r polisi ar gyfer incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau (trafodion cyfnewid) uchod.

Cydnabyddir grantiau a rhoddion eraill a dderbynnir gan ffynonellau anllywodraethol, gan gynnwys grantiau ymchwil gan ffynonellau anllywodraethol, yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm a phan fo'r amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad wedi'u bodloni. Caiff incwm a dderbynnir cyn y bodlonir amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad ei ohirio yn y credydwyr yn y Datganiad o Berfformiad Ariannol a'i ryddhau i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wrth i amodau o'r fath gael eu bodloni.

## Grantiau cyfalaf

Cydnabyddir grantiau cyfalaf mewn incwm pan fo gan y Brifysgol hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cyfrifir am grantiau cyfalaf gan y Llywodraeth ar gyfer tir yn unol â'r model perfformiad fel y polisi ar gyfer grantiau'r Llywodraeth uchod.

## Rhoddion a gwaddolion

Mae rhoddion a gwaddolion yn drafodion digyfnewid heb amodau sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Cydnabyddir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau a bennwyd gan y rhoddwr yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm. Cedwir yr incwm yn y cronfeydd wrth gefn cyfyngedig nes y gellir ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath, ac ar yr adeg hynny caiff yr incwm ei ryddhau i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol drwy drosglwyddiad rhwng cronfeydd wrth gefn.

Cofnodir incwm o fuddsoddiadau ac adbrisiant gwaddolion mewn incwm yn ystod y flwyddyn mae'n codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn unol â thelerau'r cyfyngiad a roddwyd ar y gronfa waddol unigol.

Cofnodir rhoddion heb gyfyngiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr pan fo gan y Brifysgol hawl i'r incwm.

Cofnodir rhoddion a gwaddolion â chyfyngiadau fel cronfeydd wrth gefn cyfyngedig a darperir datgeliad ychwanegol yn y nodiadau i'r cyfrifon.

Ceir pedwar prif fath o rodd a gwaddol â chyfyngiadau:

1. Rhoddion cyfyngedig – mae'r rhoddwr wedi pennu bod rhaid i'r rhodd gael ei defnyddio i gyflawni amcan penodol.

2. Gwaddolion parhaol anghyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Brifysgol.

3. Gwaddolion cyfyngedig i'w gwario – mae'r rhoddwr wedi pennu amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, a gall y Brifysgol droi'r swm a roddir yn incwm.

4. Gwaddolion parhaol cyfyngedig - mae'r rhoddwr wedi pennu bod yn rhaid i'r gronfa gael ei buddsoddi'n barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w defnyddio i gyflawni amcan penodol.

Caiff rhoddion o asedau diriaethol eu cynnwys mewn incwm. Caiff gwerth yr incwm a gydnabyddir ei bennu gan ddefnyddio amcangyfrif rhesymol o'u gwerth gros neu'r gwir swm sy'n cael ei wireddu. Caiff rhoddion sy'n asedau diriaethol eu prisio a chyfrifir amdanynt fel asedau diriaethol yn y categori priodol o ased.

## 8. Cyfrifyddu ar gyfer buddion ymddeol

Y tri phrif gynllun sydd ar gael i staff y Brifysgol yw Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS), Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS) a'r Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Caewyd SUPS i aelodau newydd o 1 Ionawr 2012, a gwahoddwyd staff newydd i ymuno â NEST. Mae'r Brifysgol yn cyfrannu at Gynllun Pensiwn y GIG hefyd.

Mae USS yn Gynllun Cyfartaledd Enillion Gyrfa wedi'i Ailbrisio. Mae SUPS yn gynllun buddion diffiniedig, a ariennir yn allanol ac sydd wedi'i gontractio allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Caiff y ddwy gronfa eu prisio bob tair blynedd gan actiwarïaid annibynnol cymwysedig proffesiynol. Mae NEST yn gynllun cyfraniadau diffiniedig.

Mae USS yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'n bosib adnabod asedau a rhwymedigaethau pob prifysgol oherwydd natur gilyddol y cynllun. Felly, mae'r cyfrifon yn ymdrin â'r cynllun fel cynllun budd ymddeol cyfraniadau diffiniedig.

Cofnodir rhwymedigaeth o fewn darpariaethau ar gyfer unrhyw ymrwymiad dan gontract i ariannu diffygion blaenorol yng nghynllun USS. Yn ôl prisiad 2024, mae gwarged gan y cynllun a dilëwyd y rhwymedigaeth yn y datganiadau ariannol.

### Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig

Mae cynllun cyfraniadau diffiniedig yn gynllun buddion ôl-gyflogaeth lle mae'r cwmni'n talu cyfraniadau sefydlog i mewn i endid ar wahân ac ni fydd arno rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol i dalu symiau pellach. Cydnabyddir rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig fel traul yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan ddarperir y gwasanaethau gan y cyflogeion.

### Cynlluniau aml-gyflogwr

Lle nad yw'r Brifysgol yn gallu nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n tanategu cynllun aml-gyflogwr ar sail resymol a chyson, mae'n cyfrifyddu fel pe bai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Lle mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gytundeb gyda chynllun aml-gyflogwr o'r fath sy'n pennu sut bydd y Brifysgol yn cyfrannu at gynllun adennill diffyg, mae'r Brifysgol yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer y cyfraniadau taladwy yn unol â'r cytundeb, i'r graddau y maent yn berthnasol i'r diffyg, a chydnabyddir y traul canlyniadol mewn gwariant.

### Cynllun Buddion Diffiniedig

Mae Cynllun Buddion Diffiniedig yn gynllun budd ôl-gyflogaeth nad yw'n gynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn unol â chynlluniau buddion diffiniedig, rhwymedigaeth y Brifysgol yw darparu'r buddion cytunedig i gyflogeion presennol a chyn gyflogeion, a'r Brifysgol sy'n gyfrifol am effeithiau risg actiwaraidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddi (y bydd enillion ar asedau a neilltuwyd i ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl). Cydnabyddir y rhwymedigaeth net yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol mewn perthynas â phob cynllun ar sail gwerth presennol y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig ar y dyddiad adrodd, namyn gwerth teg asedau'r cynllun ar y dyddiad adrodd.

Bob blwyddyn, mae'r Brifysgol yn comisiynu actiwarïaid annibynnol i gyfrifo'r rhwymedigaeth ar gyfer pob cynllun. Cyfrifir y gwerth presennol drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt i'r amcangyfrif o daliadau'r dyfodol ar sail elw'r farchnad ar fondiau corfforaethol ansawdd uchel, wedi eu mynegi'n Sterling ar delerau sy'n seiliedig ar amcangyfrif o gyfnod y taliadau yn y dyfodol.

Cyfrifir gwerth teg asedau cynllun yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi'r Brifysgol ar gyfer asedau sy'n cael eu dal mewn modd tebyg. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau prisio priodol.

Caiff enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau ar gyfer profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraidd eu cofnodi fel costau neu gredyd i incwm cynhwysfawr arall.

Caiff y symiau hyn, ynghyd ag enillion ar asedau cynllun, namyn symiau wedi'u cynnwys mewn llog net, eu datgelu fel enillion a cholledion actiwaraidd.

Mae cost y cynllun buddion diffiniedig, a gydnabyddir yn y gwariant fel costau staff ac eithrio lle caiff ei chynnwys yng nghost ased, yn seiliedig ar y cynnydd yn y rhwymedigaeth i dalu buddion pensiwn mewn perthynas â gwasanaeth cyflogai yn y cyfnod a chost cyflwyniadau i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, cwtogiadau a setliadau. Cyfrifir y gost llog net drwy gymhwyso'r gyfradd ddisgownt i'r rhwymedigaeth net. Cydnabyddir y gost hon mewn gwariant fel cost gyllid.

Darperir rhagor o fanylion am y cynlluniau pensiwn penodol yn nodyn 31 i'r cyfrifon.

## 9. Buddion Cyflogaeth

Cydnabyddir buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau â thâl, fel treuliau yn y flwyddyn pan fo'r cyflogeion yn darparu'r gwasanaeth i'r Brifysgol. Caiff buddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur i gyfrifo'r swm ychwanegol mae'r Brifysgol yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawl heb ei defnyddio. Cydnabyddir hawl i wyliau blynyddol heb eu defnyddio ar 31 Gorffennaf fel credydwr yn achos staff gweinyddol. Nid oes credydwr ar gyfer gwyliau blynyddol heb eu defnyddio gan academyddion oherwydd nad oes rhwymedigaeth.

Cydnabyddir taliadau terfynu cyflogaeth yn y dyfodol o dan y cynllun ymadael yn wirfoddol yn y flwyddyn gyfredol, dim ond lle cafwyd cytundeb ffurfiol ac ymrwymiad i'r terfynu hwnnw ar sail unigolyn erbyn 31 Gorffennaf.

## 10. Prydlesi Cyllid

Mae prydlesi lle mae'r Brifysgol yn ysgwyddo holl risgiau a gwobrau perchnogaeth yr ased ar brydles i raddau helaeth yn cael eu dosbarthu fel prydlesi cyllid. Mae asedau ar brydles sy'n cael eu caffael drwy brydlesi cyllid yn cael eu datgan ar yr isaf o'u gwerth teg a gwerth presennol isafswm taliadau'r brydles ar ddechrau'r brydles, namyn dibrisiad wedi'i gronni a cholledion wedi'u cronni oherwydd amhariad.

Cyfrifir am daliadau prydles fel y'i disgrifir isod. Dosrennir isafswm taliadau prydles rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n ddyledus. Dyrennir y tâl cyllid i bob cyfnod yn ystod tymor y brydles er mwyn creu cyfradd llog gyfnodol gyson ar falans gweddill y rhwymedigaeth.

## 11. Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth

Cydnabyddir asedau sefydlog a ddelir o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar sail gwerth presennol isafswm y taliadau prydles pan ddefnyddir yr asedau gyda'r rhwymedigaeth ariannol gyfatebol.

Dyrennir taliadau o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth rhwng costau gwasanaethau, taliadau cyllid ac ad-daliadau rhwymedigaeth ariannol i leihau'r rhwymedigaeth ariannol i ddim dros oes y trefniant.

Mae preswylfeydd Campws y Bae a Champws Parc Singleton wedi'u dosbarthu fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth.

## 12. Prydlesi Gweithredu

Caiff costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff premiymau neu gymhellion sy'n gysylltiedig â phrydles eu lledaenu dros isafswm tymor y brydles.

## 13. Arian Cyfred Tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi i bunnau Sterling gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid sydd ar waith ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ar ddyddiad y Datganiad o Sefyllfa Ariannol eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid dramor sydd ar waith ar y dyddiad hwnnw. Cydnabyddir gwahaniaethau mewn cyfraddau cyfnewid tramor sy'n codi adeg trosi yn y datganiad o incwm. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a

fesurir yn nhermau cost hanesyddol mewn arian cyfred tramor eu trosi gan ddefnyddio'r gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y trafodiad. Caiff asedau a rhwymedigaethau anariannol a fynegir mewn arian cyfred tramor ac a nodir ar sail gwerth teg eu hail-drosi i'r arian cyfred gweithredol gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid tramor sydd ar waith ar y dyddiadau y pennwyd y gwerth teg.

### 14. Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar

Cofnodir eiddo, peiriannau a chyfarpar ar sail y gost dybiedig namyn dibrisiad cronedig a cholledion cronedig o ganlyniad i amhariad.

#### Tir ac adeiladau

Caiff tir ac adeiladau eu cyfalafu ar sail cost pan gânt eu cydnabod i ddechrau.

Ar ôl eu cydnabod y tro cyntaf, wedi hynny caiff tir ac adeiladau eu mesur ar sail costau namyn dibrisiad cronedig a cholledion a gronnwyd o ganlyniad i amhariad.

Cafodd tir ac adeiladau a oedd gan y Brifysgol adeg y newid i FRS102 a chyflwyno SORP Addysg Uwch newydd 2015, eu hailbrisio ar sail gwerth teg ar ddyddiad y newid. Caiff y rhain eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad. Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi'i ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn. Caiff swm sydd gyfwerth â'r dibrisiad sy'n fwy na'r swm ar sail cost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion argadwedig ar sail flynyddol.

Caiff costau sy'n gysylltiedig â thir ac adeiladau ar ôl iddynt gael eu prynu neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu buddion disgwyliedig i'r Brifysgol yn y dyfodol.

Lle bo oes ddefnyddiol rhannau o'r asedau'n amrywio, cânt eu nodi fesul cydran a chyfrifir amdanynt fel eitemau asedau sefydlog ar wahân.

Nid yw tir rhydd-ddaliol yn cael ei ddibrisio oherwydd ystyrir bod ei oes ddefnyddiol yn amhenodol. Caiff adeiladau rhydd-ddaliol eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Brifysgol, sef rhwng 12 a 75 o flynyddoedd.

Ni chodir dibrisiant ar asedau wrth iddynt gael eu hadeiladu a chyflymir dibrisiant pan fo dyddiad dymchwel yn hysbys.

Caiff tir ac adeiladau prydles eu dibrisio dros gyfnod y brydles hyd at uchafswm o 50 o flynyddoedd.

#### Cyfarpar

Caiff cyfarpar sy'n costio mwy na £25,000 am bob eitem unigol eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael. Caiff cyfarpar a brynwyd fel rhan o becyn neu raglen adnewyddu, lle mae'r pecyn cyfan yn costio mwy na £25,000 eu cyfalafu ym mlwyddyn eu caffael hefyd. Caiff yr holl gyfarpar eraill eu dibrisio ym mlwyddyn eu caffael, oni bai bod rheswm penodol dros gyfalafu.

Caiff cyfarpar wedi'u cyfalafu eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig. Yr oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yw tair i bum mlynedd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol lle tybir bod yr oes ddefnyddiol yn hwy neu'n fyrrach.

Caiff dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

#### Llongau

Caiff llongau eu datgan ar sail cost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig.

Caiff dulliau dibrisio, oesau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol eu hadolygu ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

#### Costau Benthyca

Cydnabyddir costau benthyca fel treuliau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnod yr aethpwyd i'r costau.

#### Amhariad

Cynhelir adolygiad o amhariad ar eiddo, peiriannau a chyfarpar bob blwyddyn. Ceir amhariad ar asedau pan fo digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu efallai na fydd modd adennill swm i'w gario ymlaen yr eiddo, y peiriannau a'r cyfarpar.

### 15. Asedau Treftadaeth

Caiff gwaith celf ac arteffactau gwerthfawr eraill eu cyfalafu a'u cydnabod ar sail cost neu werth y caffaeliad, lle bo modd cyfrifo cost neu werth yn rhesymol.

Ni chaiff asedau treftadaeth eu dibrisio am fod eu hoes economaidd hir a'u gwerth gweddilliol uchel yn golygu na fyddai unrhyw ddibrisiad yn berthnasol.

Lle nad yw asedau treftadaeth wedi cael eu cyfalafu, datgelir manylion am natur ac oedran yr asedau hyn.

### 16. Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau anghyfredol eu dal ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar sail cost wedi'i hamorteiddio namyn amhariad.

Nodir buddsoddiadau mewn endidau a reolir ar y cyd, is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiol ar sail cost namyn amhariad yng nghyfrifon y Brifysgol.

Caiff buddsoddiadau asedau cyfredol eu dal ar sail gwerth teg a chydnabyddir newidiadau yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 17. Stoc

Caiff stoc ei ddal ar yr isaf o gost a gwerth net y gellir ei wireddu.

### 18. Arian parod ac asedau cyfwerth

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alw a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alwad os ydynt ar gael yn ymarferol o fewn dau ddiwrnod gwaith heb gosb.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau tymor byr hynod hylifol sydd ar gael yn hwylus i'w trosi i symiau hysbys o arian parod heb risg sylweddol o newid eu gwerth.

### 19. Darpariaethau, rhwymedigaethau digwyddiadol ac asedau digwyddiadol

Cydnabyddir darpariaethau yn y datganiadau ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

a) mae rhwymedigaeth bresennol (gyfreithiol neu ddeongliadol) gan y Brifysgol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol.

b) mae'n debygol y bydd angen all-lif o fuddion economaidd i fodloni'r rhwymedigaeth, a

c) gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Pennir y swm a gydnabyddir fel darpariaeth drwy gymhwyso cyfradd ddisgownt cyn treth ar y llifoedd arian disgwyliedig yn y dyfodol er mwyn adlewyrchu risgiau sy'n benodol i'r rhwymedigaeth.

Ceir rhwymedigaeth ddigwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosib ar y Brifysgol na chaiff ei bodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau penodol - neu absenoldeb digwyddiadau penodol - yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol. Gall rhwymedigaethau digwyddiadol godi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen all-lif o adnoddau, neu nid oes ffordd ddibynadwy o fesur y rhwymedigaeth.

Ceir ased digwyddiadol o ganlyniad i ddigwyddiad sy'n rhoi ased posib i'r Brifysgol na chaiff ei fodolaeth ei chadarnhau ond drwy ddigwyddiadau amhenodol – neu absenoldeb digwyddiadau amhenodol – yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Brifysgol.

Ni chydnabyddir asedau a rhwymedigaethau digwyddiadol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ond cânt eu datgelu yn y nodiadau.

### 20. Cyfrifyddu ar gyfer Cwmnïau Cysylltiol, Gweithrediadau ar y Cyd, Asedau a Reolir ar y Cyd a Gweithrediadau a Reolir ar y Cyd

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o fentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

Mae'r Brifysgol yn cyfrifyddu am ei chyfran o drafodion o weithrediadau ar y cyd ac asedau a reolir ar y cyd yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

### 21. Trethiant

Mae'r Brifysgol yn elusen yn ôl ystyr Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010, ac yn unol â hynny, gallai'r brifysgol gael ei heithrio o drethiant mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbyniwyd o fewn categorïau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 (CTA 2010) neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y mae incwm neu enillion o'r fath yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol yn unig.

Nid yw'r Brifysgol yn derbyn eithriad tebyg mewn perthynas â Threth ar Werth. Mae TAW ar fewnbynnau nad oes modd ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghost y cyfryw fewnbynnau. Mae TAW nad oes modd ei hadennill a ddyrennir i asedau sefydlog wedi'i chynnwys yn eu cost.

Rhaid i is-gwmnïau'r Brifysgol dalu Treth Gorfforaeth yn yr un modd â phob sefydliad masnachol arall.

### 22. Cronfeydd wrth gefn

Dyrennir cronfeydd wrth gefn rhwng cronfeydd cyfyngedig a chronfeydd anghyfyngedig wrth gefn. Mae gwaddolion wrth gefn cyfyngedig yn cynnwys arian a gedwir, drwy waddol i'r Brifysgol, fel cronfa gyfyngedig barhaol oherwydd bod rhaid i'r Brifysgol gadw'r gronfa am byth.

Mae cronfeydd wrth gefn cyfyngedig eraill yn cynnwys rhoddion arian y mae'r rhoddwr wedi pennu diben penodol iddynt, ac felly mae cyfyngiad ar y Brifysgol o ran defnyddio'r cronfeydd hyn.

### 23. Amcangyfrifon a barnau cyfrifyddu allweddol

Mae'r amcangyfrifon a'r barnau arwyddocaol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r wybodaeth ariannol hon fel a ganlyn:

#### Rhwymedigaethau o ran buddion ymddeol

Mae'r Brifysgol yn gweithredu ei chynllun ei hun, Cynllun Pensiwn Prifysgol Abertawe (SUPS), sy'n gynllun buddion diffiniedig (ar gau i aelodau newydd bellach). Cynhelir prisiadau gan actiwarïaid o'r cynllun yn unol â chyfarwyddyd yr Ymddiriedolwyr o leiaf bob tair blynedd.

Asesir costau pensiwn o dan SORP Addysg Uwch ac FRS102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol ar sail y prisiadau actiwaraidd diweddaraf a thybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid. Mae'r tybiaethau'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan y Brifysgol i'r actiwarïaid, wedi'i hategu gan benderfyniadau rhwng yr actiwarïaid a'r rheolwyr. Cofnodir y tybiaethau yn nodyn 31.

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin, fel arfer gyda chyflogwr noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac mae'n cynrychioli (fel arfer) gynllun diwydiant cyfan, gan gynnwys Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion.

Mae'r cyfrifyddu am gynllun aml-gyflogwr lle mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut bydd y cyflogwr hwnnw'n ariannu diffyg yn arwain at gydnabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau taladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) a chydnabyddir y costau o ganlyniad fel elw neu golled yn unol ag adran 28 FRS 102. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod Cynllun Blwydd-dal y Prifysgolion yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr. Os bydd diffyg gan y cynllun Pensiwn, mae'r Brifysgol yn cydnabod gwerth teg ar sail cyfradd ddisgownt y cyfraniadau cytundebol o dan y cynllun adennill sydd ar waith. Os bydd rhwymedigaeth dan gontract gan y Brifysgol i wneud taliadau i adennill y diffyg i USS, cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

Yn dilyn prisiad teirblwydd diweddaraf USS, nid oes gan y Cynllun Pensiwn ddiffyg mwyach, felly ni chydnabyddir darpariaeth ar 31 Gorffennaf. Caiff y sefyllfa hon ei hasesu eto ar ôl pob prisiad teirblwydd. Ceir rhagor o fanylion yn nodyn 31.

# DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024*

| | NODIADAU | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2024 | Y BRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2024 | CYFUNOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023 | Y BRIFYSGOL Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 GORFFENNAF 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **INCWM** | | | | | |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 1 | **213,306** | **213,306** | 198,881 | 198,881 |
| Grantiau corff ariannu | 2 | **40,503** | **40,503** | 74,176 | 74,176 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 3 | **56,852** | **56,852** | 67,098 | 67,098 |
| Incwm arall | 4 | **62,896** | **62,481** | 66,067 | 65,742 |
| Incwm o fuddsoddi | 5 | **7,214** | **7,214** | 6,124 | 6,124 |
| Rhoddion a Gwaddolion | 6 | **924** | **924** | 291 | 291 |
| **CYFANSWM INCWM** | | **381,695** | **381,280** | 412,637 | 412,312 |
| **GWARIANT** | | | | | |
| Costau staff | 7 | **201,208** | **200,818** | 195,864 | 195,518 |
| Y newid mewn cyfraniadau a ddisgwylir at gynllun USS | 7 | **(98,742)** | **(98,742)** | (31,704) | (31,704) |
| Costau ailstrwythuro | 7 | **8,461** | **8,461** | 108 | 108 |
| Treuliau gweithredu eraill | 9 | **147,288** | **146,811** | 140,183 | 139,831 |
| Dibrisiant ac amorteiddio | 10/11 | **31,784** | **31,779** | 32,636 | 32,629 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 8 | **8,780** | **8,763** | 11,604 | 11,605 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 9 | **298,779** | **297,890** | 348,691 | 347,987 |
| **Gwarged cyn enillion/(colledion) eraill, a chyfran o warged / (ddiffyg) gweithredol cyd-fentrau a chwmnïau cysylltiol** | | **82,916** | **83,390** | 63,946 | 64,325 |
| **ENILLION A CHOLLEDION ERAILL** | | | | | |
| Enillion ar waredu asedau diriaethol | 10 | **445** | **445** | 226 | 226 |
| Enillion / (Colled) ar fuddsoddiadau | 14/22 | **384** | **237** | 269 | (1,351) |
| Cyfran o elw/(diffyg) gweithredu mewn cwmni cysylltiol | 14 | **29** | **–** | 77 | (48) |
| **GWARGED AC INCWM CYNHWYSFAWR** | | | | | |
| **GWARGED CYN TRETHIANT** | | **83,774** | **84,072** | 64,518 | 63,152 |
| Trethiant | | **(33)** | **–** | (20) | – |
| **GWARGED AM Y FLWYDDYN** | | **83,741** | **84,072** | 64,498 | 63,152 |
| **Incwm Cynhwysfawr Arall**<br>(Colled)/Enillion actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 31 | **(3,400)** | **(3,400)** | 18,600 | 18,600 |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | | **80,341** | **80,672** | 83,098 | 81,752 |
| **CYNRYCHIOLIR GAN:** | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn | 22 | **664** | **664** | 1 | 1 |
| Incwm cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | 23 | **648** | **648** | 135 | 135 |
| Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig am y flwyddyn | | **80,034** | **80,365** | 84,501 | 83,155 |
| Ailbrisio incwm cynhwysfawr wrth gefn am y flwyddyn | | **(1,005)** | **(1,005)** | (1,539) | (1,539) |
| | | **80,341** | **80,672** | 83,098 | 81,752 |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant mewn perthynas â gweithgareddau parhaus. Mae'r nodiadau a'r polisïau esboniadol ar dudalennau 88 i 113 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn



# DATGANIAD O NEWID YN Y CRONFEYDD WRTH GEFN CYFUNOL A RHAI'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024*

| | CRONFA INCWM A GWARIANT WRTH GEFN | | | CRONFA AILBRISIO WRTH GEFN | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| | GWADDOLION | CYFYNGEDIG | ANGHYFYNGEDIG | | |
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **CYFUNOL** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2022** | 7,307 | 52 | 113,936 | 42,622 | **163,917** |
| Gwarged o'r datganiad o incwm a gwariant | 40 | 135 | 64,323 | – | **64,498** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | 18,600 | – | **18,600** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,539 | (1,539) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddol a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (39) | – | 39 | – | **–** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | 7,308 | 187 | 198,437 | 41,083 | **247,015** |
| **AR 1 AWST 2023** | 7,308 | 187 | 198,437 | 41,083 | **247,015** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 695 | 648 | 82,398 | – | **83,741** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | (3,400) | – | **(3,400)** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,005 | (1,005) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddol a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (31) | – | 31 | – | **–** |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | 664 | 648 | 80,034 | (1,005) | **80,341** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | 7,972 | 835 | 278,471 | 40,078 | **327,356** |
| **Y BRIFYSGOL** | | | | | |
| **AR 1 AWST 2022** | 7,307 | 52 | 115,065 | 42,622 | **165,046** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 40 | 135 | 62,977 | – | **63,152** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | 18,600 | – | **18,600** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,539 | (1,539) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddol a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (39) | – | 39 | – | **–** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2023** | 7,308 | 187 | 198,220 | 41,083 | **246,798** |
| **AR 1 AWST 2023** | **7,308** | **187** | **198,220** | **41,083** | **246,798** |
| Gwarged o'r datganiad incwm a gwariant | 695 | 648 | 82,729 | – | **84,072** |
| Incwm cynhwysfawr arall | – | – | (3,400) | – | **(3,400)** |
| Trosglwyddiadau rhwng y gronfa ailbrisio a'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn | – | – | 1,005 | (1,005) | **–** |
| Rhyddhau cronfeydd gwaddol a chyfyngedig a wariwyd yn y flwyddyn | (31) | – | 31 | – | **–** |
| **CYFANSWM INCWM CYNHWYSFAWR AM Y FLWYDDYN** | **664** | **648** | **80,365** | **(1,005)** | **80,672** |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | **7,972** | **835** | **278,585** | **40,078** | **327,470** |

# DATGANIAD O LIFOEDD ARIAN PAROD CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024*

| | NODIADAU | CYFUNOL 31 GORFFENNAF 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 31 GORFFENNAF 2024 £000 | CYFUNOL 31 GORFFENNAF 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 31 GORFFENNAF 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | | | |
| Asedau anniriaethol | 11 | **444** | **444** | 316 | 316 |
| Asedau diriaethol | 10 | **480,323** | **480,249** | 473,112 | 473,029 |
| Asedau treftadaeth | 12 | **1,040** | **1,040** | 1,025 | 1,025 |
| Buddsoddiadau | 14 | **555** | **–** | 594 | – |
| Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau | 14 | **–** | **700** | – | 700 |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 14 | **154** | **–** | 125 | – |
| | | **482,516** | **482,433** | 475,172 | 475,070 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | | |
| Stociau | 15 | **93** | **–** | 129 | 16 |
| Masnach ac arian arall i'w dderbyn | 17 | **41,452** | **41,421** | 53,763 | 53,920 |
| Buddsoddiadau | 16 | **5,364** | **5,364** | 54,941 | 54,941 |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod | | **120,756** | **120,580** | 123,403 | 123,187 |
| | | **167,665** | **167,365** | 232,236 | 232,064 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | | | |
| Namyn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 18 | **(100,621)** | **(134,075)** | (139,576) | (139,623) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | **67,044** | **67,241** | 98,104 | 97,989 |
| **CYFANSWM ASEDAU NAMYN RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | **549,560** | **549,674** | 573,276 | 573,059 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 19 | **(203,204)** | **(203,204)** | (209,420) | (209,420) |
| **DARPARIAETHAU** | | | | | |
| Darpariaeth pensiynau | 21 | **(19,000))** | **(19,000)** | (116,841) | (116,841) |
| **CYFANSWM ASEDAU NET** | | **327,356** | **327,470** | 247,015 | 246,798 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN CYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn | 22 | **7,972** | **7,972** | 7,308 | 7,308 |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – gwaddolion wrth gefn cyfyngedig | 23 | **835** | **835** | 187 | 187 |
| **CRONFEYDD WRTH GEFN ANGHYFYNGEDIG** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | **278,471** | **278,585** | 198,437 | 198,220 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | **40,078** | **40,078** | 41,083 | 41,083 |
| **CYFANSWM CRONFEYDD WRTH GEFN** | | **327,356** | **327,470** | 247,015 | 246,798 |

Mae'r nodiadau a'r polisïau esboniadol yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Cyngor ar 25 Tachwedd 2024 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran ar y dyddiad hwnnw gan:



**Yr Athro P Boyle (Is-ganghellor)**



**Mr Goi Ashmore (Cadeirydd y Cyngor)**



# DATGANIAD O SEFYLLFA ARIANNOL CYFUNOL A'R SEFYDLIAD

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024*

| | NODIADAU | 31 GORFFENNAF 2024 £000 | 31 GORFFENNAF 2023 £000 |
|---|---|---|---|
| **LLIF ARIAN O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | | |
| Gwarged am y flwyddyn cyn trethiant | | **83,774** | 64,518 |
| **ADDASIAD AR GYFER EITEMAU AC EITHRIO ARIAN PAROD** | | | |
| Dibrisiant | 10 | **31,663** | 32,556 |
| Amorteiddio eitemau anniriaethol | 11 | **121** | 80 |
| (Colled) ar Fuddsoddiadau | | **(384)** | (269) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn stoc | | **36** | (24) |
| Gostyngiad mewn dyledwyr | | **9,004** | 1,705 |
| (Gostyngiad )/cynnydd mewn credydwyr | | **(34,180)** | 22,914 |
| (Gostyngiad) mewn darpariaethau pensiwn | | **(101,241)** | (35,423) |
| Cyfran o ddiffyg gweithredu mewn cwmni cysylltiol | | **(29)** | (77) |
| **ADDASIAD AR GYFER GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI NEU GYLLIDO** | | | |
| Incwm o fuddsoddi | | **(7,214)** | (6,124) |
| Incwm o grantiau cyfalaf | | **(5,327)** | (35,942) |
| Llog i'w dalu | | **5,701** | 5,933 |
| Incwm o Waddolion | | **(85)** | (9) |
| (Enillion) ar werthu asedau diriaethol | | **(445)** | (226) |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | **(18,606)** | 49,612 |
| Trethiant | | **(33)** | (20) |
| **(ALL-LIF) / MEWNLIF ARIAN PAROD NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDU** | | **(18,639)** | 49,592 |
| **LLIFOEDD ARIAN PAROD O WEITHGAREDDAU BUDDSODDI** | | | |
| Derbyniadau grant cyfalaf | | **7,115** | 8,122 |
| Enillion o werthu asedau diriaethol | | **445** | 901 |
| Taliadau i brynu asedau diriaethol | | **(32,044)** | (38,309) |
| Taliadau i gaffael asedau anniriaethol | | **(249)** | (396) |
| Gostyngiad/(cynnydd) mewn adneuon | | **50,000** | (50,000) |
| Incwm o fuddsoddi | | **8,732** | 4,606 |
| | | **33,999** | (75,076) |
| **LLIFOEDD ARIAN O WEITHGAREDDAU CYLLIDO** | | | |
| Llog a dalwyd | | **(2,820)** | (2,961) |
| Elfen llog prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(2,881)** | (2,972) |
| Elfen cyfalaf prydlesi cyllid a threfniadau consesiwn gwasanaeth | | **(6,584)** | (6,495) |
| Gwaddolion newydd | | **85** | 9 |
| Benthyciadau anwarantedig newydd | | **–** | 2,300 |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | | **(6,077)** | (5,817) |
| | | **(18,277)** | (15,936) |
| **GOSTYNGIAD MEWN ARIAN PAROD AC EITEMAU CYFWERTH AG ARIAN PAROD YN Y FLWYDDYN** | | **(2,917)** | (41,420) |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | **123,275** | 164,695 |
| Arian parod ac eitemau cyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | | **120,358** | 123,275 |

# NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL

*Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2024*

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **1. FFÏOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG** | | | | |
| Myfyrwyr amser llawn cartref a'r UE | **112,721** | **112,721** | 120,329 | 120,329 |
| Myfyrwyr amser llawn rhyngwladol | **82,580** | **82,580** | 59,280 | 59,280 |
| Myfyrwyr rhan-amser | **3,536** | **3,536** | 4,582 | 4,582 |
| Contractau addysgol gyda'r GIG ac AaGIC | **14,389** | **14,389** | 14,602 | 14,602 |
| Ffioedd cyrsiau heb eu hachredu | **80** | **80** | 88 | 88 |
| | **213,306** | **213,306** | 198,881 | 198,881 |

I gynhyrchu ffi ddysgu amser llawn cartref a'r UE mae'r Brifysgol wedi gwario £4,016 k (2023: £4,000k) mewn perthynas â bwrsariaethau yn unol â'r cynllun ffioedd.

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **2. GRANTIAU CYRFF CYLLIDO** | | | | |
| **GRANTIAU CYLCHOL** | | | | |
| Grantiau Addysgu CCAUC | **10,222** | **10,222** | 9,563 | 9,563 |
| Grantiau Ymchwil CCAUC | **18,376** | **18,376** | 19,328 | 19,328 |
| Grant cyfalaf HERC | **3,371** | **3,371** | 2,021 | 2,021 |
| | **31,969** | **31,969** | 30,912 | 30,912 |
| **GRANTIAU PENODOL A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN** | | | | |
| Lles ac Iechyd Myfyrwyr | **1,204** | **1,204** | 1,250 | 1,250 |
| Ymchwil ac Arloesi | **2,631** | **2,631** | 5,929 | 5,929 |
| Yr Iaith Gymraeg | **1,516** | **1,516** | 1,423 | 1,423 |
| Arall | **1,709** | **1,709** | 741 | 741 |
| Cyfalaf | **1,474** | **1,474** | 33,921 | 33,921 |
| | **8,534** | **8,534** | 43,264 | 43,264 |
| | **40,503** | **40,503** | 74,176 | 74,176 |

Mae incwm o grantiau cyfalaf yn cynnwys £3,296k mewn perthynas ag adeiladau (2023: £35,076k) a £1,549k mewn perthynas â chyfarpar (2023: £866k).

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **3. GRANTIAU A CHONTRACTAU YMCHWIL** | | | | |
| Cynghorau Ymchwil | **25,656** | **25,656** | 20,713 | 20,713 |
| Elusennau yn y DU | **4,023** | **4,023** | 3,563 | 3,563 |
| Diwydiant a masnach yn y DU | **3,022** | **3,022** | 3,060 | 3,060 |
| Llywodraeth (y DU a thramor) | **20,358** | **20,358** | 36,625 | 36,625 |
| Arall | **3,793** | **3,793** | 3,137 | 3,137 |
| | **56,852** | **56,852** | 67,098 | 67,098 |

Mae grantiau llywodraeth (y DU a thramor) uchod yn cynnwys £482k, sef grantiau cyfalaf a dderbyniwyd yn y flwyddyn (2023: £400k).



| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **4. INCWM ARALL** | | | | |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | **25,192** | **25,192** | 26,252 | 26,252 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | **2,095** | **2,095** | 2,709 | 2,709 |
| Incwm o drefniadau consesiwn gwasanaeth | **9,466** | **9,466** | 9,466 | 9,466 |
| Incwm arall | **16,377** | **15,962** | 20,554 | 20,229 |
| Incwm o'r GIG mewn perthynas â'r Coleg Meddygaeth | **7,632** | **7,632** | 5,055 | 5,055 |
| Dyfarniad Hyfforddiant Doethurol/Cydweithredol amser llawn y Cynghorau Ymchwil | **2,134** | **2,134** | 2,031 | 2,031 |
| | **62,896** | **62,481** | 66,067 | 65,742 |

Mae incwm arall yn cynnwys incwm o gydweithrediadau o £5,559k (2023: £6,900k), £2,050k o incwm ystadau (2023: £1,300k), a £1,096k o incwm y ganolfan chwaraeon (2023: £900k).

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **5. INCWM O FUDDSODDI** | | | | |
| Incwm buddsoddi ar waddolion | **224** | **224** | 145 | 145 |
| Incwm Buddsoddi Arall | **6,990** | **6,990** | 5,979 | 5,979 |
| | **7,214** | **7,214** | 6,124 | 6,124 |

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **6. RHODDION A GWADDOLION** | | | | |
| Gwaddolion newydd | **85** | **85** | 9 | 9 |
| Rhoddion â chyfyngiadau | **728** | **728** | 196 | 196 |
| Rhoddion anghyfyngedig | **111** | **111** | 86 | 86 |
| | **924** | **924** | 291 | 291 |

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **7. COSTAU STAFF** | | | | |
| Y costau staff ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd: | | | | |
| Cyflogau | **163,271** | **162,881** | 157,678 | 157,332 |
| Costau nawdd cymdeithasol | **16,700** | **16,700** | 15,852 | 15,852 |
| Costau pensiwn eraill | **21,237** | **21,237** | 22,334 | 22,334 |
| **CYFANSWM COSTAU STAFF** | **201,208** | **200,818** | 195,864 | 195,518 |
| **NEWID YN Y CYFRANIADAU A DDISGWYLIR AT GYNLLUN USS** | **(98,742)** | **(98,742)** | (31,704) | (31,704) |
| **COSTAU AILSTRWYTHURO:** | **8,461** | **8,461** | 108 | 108 |

Yn ystod blwyddyn 2023/24, lansiodd y Brifysgol Gynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES) newydd a oedd ar gael i'r holl staff, gan gynnig taliadau digolledu uwch i gyflogeion a oedd am adael y Brifysgol yn wirfoddol. Mae'r gost, sef £8,461k (2023: £108k) yn cynnwys yr holl staff a dderbyniwyd i'r cynllun VES ar 31 Gorffennaf 2024 ac a gymeradwywyd gan y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, y Prif Swyddog Ariannol, y Deoniaid Gweithredol, y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae Nodyn 31, Cynlluniau Pensiwn, yn cynnwys dadansoddiad pellach o gostau pensiwn.

| | **2024** £000 | 2023 £000 |
|---|---|---|
| **CYFANSWM CYDNABYDDIAETH ARIANNOL YR IS-GANGHELLOR** | | |
| Cyflog sylfaenol | **335** | 323 |
| Lwfans llety | **18** | 16 |
| Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr | **9** | 20 |
| Taliadau trethadwy eraill | **14** | – |
| | **376** | 359 |

Mae taliadau trethadwy eraill yn ymwneud â chostau cyfreithiol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu Strategaeth Wobrwyo'r Brifysgol ac am bennu cydnabyddiaeth ariannol ac amodau a thelerau ar gyfer yr Is-ganghellor ac uwch-aelodau eraill o'r staff.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried fforddiadwyedd a gwybodaeth gymharol ynghylch cydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yn y sector prifysgolion a'r cyd-destun ehangach lle y bo'n briodol. Wrth bennu'r gydnabyddiaeth ariannol i'w dyfarnu, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried ymagwedd y Brifysgol at gydnabod perfformiad ac yn cyfeirio at wybodaeth feincnodi'r sector a geir o Arolwg Cyflogau Uwch-swyddogion yr UCEA. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â gofynion Côd Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-swyddogion Addysg Uwch Pwyllgor y Cadeiryddion Prifysgol (CUC).

Gan ystyried yr arbedion cost arfaethedig i wella cynaliadwyedd ariannol y Brifysgol, cymeradwyodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol argymhelliad gan yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth na ddylid cynnal y cylch Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2023 i gydweithwyr Gradd 10A, cydweithwyr Gradd 11, yr Uwch-dîm Arweinyddiaeth a'r Is-ganghellor.

Yn y blynyddoedd blaenorol, fodd bynnag, mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo ymagwedd at gydnabyddiaeth ariannol aelodau o'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth (gan gynnwys yr Is-ganghellor), a oedd yn ystyried y canlynol:

i. Cromliniau Perfformiad Athrawol y Brifysgol;

ii. Argymhellion manwl ynghylch perfformiad a chydnabyddiaeth ariannol.

Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth adolygu cynigion blaenorol i wobrwyo perfformiad wedi cynnwys:

a) perfformiad wrth gefnogi amcanion strategol y sefydliad mewn meysydd megis ymchwil; addysgu; arloesi ac ymgysylltu; arweinyddiaeth a rheoli; partneriaethau a chysylltiadau allanol, yn rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol; a mentrau a phrosiectau mawr;

b) maint a chymhlethdod y sefydliad;

c) natur y marchnadoedd addysg uwch a materion recriwtio a chadw;

ch) amcanion y sefydliad mewn perthynas ag amrywiaeth y gweithlu; a

Chafwyd data i gefnogi'r dangosyddion hyn o'r ffynonellau canlynol:
a) Arolwg Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-aelodau staff Cymdeithas Cyflogwyr y Prifysgolion a'r Colegau;

b) dadansoddiad o ddosbarthiadau cyflog.

Gan gydnabod gweledigaeth y Brifysgol fel Prifysgol egwyddorol, bwrpasol a gwydn sy'n cydbwyso addysgu rhagorol â gwaith ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf, mewn amgylchedd sy'n galluogi ein myfyrwyr a'n cydweithwyr i ragori, ynghyd â chael ein gwerthfawrogi'n fyd-eang fel partner dibynadwy sy'n hollol ymroddedig i'n rhanbarth ac yn falch o fod yn Brifysgol i Gymru, mae'n hanfodol bod y Brifysgol yn cynnig pecyn cydnabyddiaeth ariannol cystadleuol ar gyfer rôl yr Is-ganghellor. Mae hyn hefyd yn cydnabod nifer staff a myfyrwyr y Brifysgol, a natur amrywiol a chymhleth y sefydliad.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am adolygu a phennu pob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol, buddion ac amodau cyflogaeth yr Is-ganghellor, gan ystyried hyd a lled y cyfrifoldebau arweinyddiaeth ac ariannol, a chyflawni yn erbyn amcanion strategol y Brifysgol. Nid yw'r Is-ganghellor yn bresennol yn ystod trafodaethau a phenderfyniadau ynghylch ei gydnabyddiaeth ariannol ei hun ac nid yw'n cyfrannu at y rhain.

Wrth ystyried pecyn cydnabyddiaeth ariannol yr Is-ganghellor, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yn ystyried y cyd-destun sefydliadol, ynghyd â pherfformiad yr Is-ganghellor, symudiad cyffredinol cyflogau holl staff y Brifysgol, materion cadw staff ac unrhyw ystyriaethau perthnasol y farchnad, ac mae'n cael ei lywio gan ddata meincnodi mewnol a gwybodaeth meincnodi cyflogau yn erbyn prifysgolion cymharol.

Ceir rhagor o wybodaeth yn Natganiad Cydnabyddiaeth Ariannol 2024.
www.swansea.ac.uk/cy/y-brifysgol/amdanom-ni/llywodraethu'r-brifysgol/atebolrwydd-cyhoeddus/datganiad-ar-gyflog-uwch-aelodau-staff-ym-mhrifysgol-abertawe

Mae'r Is-ganghellor wedi'i gofrestru yn y trefniant optio allan uwch yng Nghynllun Blwydd-dal y Prifysgolion (USS).

Mae cyflog sylfaenol pennaeth y darparwr 9.4 gwaith canolrif cyflogau staff (2023: 9.2 gwaith), lle cyfrifir canolrif cyflogau ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau a delir gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cydnabyddiaeth ariannol gyfan pennaeth y darparwr 9.9 gwaith cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol y staff (2023: 9.9 gwaith), lle cyfrifir cyfanswm canolrif cydnabyddiaeth ariannol ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y gydnabyddiaeth ariannol gyfan gan y Brifysgol i'w staff.

Mae cyfrifiadau'r canolrif yn cynnwys cyflogau a ariennir yn rhannol gan y GIG.



## STAFF AR GYFLOGAU UWCH

Mae nifer y staff sy'n ennill cyflog sylfaenol sy'n uwch na £100k y flwyddyn wedi'i gynnwys isod.
Cydnabyddiaeth ariannol staff ar gyflogau uwch (heblaw am yr Is-ganghellor), ac eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond gan gynnwys taliadau a wneir ar ran y GIG mewn perthynas â'i rwymedigaethau dan gontract i staff y Brifysgol ar gontractau cyflogaeth ar wahân y GIG ac a ad-delir i'r Brifysgol gan y GIG, oedd:

Yn 2024 roedd 65 aelod staff ar gyflogau uwch (2023: 60)

| | **CYFUNOL 2024 NIFER** | **Y BRIFYSGOL 2024 NIFER** | CYFUNOL 2023 NIFER | Y BRIFYSGOL 2023 NIFER |
|---|---|---|---|---|
| £100,000 – £104,999 | **8** | **8** | 8 | 8 |
| £105,000 – £109,999 | **9** | **9** | 5 | 5 |
| £110,000 – £114,999 | **3** | **3** | 7 | 7 |
| £115,000 – £119,999 | **10** | **10** | 6 | 6 |
| £120,000 – £124,999 | **5** | **5** | 8 | 8 |
| £125,000 – £129,999 | **4** | **4** | 5 | 5 |
| £130,000 – £134,999 | **4** | **4** | 5 | 5 |
| £135,000 – £139,999 | **5** | **5** | 1 | 1 |
| £140,000 – £144,999 | **3** | **3** | 1 | 1 |
| £145,000 – £149,999 | **1** | **1** | – | – |
| £150,000 – £154,999 | **–** | **–** | – | – |
| £155,000 – £159,999 | **2** | **2** | 3 | 3 |
| £160,000 – £164,999 | **2** | **2** | – | – |
| £165,000 – £169,999 | **1** | **1** | 1 | 1 |
| £170,000 – £174,999 | **1** | **1** | 3 | 3 |
| £175,000 – £179,999 | **2** | **2** | 2 | 2 |
| £180,000 – £184,999 | **1** | **1** | – | – |
| £185,000 – £189,999 | **–** | **–** | 1 | 1 |
| £190,000 – £194,999 | **1** | **1** | 2 | 2 |
| £195,000 – £199,999 | **–** | **–** | 1 | 1 |
| £200,000 – £204,999 | **–** | **–** | – | – |
| £205,000 – £209,999 | **1** | **1** | – | – |
| £210,000 – £214,999 | **–** | **–** | – | – |
| £215,000 – £219,999 | **–** | **–** | – | – |
| £220,000 – £224,999 | **–** | **–** | – | – |
| £225,000 – £229,999 | **1** | **1** | 1 | 1 |
| £230,000 – £234,999 | **1** | **1** | – | – |

| | **2024** | 2023 |
|---|---|---|
| **DIGOLLEDIAD TALADWY AM GOLLI SWYDD I STAFF AR GYFLOGAU UWCH:** | £000 | £000 |
| Digolledіad a thaliadau diswyddo a dalwyd i staff y Brifysgol ar gyflogau uwch | **172** | 86 |
| Nifer o staff y Brifysgol ar gyflogau uwch a dderbyniodd ddigolledіad neu daliad diswyddo | **1** | 1 |

## NIFER CYFARTALOG Y STAFF (GAN GYNNWYS DEILIAID UWCH SWYDDI) A GYFLOGIR GAN Y BRIFYSGOL

Nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd gan y Brifysgol yn ystod y flwyddyn, wedi'i fynegi fel CALl (cyfwerth ag amser llawn):

| | 2024 Nifer (CALl) | 2023 Nifer (CALl) |
|---|---|---|
| Academaidd | 1,197 | 1,135 |
| Ymchwil | 398 | 481 |
| Rheolwyr ac arbenigwyr | 1,049 | 1,071 |
| Technegol | 191 | 184 |
| Arall | 826 | 843 |
| | 3,661 | 3,714 |

## PERSONÉL RHEOLI ALLWEDDOL

Personél rheoli allweddol yw'r staff hynny y mae ganddynt awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r sefydliad. Mae swyddogion rheoli allweddol yn cynnwys yr uwch-swyddogion gweithredol, gan gynnwys yr Is-ganghellor, y Cofrestrydd a Phrif Swyddog Gweithredu, tri Dirprwy Is-ganghellor, tri Deon Gweithredol a'r Prif Swyddog Ariannol.

| | 2024 £000 | 2023 £000 |
|---|---|---|
| Personél Rheoli Allweddol | 1,717 | 2,046 |

Yn ystod mis Ionawr 2024, penodwyd yr Athro Ryan Murphy yn Ddirprwy Is-ganghellor / Deon Gweithredol ar gyfer Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol ar ôl cyflawni'r rôl ar sail interim ers mis Mai 2023. Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer y Personél Rheoli Allweddol o 8 i 9.

## 8. LLOG A CHOSTAU ARIANNOL ERAILL

| | NODYN | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llog ar fenthyciadau | | 2,820 | 2,803 | 2,961 | 2,962 |
| Prydlesi cyllid, gan gynnwys trefniadau consesiwn gwasanaeth | | 2,881 | 2,881 | 2,972 | 2,972 |
| Dad-ddirwyn ffactor disgownt cynllun USS | | 2,279 | 2,279 | 4,471 | 4,471 |
| Cost llog pensiwn net | 31 | 800 | 800 | 1,200 | 1,200 |
| | | 8,780 | 8,763 | 11,604 | 11,605 |

## 9. DADANSODDIAD O WARIANT YN ÔL GWEITHGARWCH

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Adrannau academaidd | 142,133 | 142,133 | 140,631 | 140,630 |
| Gwasanaethau academaidd | 38,097 | 38,097 | 35,088 | 35,087 |
| Grantiau a chontractau ymchwil | 49,919 | 49,919 | 60,369 | 60,368 |
| Preswylfeydd, arlwyo a chynadleddau | 28,369 | 28,369 | 25,093 | 25,094 |
| Adeiladau | 48,674 | 48,674 | 40,920 | 40,920 |
| Gwasanaethau Proffesiynol | 68,208 | 68,208 | 64,068 | 64,068 |
| Addasiadau ar gyfer cronfa USS | (99,641) | (99,642) | (34,622) | (34,622) |
| Arall | 23,022 | 22,132 | 17,145 | 16,442 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | 298,781 | 297,890 | 348,691 | 347,987 |



## MAE GWARIANT ARALL UCHOD YN CYNNWYS:

| | 2024 £000 | 2023 £000 |
|---|---|---|
| Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | 9,944 | 10,034 |
| Costau ailstrwythuro: | 8,461 | 108 |

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Brifysgol gostau ailstrwythuro o £8,461k (2023: (108k) o ganlyniad i lansio Cynllun Ymadael yn Wirfoddol (VES) newydd sydd ar gael i'r holl staff, gan gynnig taliadau digolledu uwch i gyflogeion sy'n dymuno gadael y Brifysgol yn wirfoddol.

## TREULIAU GWEITHREDU ERAILL YN UNOL Â'R DATGANIAD O INCWM CYNHWYSFAWR

| | CYFUNOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 |
|---|---|---|
| Cyfarpar heb ei gyfalafu | 12,241 | 14,913 |
| Nwyddau traul | 5,127 | 6,960 |
| Rhent, ardrethi a phrydlesi | 24,604 | 21,523 |
| Atgyweiriadau, gwaith adnewyddu, cynnal a chadw a chostau adeiladau | 10,548 | 9,693 |
| Gwres, golau, pŵer a dŵr | 13,595 | 10,115 |
| Ysgoloriaethau, bwrsariaethau, gwobrau a chyfraniadau at ffioedd | 20,702 | 19,772 |
| Llyfrau, cyhoeddiadau, cyfnodolion a gwasanaethau llyfrgell | 3,962 | 4,357 |
| Recriwtio myfyrwyr a hysbysebu | 12,438 | 9,496 |
| Ymgynghori, gwasanaethau proffesiynol ac asiantaethau | 22,306 | 22,938 |
| Costau teithio a chynadleddau | 6,815 | 7,296 |
| Gwariant mewn perthynas â chyflogeion | 3,647 | 4,441 |
| Tanysgrifiadau a chyfraniadau | 3,242 | 2,442 |
| Treuliau swyddfa | 1,271 | 1,543 |
| Arlwyo | 1,520 | 1,343 |
| Treuliau eraill | 5,270 | 3,351 |
| | 147,288 | 140,183 |

## FFÏOEDD YR ARCHWILWYR ALLANOL

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Archwiliad o'r Brifysgol a'i his-gwmnïau | 170 | 137 | 158 | 126 |
| Gwasanaethau sicrhau mewn perthynas â'r archwiliad | 21 | 21 | 15 | 15 |
| Gwasanaethau cydymffurfiaeth trethiant | 14 | – | 15 | – |
| Gwasanaethau cynghori ar drethiant | 168 | 168 | 21 | 21 |
| **GWASANAETHAU NAD YDYNT YN YMWNEUD Â'R ARCHWILIAD** | 203 | 189 | 51 | 36 |

## 10. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – CYFUNOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Gosodion, Ffitiadau a Chyfarpar | Llongau | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 425,579 | 164,474 | 79,301 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 683,048 |
| Ychwanegiadau | 4,011 | 6,848 | 2,607 | – | 25,411 | 15 | 38,892 |
| Trosglwyddiadau | 17,483 | – | 1,629 | – | (19,112) | – | – |
| Amhariad | – | – | (2) | – | – | – | (2) |
| Gwarediadau | – | – | (21,264) | – | – | – | (21,264) |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 447,073 | 171,322 | 62,271 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 700,674 |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 40,078 | – | – | – | – | – | 40,078 |
| Cost | 406,995 | 171,322 | 62,271 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 660,596 |
| | 447,073 | 171,322 | 62,271 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 700,674 |
| **DIBRISIAD CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 88,844 | 59,911 | 59,895 | 261 | – | – | 208,911 |
| Tâl am y flwyddyn | 14,356 | 7,063 | 10,182 | 63 | – | – | 31,664 |
| Gwarediadau | – | – | (21,264) | – | – | – | (21,264) |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 103,200 | 66,974 | 48,813 | 324 | – | – | 219,311 |
| **SWM I'W GARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 343,873 | 104,348 | 13,458 | 1,242 | 17,402 | 1,040 | 481,363 |
| Ar 1 Awst 2023 | 336,735 | 104,563 | 19,406 | 1,305 | 11,103 | 1,025 | 474,137 |



## ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU SEFYDLOG – Y BRIFYSGOL

| | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliad | Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth | Gosodion, Ffitiadau a Chyfarpar | Llongau | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Asedau Treftadaeth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **COST** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 425,579 | 164,474 | 78,061 | 1,566 | 11,103 | 1,025 | 681,808 |
| Ychwanegiadau | 4,011 | 6,848 | 2,607 | – | 25,411 | 15 | 38,892 |
| Trosglwyddiadau | 17,483 | – | 1,629 | – | (19,112) | – | – |
| Gwarediadau | – | – | (21,264) | – | | – | (21,264) |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 447,073 | 171,322 | 61,033 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 699,436 |
| **AR SAIL PRISIAD AR:** | | | | | | | |
| 31 Gorffennaf 2014 | 40,078 | – | – | – | – | – | 40,078 |
| Cost | 406,995 | 171,322 | 61,033 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 659,358 |
| | 447,073 | 171,322 | 61,033 | 1,566 | 17,402 | 1,040 | 699,436 |
| **DIBRISIAD CRONEDIG** | | | | | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 88,844 | 59,911 | 58,738 | 261 | – | – | 207,754 |
| Tâl am y flwyddyn | 14,356 | 7,063 | 10,175 | 63 | – | – | 31,657 |
| Gwarediadau | – | – | (21,264) | – | – | – | (21,264) |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 103,200 | 66,974 | 47,649 | 324 | – | – | 218,147 |
| **SWM I'W GARIO YMLAEN** | | | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2024 | 343,873 | 104,348 | 13,384 | 1,242 | 17,402 | 1,040 | 481,289 |
| Ar 1 Awst 2023 | 336,735 | 104,563 | 19,323 | 1,305 | 11,103 | 1,025 | 474,054 |

Prisiwyd tir ac eiddo'r Brifysgol yn llawn ar 31 Gorffennaf 2014 gan syrfewyr siartredig cymwysedig, yn unol â Safonau Prisio RICS 2014 (y Llyfr Coch). Yn unol â FRS 102, paragraff 35.10, mae'r Brifysgol wedi dewis mesur tir ac eiddo ar sail gwerth teg ar y dyddiad trosiannol, 31 Gorffennaf 2014, a defnyddio'r gwerth teg fel y gost dybiedig ar y dyddiad hwnnw. Mae'r eiddo'n cael eu dibrisio o ddyddiad y prisiad. Wrth i'r asedau gael eu dibrisio neu eu gwerthu, gwneir trosglwyddiad priodol o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i'r gronfa incwm a gwariant wrth gefn. Dadansoddiad o'r tir a'r adeiladau a brisiwyd ar ddyddiad y newid i FRS 102 gan ddefnyddio'r eithriad cost dybiedig.

Ar 31 Gorffennaf 2024, roedd tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys £16.5 miliwn (2023: £16.5 miliwn) mewn perthynas â thir rhydd-ddaliad nad yw wedi cael ei ddibrisio.

Yn dilyn adolygiad o'r asedau diriaethol, nid ystyriwyd bod angen nodi amhariad yn 2024 (2023: £0)

## 11. ASEDAU ANNIRIAETHOL

Cyfunol a'r Brifysgol

| | MEDDALWEDD £000 | ASEDAU SY'N CAEL EU DATBLYGU £000 | CYFANSWM £000 |
|---|---|---|---|
| **COST** | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 240 | 156 | 396 |
| Ychwanegiadau | 124 | 125 | 249 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **364** | **281** | **645** |
| **AMORTEIDDIO** | | | |
| Ar 1 Awst 2023 | 80 | – | 80 |
| Tâl am y flwyddyn | 121 | – | 121 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **201** | **–** | **201** |
| **GWERTH LLYFR NET** | | | – |
| **Ar 31 Gorffennaf 2024** | **163** | **281** | **444** |
| Ar 31 Gorffennaf 2023 | 160 | 156 | 316 |

Mae ychwanegiadau meddalwedd yn y flwyddyn yn ymwneud â phlatfform Service Now y Brifysgol. Caiff meddalwedd ei hamorteiddio ar sail llinell syth dros ei hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r asedau sy'n cael eu datblygu'n ymwneud â dylunio a gweithredu platfform meddalwedd i gefnogi datblygiadau rhwydwaith. Ni chaiff asedau sy'n cael eu datblygu eu hamorteiddio.

## 12. ASEDAU ANGHYFREDOL – ASEDAU TREFTADAETH

Mae asedau treftadaeth sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol yn cyfeirio'n bennaf at gasgliad celf y Brifysgol. Ceir asedau treftadaeth eraill nad ydym yn gallu eu prisio oherwydd eu natur ac felly, nid ydynt wedi cael eu cynnwys.

Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn gartref i Gasgliad Wellcome, sy'n cynnwys henbethau ac arteffactau Eifftaidd. Mae'r asedau hyn yn unigryw ac yn anadnewyddadwy. Mae'r Ganolfan Eifftaidd yn amgueddfa gydnabyddedig, wedi'i hachredu gan Gyngor y Celfyddydau, ac mae'n bartner ACCES cydnabyddedig. Ei nod yw casglu, dehongli a gofalu am ddeunyddiau a dogfennau archeolegol o'r Aifft, ac mae cadwraeth yn rhan hollbwysig o'i gwaith. Caiff yr holl bolisïau eu hadolygu gan Gyngor y Celfyddydau. Mae Casgliad Wellcome ar gael i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol, ysgolion lleol a'r cyhoedd ei weld.

Cydnabyddir y casgliad o luniau a chelf ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o dan Asedau Treftadaeth a chafodd ei brisio yn 2008 gan brisiwr annibynnol a chyfrifwyd amdano ar sail cost dybiedig ar y dyddiad trosiannol. Gellir gweld y rhan fwyaf o'r casgliad celf ledled y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol gasgliad arian hefyd, sy'n cynnwys powlenni, fasau a chwpanau cystadlaethau yn dyddio rhwng y 1950au a'r 1980au. Ni ellir rhoi pris i'r casgliad hwn, felly nid yw wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol. Cedwir y casgliad yn ddiogel, ond mae ar gael i'w archwilio ar gais.

Mae gan y Brifysgol lawysgrifau gan Dylan Thomas hefyd a brynwyd gan ddefnyddio cronfeydd y Brifysgol.

## 13. TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH

Mae gan y Brifysgol chwe Threfniant Consesiwn Gwasanaeth yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

**NEWID MEWN ASEDAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**
Gwerth ased y consesiwn gwasanaeth sydd wedi'i gynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2024 yw £104,348k (1 Awst 2023: £104,563k).

Mae'r gostyngiad o £215k o ganlyniad i ddibrisiad o £7,063k a godwyd yn y flwyddyn, namyn ychwanegiad o £6,848k (nodyn 10). Mae'r ychwanegiad yn 2023/24 yn uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol (2023: £3,424k). Yn unol â chontractau Preswyl Campws y Bae, mae'n ofynnol i'r Brifysgol enwebu'r holl ystafelloedd os yw'n darparu llety arall yn yr ardal leol, am hyd y contractau preswyl ychwanegol. Mae'r contractau hyn ar waith am ddwy flynedd academaidd hyd at 2025/26, gan ofyn am warant ychwanegol o ddwy flynedd.

**NEWID MEWN RHWYMEDIGAETHAU TREFNIADAU CONSESIWN GWASANAETH**
Cyfanswm y rhwymedigaethau mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth a gynhwyswyd yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol ar 31 Gorffennaf 2024 oedd £116,225k (1 Awst 2023: £115,961k). Cynyddodd rhwymedigaethau £264k yn ystod y flwyddyn. Gwnaeth y broses ddileu flynyddol o ran y brydles leihau'r rhwymedigaeth £6,548k a chynyddodd y rhwymedigaeth £6,848k oherwydd yr ychwanegiad mewn perthynas â'r warant feddiannaeth dwy flynedd.



**YMRWYMIADAU YN Y DYFODOL**
Mae'r tabl hwn yn dadansoddi ymrwymiadau'r Brifysgol yn y dyfodol mewn perthynas â threfniadau consesiwn gwasanaeth.

| £'000 | TALADWY MEWN 1 FLWYDDYN | TALADWY MEWN 2-5 MLYNEDD | TALADWY MEWN >5 MLYNEDD | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| Ad-daliadau rhwymedigaethau | 6,679 | 17,468 | 92,078 | 116,225 |
| Cost cyllid | 2,787 | 10,123 | 32,736 | 45,646 |
| | **9,466** | **27,591** | **124,814** | **161,871** |

Cyn diwygio'r Datganiadau Ariannol i adlewyrchu FRS102, roedd y Brifysgol wedi ymrwymo i'r prydlesi canlynol nad oeddent yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol o'r blaen. Mae'r prydlesi hyn bellach wedi cael eu cynnwys yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol fel Trefniadau Consesiwn Gwasanaeth. Mae'r nodiadau isod yn rhoi rhagor o wybodaeth am y trefniadau hyn:

**PRESWYLFEYDD GWALIA**
Cam 1 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd a ddechreuodd yn 2004 i adeiladu tri bloc newydd o lety yn cynnwys 272 o unedau. Y warant feddiannaeth yw 100%.

Cam 2 Gwalia – Prydles 30 o flynyddoedd a ddechreuodd yn 2010 yn cynnwys 351 o unedau, gan gadw'r lloriau isaf ar gyfer gweithgareddau'r Brifysgol. Y warant feddiannaeth yw 100%.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1A**
Ym mis Medi 2015 dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti ar gyfer darparu a chynnal a chadw Cam 1A llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 899 o ystafelloedd ar gyfer 923 o fyfyrwyr. Ym mis Chwefror 2018, ymrwymodd y trydydd parti – gyda chydsyniad y Brifysgol – i gytundeb i drosglwyddo'r contract i drydydd parti arall. Yn unol â thelerau'r cytundeb newydd, estynnwyd y brydles tan 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n sicrhau taliadau blynyddol o £1,485k a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti).
Ar ddiwedd y contract, mae gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1B**
Ym mis Ionawr 2016 dechreuodd y Brifysgol gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti ar gyfer darparu a chynnal a chadw cam 1B llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 545 o ystafelloedd sengl. Ym mis Chwefror 2018, trosglwyddwyd y contract i drydydd parti arall ac estynnwyd y brydles i 2062.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n sicrhau taliadau blynyddol o £823k, a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti).
Ar ddiwedd y contract, mae gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**PRESWYLFEYDD Y BAE – CAM 1C**
Ar 15 Rhagfyr 2015 aeth y Brifysgol i gontract 45 o flynyddoedd gyda darparwr trydydd parti ar gyfer darparu a chynnal a chadw cam 1C llety myfyrwyr ar Gampws y Bae, gan ddarparu 538 o ystafelloedd sengl.

Caiff yr asedau a'r rhwymedigaethau sy'n ymwneud â'r cynllun hwn eu cydnabod ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol y Brifysgol.

Mae gan y Brifysgol warant feddiannaeth flynyddol o 50%, sy'n sicrhau taliadau blynyddol o £1,056k, a gofnodir o fewn Incwm Cynhwysfawr Arall.

Mae gan y Brifysgol hawl unigryw dros yr holl unedau llety i enwebu meddiannaeth gan fyfyrwyr tan 30 Mawrth cyn tymor mis Medi. Ar ben hynny, mae gan y Brifysgol hawl i enwebu meddiannaeth unedau llety dros gyfnod yr haf (yn amodol ar drafodaethau ymlaen llaw â'r trydydd parti). Ar ddiwedd y contract 45 o flynyddoedd, mae gan y Brifysgol opsiwn i brynu'r preswylfeydd am ffi opsiwn enwol o £1.00.

**ADEILAD ACADEMAIDD Y COLEG**
Ar 8 Medi 2017, ymrwymodd y Brifysgol i gontract 20 mlynedd gyda darparwr trydydd parti i ddarparu a chynnal a chadw Adeilad Academaidd.

Mae'r Brifysgol wedi gwarantu 35% o'r adeilad sy'n gyfwerth ag ymrwymiad i daliadau gros blynyddol o £357k.

Mae gan y Brifysgol hawliau unigryw i'r 35% o'r adeilad a neilltuwyd ac mae'n rheoli defnydd yn yr ardal hon.

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **14. BUDDSODDIADAU ANGHYFREDOL** | | | | |
| Buddsoddiadau mewn cwmnïau cysylltiol | 154 | – | 125 | – |
| Buddsoddiad mewn is-gwmnïau | – | 700 | – | 700 |
| Buddsoddiadau eraill | 555 | – | 594 | – |
| | 709 | 700 | 719 | 700 |

**BUDDSODDIAD MEWN CWMNÏAU CYSYLLTIOL**

Mae gan y Sefydliad y buddsoddiadau 50% canlynol yn Swan Global Education LLP (2023: 50%) a Phwll Cenedlaethol Cymru Abertawe (2023: 50%). Cyfrifir am y buddsoddiadau ar sail cost namyn amhariad yn natganiadau ariannol y Sefydliad a chan ddefnyddio'r dull ecwiti yn y datganiadau ariannol cyfunol.

| | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2023 | 125 | – | 48 | 48 |
| Cyfran colled / (elw) a gedwir gan y cwmni cysylltiol | 29 | – | 77 | (48) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | 154 | – | 125 | – |

| **BUDDSODDIAD MEWN IS-GWMNÏAU** | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2023 | – | 700 | – | 1,929 |
| Ychwanegiadau | – | 186 | – | 35 |
| Amhariad | – | (186) | – | (1,264) |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | – | 700 | – | 700 |

Mae'r £186k am fuddsoddiad ac amhariad yn ymwneud â'r endid is-gwmni y mae'r Brifysgol yn berchen yn llwyr arno, Swansea Materials Research & Testing Ltd.

| **BUDDSODDIADAU ERAILL** | CYFUNOL 2024 £000 | Y BRIFYSGOL 2024 £000 | CYFUNOL 2023 £000 | Y BRIFYSGOL 2023 £000 |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Awst 2023 | 594 | – | 238 | – |
| Amhariad/Gwrthdroi amhariad | (44) | – | 54 | – |
| Ailbrisio | 5 | – | 302 | – |
| **AR 31 GORFFENNAF 2024** | 555 | – | 594 | – |

| **MAE BUDDSODDIADAU ERAILL YN CYNNWYS:** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ar sail gwerth teg: | | | | |
| Gwarantau'r farchnad | 102 | – | 207 | – |
| Ar sail cost namyn amhariad: | | | | |
| Buddsoddiadau'r grŵp mewn cwmnïau deillio | 453 | – | 387 | – |
| | 555 | – | 594 | – |



Manylion buddsoddiadau lle mae'r grŵp cyfunol a'r Brifysgol yn dal 20% neu fwy o werth enwol unrhyw ddosbarth o gyfranddaliadau:

| CWMNI | SWYDDFA GOFRESTREDIG | PRIF WEITHGARWCH | DALIAD | STATWS |
|---|---|---|---|---|
| Gower Innovations Ltd | Prifysgol Abertawe, SA1 8EN | Gweithgarwch gweithgynhyrchu arall nad yw wedi'i ddosbarthu'n rhywle arall | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Trameto Ltd | Villa House 7 Herbert Terrace Penarth CF64 2AH | Gweithgynhyrchu cydrannau electronig | Cyfranddaliadau cyffredin | 23% |
| ProGnomics Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Semitechnologies Ltd | Azets, SA7 9FS | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 20% |
| Bay Campus Developments LLP | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Segur | Partner | 50% |
| WNPS | Pwll Cenedlaethol Cymru, SA2 8QG | Gweithredu cyfleusterau chwaraeon | Gwarant | 50% |
| Swan Global Education | The Lambourn Wyndyke Furlong, Abingdon, Swydd Rydychen OX14 1UJ | Addysgol | Partner | 50% |
| Swansea Materials Research and Testing | Prifysgol Abertawe, SA2 8PP | Ymchwil arall a datblygu arbrofol ym maes y gwyddorau naturiol a pheirianneg | Cyfranddaliadau cyffredin | 100% |
